

Cyngor Sir Caerfyrddin a Chyngor Sir Penfro

Astudiaeth Economaidd y Ddwy Sir - Diweddariad 2020-21

Adolygiad o Ymyriadau 2019

Adroddiad Terfynol

Fersiwn | Ionawr 2021, rhagolygon wedi'u diweddarau Gwanwyn /
Haf 2021

Mae'r adroddiad hwn yn ystyried
cyfarwyddiadau a gofynion penodol ein cleient.

Nid yw wedi'i fwriadu, ac ni ddylai fod,
ar gyfer unrhyw drydydd parti er mwyn iddo
ddibynnu arno ac ni wneir unrhyw gyfrifoldeb i
unrhyw drydydd parti.

Rhif gorchwyl 268379-00

Ove Arup & Partners Ltd
4 Stryd Pierhead
Caerdydd, CF10 4QP
Y Deyrnas Unedig
www.arup.com

ARUP

Gwirio dogfennau

ARUP

Enw'r gorchwyl		Astudiaeth Economaidd y Ddwy Sir - Diweddariad 2020-21		Rhif gorchwyl	
Teitl y ddogfen		Adolygiad o Ymyriadau 2019		Cyfeirnod y ffeil	
Cyfeirnod y ddogfen		Adroddiad Terfynol			
Adolygiad	Dyddiad	Enw'r ffeil	2020.11.09 Final Report.docx		
Drafft 1	9 Tach 2020	Disgrifiad	Drafft cyntaf		
			Paratowyd gan	Gwiriwyd gan	Cymeradwywyd gan
		Enw	Emmeline Reynish	Victoria Robinson	David Brown
		Llofnod			
Fersiwn	22 Ion 2021	Enw'r ffeil	2020.01.22 Final Report.docx		
		Disgrifiad			
			Paratowyd gan	Gwiriwyd gan	Cymeradwywyd gan
		Enw	Emmeline Reynish	Victoria Robinson	David Brown
	Llofnod				
Fersiwn Terfynol	12 Tach 2021	Enw'r ffeil	2021.11.12 Final PCES Review of 2019 Interventions Report ISSUE		
		Disgrifiad			
			Paratowyd gan	Gwiriwyd gan	Cymeradwywyd gan
		Enw	Emmeline Reynish	Victoria Robinson	David Brown
	Llofnod				
		Enw'r ffeil			
		Disgrifiad			
			Paratowyd gan	Gwiriwyd gan	Cymeradwywyd gan
		Enw			
		Llofnod			



Cynnwys

	Tudalen
1 Rhagarweiniad	1
1.1 Trosolwg	1
1.2 Diben y Diweddariad ar yr Astudiaeth Economaidd 'Mwy na Lleol'	2
2 Diweddariad 'Mwy na Lleol': Man Cychwyn	4
2.1 Trosolwg	4
2.2 Diweddariad 'Mwy na Lleol': Man Cychwyn	4
3 Diweddariad 'Mwy na Lleol': Proffil o Ardal yr Astudiaeth	9
3.1 Trosolwg	9
3.2 Diweddariad 'Mwy na Lleol': Newidiadau i Gyd-destun ac Amcanion Cenedlaethol, Rhanbarthol, Lleol	9
3.3 Diweddariad 'Mwy na Lleol': Cyd-destun Cymdeithasol, Amgylcheddol ac Economaidd Newidiol	19
4 Diweddariad 'Mwy na Lleol': Dadansoddiad SWOT	22
4.1 Trosolwg	22
5 Diweddariad 'Mwy na Lleol': Profi Ymyriadau 2019	25
5.1 Trosolwg	25
5.2 Profi Ymyriadau 2019 : Methodoleg	25
5.3 Profi'r Ymyriadau: Tablau Asesu Risg	28
6 Casgliad	44
6.1 Diben Diweddariad 2020-21	44
6.2 Prif Negeseuon	44

Tablau

Tabl 1 Brexit a Covid-19 Ionawr 2020 Dadansoddiad o Gyfleoedd a Bygythiadau 'Cychwynnol'

Tabl 2 Meini Prawf Asesu Risg

Tabl 3 Meini Prawf Hyd

Tabl 4 Manteisio i'r eithaf ar gryfderau sectorau presennol

Tabl 5 Ymateb i alw o fewn sectorau a chefnogi cwmnïau brodorol

Tabl 6 Archwilio cyfleoedd i weithio mewn partneriaeth â'r sector preifat i leihau dibyniaeth ar gyllid y sector cyhoeddus

Tabl 7 Cadw asedau strategol ar gyfer galw yn y dyfodol

Tabl 8 Adolygiad cychwynnol o Ymyriadau ar Safleoedd Strategol

Tabl 9 Adolygu mentrau gofodol presennol ac arfaethedig

Tabl 10 Cydgysylltu, rhwydweithiau a chymorth busnes

Tabl 11 Sicrhau ystod eang o sgiliau ar wahanol lefelau

Tabl 12 Cysylltedd a lle

Ffigurau

Ffigur 1 Y Fethodoleg ar gyfer Diweddariad 2020-21

Ffigur 2 Diweddariad 2020-21 - Llinell Amser y Prosiect

1 Rhagarweiniad

1.1 Trosolwg

Ers cyhoeddi Astudiaeth Economaidd y Ddwy Sir ar gyfer Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro yn 2019 bu newid economaidd nas gwelwyd ei fath o'r blaen ar draws Ardal yr Astudiaeth 'mwy na lleol', yn benodol mewn perthynas ag ymadawiad y DU o'r Undeb Ewropeaidd ('Brexit') a dechrau'r pandemig Covid-19. Mae'r 'ergydion' economaidd hyn wedi cael effaith ddofn ar raddfa leol, ranbarthol, genedlaethol a rhyngwladol.

I gydnabod hyn, comisiynwyd Ove Arup and Partners Ltd. ('Arup') gan Gyngor Sir Penfro, Cyngor Sir Caerfyrddin ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro i ymgymryd â 'Diweddariad 2020-21' ar Astudiaeth Economaidd 'Mwy na Lleol' y Ddwy Sir ar gyfer holl ardaloedd y Cynghorau Sir, a gyhoeddwyd gyntaf ym mis Hydref 2019¹.

Comisiynwyd Astudiaeth Economaidd y Ddwy Sir 2019 (y cyfeirir ati yma fel '**astudiaeth 2019**') er mwyn darparu sail ar gyfer cynllunio'r ddarpariaeth o dir a safleoedd strategol ar gyfer gweithgarwch economaidd ar draws yr ardal 'Mwy na Lleol'. Canlyniad cyffredinol yr astudiaeth oedd pennu ymyriadau penodol i safle ar gyfer defnyddiau cyflogaeth traddodiadol (dosbarthiadau defnydd B), ac ymyriadau seiliedig ar feini prawf ar gyfer sectorau penodol nad ydynt yn gysylltiedig â thir.

Arweiniodd **Astudiaeth 2019** at gyhoeddi'r allbynnau canlynol:

- Astudiaeth Economaidd y Ddwy Sir – Adroddiad Terfynol
- Atodiad A - Adolygiad Llenyddiaeth
- Atodiad B - Adolygiad Sylfaenol
- Atodiad C - Adolygiad Safleoedd Strategol
- Adroddiad Cryno ar yr Ymyriadau a'r Safleoedd Strategol.

Roedd **astudiaeth 2019**, a'r ymyriadau a gynigiwyd, yn ffurfio rhan o'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer yr adolygiadau o'r Cynllun Datblygu Lleol a gynhelir gan bob un o'r Cynghorau Sir a'r²³ polisiâu drafft ar sail gwybodaeth yn ymwneud â thwff cyflogaeth a dyrannu safleoedd strategol.

Mae **Diweddariad 2020-21** yn ceisio 'profi' perthnasedd a graddfa'r newid ar gyfer pob un o'r ymyriadau a'r argymhellion am safleoedd strategol a gyflwynwyd yn astudiaeth 2019 yng ngoleuni cyd-destun economaidd sy'n newid yn gyflym.

¹ D.S. Roedd Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog hefyd yn bartner wrth baratoi astudiaeth 2019; fodd bynnag, nid oedd yn rhan o gomisiwn diweddar 2020/21

² Cyngor Sir Penfro (2019) <https://www.sir-benfro.gov.uk/adolygur-cynllun-datblygu-lleol/cdli-2-aail-dystiolaeth> [cyrchwyd ar: 18.01.2021]

³ Cyngor Sir Caerfyrddin (2019) <https://www.sirgar.llyw.cymru/cartref/gwasanaethaur-cyngor/cynllunio/cynllun-datblygu-lleol-2018-2033/datblygu-sylfaen-o-dystiolaeth/#.YfEnM-QafIq> [cyrchwyd ar: 18.01.2021]

Cyflwynir dibenion cyffredinol Diweddariad 2020-21 yn fanylach yn adran 1.2 dros y dudalen.

1.2 Diben y Diweddariad ar yr Astudiaeth Economaidd 'Mwy na Lleol'

Diben y Diweddariad ar yr Astudiaeth Economaidd 'Mwy na Lleol' yw:

- Defnyddio diweddariad sylfaenol 2020-21 er mwyn 'asesu risg' y canfyddiadau sy'n deillio o astudiaeth 2019 (SWOT, gofynion tir ac ymyriadau), i sicrhau bod Astudiaeth Economaidd y Ddwy Sir yn parhau i fod yn ddogfen sylfaen dystiolaeth 'Mwy na Lleol' gadarn i gefnogi'r gwaith o ddatblygu dogfennau Cynllun Datblygu Lleol Cyngor Sir Penfro a Chyngor Sir Caerfyrddin.
- Ailedrych ar y dadansoddiad meintiol o'r galw a ragwelir am safleoedd cyflogaeth a diweddarau hyn gyda senarios 'flwyddyn yn ddiweddarach' o gyhoeddi astudiaeth 2019 (**Atodiad B**). Yn ogystal, mae Diweddariad 2020-21 yn ceisio ategu'r canfyddiadau hyn â thystiolaeth anecdotaidd yn deillio o waith ymgysylltu penodol ychwanegol a gynhaliwyd gyda rhanddeiliaid yn hydref 2020, ynghyd â negeseuon cyd-destunol sy'n dod i'r amlwg trwy adolygiad llenyddiaeth wedi'i ddiweddarau (**Atodiad A**).
- Gan ddefnyddio asesiad risg astudiaeth 2019 a'r dadansoddiad meintiol 'blwyddyn yn ddiweddarach' diwygiedig o'r galw a ragwelir, i ddeall a oes yna feysydd y bydd angen unrhyw gyfiawnhad pellach arnynt i sicrhau bod Astudiaeth Economaidd y Ddwy Sir yn parhau i fod yn ddogfen ddigon hyblyg i wrthsefyll y llinell sylfaen economaidd newidiol a achosir gan Brexit ac adfer yn sgil Covid-19.

Yn ogystal, mae Diweddariad 2020-21 hefyd wedi cynnwys paratoi dangosfwrdd i ddeall ymhellach oblygiadau gofodol y pandemig Covid-19 a dangosyddion economaidd allweddol eraill. Wedi'i baratoi ar ddiwedd 2020, roedd hyn yn ddefnyddiol drwy gydol y pandemig i ddod i gasgliadau gofodol mewn perthynas â'r sectorau economaidd sydd wedi dioddef waethaf, a'r effaith y mae hyn yn ei chael ar ganfyddiadau 2019, gan hefyd ddarparu offeryn gwerthfawr i'r Cynghorau Sir y gellir ei ddefnyddio y tu hwnt i gyd-destun Astudiaeth Economaidd y Ddwy Sir. Lle bo'n berthnasol, gellir gweld 'cipluniau' o'r dangosfwrdd yn **Atodiad A**, yr adolygiad sylfaenol.

Nid yw'r Adroddiad Diweddarau hwn (gan gynnwys yr Adolygiad o Ymyriadau Astudiaeth 2019; Atodiad A Adolygiad Sylfaenol ac Atodiad B Adolygiad o Ragolygon) yn rhestr gynhwysfawr o ddiweddariadau ac nid yw wedi ceisio ailadrodd gwybodaeth a gasglwyd fel rhan o astudiaeth 2019. Ni fwriedir iddo ychwaith fod yn llinell sylfaen bendant o'r holl strategaethau a mentrau economaidd yn Ardal yr Astudiaeth.

Yn ogystal, gan mai dim ond ar 1 Ionawr 2021 y daeth Trefniant Masnachu'r UE-DU i rym, ac nid yw effeithiau tymor canolig Covid-19 yn glir eto, nid yw'r effeithiau'n hysbys eto. Bydd nifer fawr o fygythiadau a chyfleoedd canfyddedig

yn dibynnu ar allu busnesau unigol a'r llywodraeth i ymateb mewn modd ystwyth i'r newidiadau hyn.

Bydd diweddariadau parhaus i'r Astudiaeth hon, y SWOT a'r Adolygiad Sylfaenol felly'n parhau'n hanfodol drwy gydol 2021-22 a thu hwnt.

2 Diweddariad 'Mwy na Lleol': Man Cychwyn

2.1 Trosolwg

Dylid nodi mai'r man cychwyn ar gyfer Diweddariad 2020-21 oedd astudiaeth 2019, ac felly, fel y nodwyd uchod, nid bwriad yr adroddiad hwn yw darparu rhestr gynhwysfawr o bob sbardun polisi, cyd-destun gofodol neu nodwedd ddemograffig. Yn hytrach, mae'n canolbwyntio ar roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y materion allweddol sydd wedi dod i'r amlwg drwy gydol 2020 ac efallai y bydd angen diweddariadau pellach unwaith y daw goblygiadau Brexit a'r pandemig Covid-19 yn gliriach.

Yn debyg i astudiaeth 2019, caiff Adolygiad 2020-21 o Ymyriadau ei baratoi yn unol â Nodyn Cyngor Technegol 23 ar Ddatblygu Economaidd. Mae diffiniadau a therminoleg allweddol o astudiaeth 2019 wedi aros yn gyson ac esbonnir hyn ymhellach yn adran 2.2 isod.

2.2 Diweddariad 'Mwy na Lleol': Man Cychwyn


Methodoleg

Mae Diweddariad 2020-21 yn dilyn camau craidd y prosiect fel y dangosir yn **Ffigur 1** isod.

Y cam cyntaf wrth baratoi Diweddariad 2020-21 oedd cam casglu gwybodaeth. Nododd hyn ddiweddariadau ansoddol a meintiol allweddol i'r data sylfaenol a'r adolygiad llenyddiaeth a gyhoeddwyd yn 2019. Yn dilyn y cam hwn cafodd y dangosfwrdd digidol a grybwyllwyd uchod ei baratoi, a oedd o gymorth i ddadansoddi goblygiadau gofodol y pandemig Covid-19 yn benodol. Cafodd y wybodaeth sylfaenol hon ei hategu gan ddata anecdotaidd a gafwyd trwy fod rhanddeiliaid yn ymgysylltu'n benodol ag arweinyddion sector Llywodraeth Cymru, a chynrychiolwyr o awdurdodau'r ddwy Sir.

Gan ddefnyddio'r holl wybodaeth hon, adolygwyd canfyddiadau astudiaeth 2019 o fewn y cyd-destun economaidd diweddaraf. Arweiniodd hyn wedyn at 'asesiad risg' o'r ymyriadau a'r camau gweithredu a argymhellwyd fel rhan o astudiaeth 2019 i ddeall pa mor berthnasol a chymwys ydynt flwyddyn yn ddiweddarach. Cyflwynir yr asesiad risg hwn yn adran 5 o'r adroddiad hwn.

Ffigur 1 Y Fethodoleg ar gyfer Diweddariad 2020-21



Strwythur yr Adroddiad

Wrth ystyried y fethodoleg uchod, mae gweddill yr adroddiad hwn wedi'i strwythuro fel a ganlyn:

- Mae **Adran 3** yn pennu'r newidiadau cyd-destunol allweddol sy'n berthnasol i Ardal yr Astudiaeth ers cyhoeddi astudiaeth 2019, sydd wedyn yn cael eu cyflwyno'n fanylach yn **Atodiad A** Adolygiad Sylfaenol (sy'n cynnwys adolygiad llenyddiaeth ac adolygiad data sylfaenol).
- Mae **Adran 4** yn crynhoi goblygiadau'r Adolygiad Sylfaenol hwn, y gwaith ymgysylltu penodol â rhanddeiliaid a gynhaliwyd ddiwedd 2020 a'r adolygiad o ragolygon cyflogaeth 'flwyddyn yn ddiweddarach', i fod o gymorth i ddeall y prif feysydd o newid.
- Mae **Adran 5** yn cyflwyno'r asesiad risg o'r ymyriadau allweddol a'r camau gweithredu ategol ac ymyriadau ar safle sy'n deillio o astudiaeth 2019, yn erbyn canfyddiadau diweddaraf 2020.
- Mae **Adran 6** yn tynnu sylw at y casgliadau sy'n deillio o'r gwaith hwn ac yn cyflwyno argymhellion pellach at ystyriaeth y Cynghorau Sir a'r Awdurdodau Parc Cenedlaethol.

Diweddariad 'Mwy na Lleol': Man Cychwyn: Deall Cyd-destun sy'n Newid

Ers cyhoeddi astudiaeth 2019, bu newidiadau sylweddol yng nghyd-destun economaidd Ardal yr Astudiaeth, yn fwyaf nodedig o ganlyniad i 'ergydion' cenedlaethol a byd-eang, sef Brexit a'r pandemig Covid-19.

Ar adeg ysgrifennu hwn, mae effeithiau Brexit a Covid-19 yn dal i gael eu teimlo, gyda'r goblygiadau tymor byr, tymor canolig a thymor hir eto i'w gwireddu. Fel y cyfryw, bu'n rhaid i Ddiweddariad 2020-21 weithio yng nghyd-destun llinell sylfaen sy'n newid yn gyson. Er gwaethaf hyn, roedd yr astudiaeth, a baratowyd rhwng mis Hydref / Tachwedd 2020 a dechrau mis Ionawr 2021, yn ceisio parhau i fod yn gyfredol â thueddiadau a materion sy'n dod i'r amlwg wrth iddynt godi drwy gydol y prosiect. Gellir gweld llinell amser o'r newidiadau allweddol yn **Ffigur 2**.

Gwnaed peth diweddariadau ychwanegol yng Ngwanwyn a Haf 2021, yn enwedig mewn perthynas â rhagolygon Experian diweddaraf mis Ebrill 2021, sy'n ystyried y modd y rhagorwyd ar y rhaglen wreiddiol o gyflwyno'r brechlyn ac ymateb yr economi i godi'r cyfyngiadau o fis Mehefin / Gorffennaf 2021 ymlaen. Mae'r diweddariad hwn hefyd yn rhoi ystyriaeth i'r dogfennau cynllunio strategol allweddol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru, sef Dyfodol Cymru: cynllun cenedlaethol 2040. Cydnabyddir bod rhywfaint o anghymesuredd rhwng data sylfaenol Hydref / Tachwedd 2020, a rhagolygon diwygiedig Experian, ond mae hyn yn adlewyrchu'r newid cyflym iawn sy'n digwydd ar lefel macro-economaidd sydd wedi'u gadarnhau drwy'r astudiaeth.


Ceir crynodeb o newidiadau a datblygiadau demograffig o fewn polisi a chanllawiau sydd wedi dod i'r amlwg ers cyhoeddi astudiaeth 2019 yn Adran 3 yr adroddiad hwn a chânt eu cyflwyno'n fanylach yn **Atodiad A**.

Diweddariad 'Mwy na Lleol': Man Cychwyn: Rhagdybiaethau Allweddol

- Fel y nodwyd uchod, wrth baratoi'r diweddariadau i'r sylfaen dystiolaeth, dylid cydnabod nad yw'r astudiaeth yn 'dechrau o'r dechrau'. Ffocws Diweddariad 2020-21 fydd profi a yw casgliadau 2019 yn parhau i fod yn berthnasol ac a yw hyn yn cyflawni nodau strategol yr ardal 'Mwy na Lleol', yn hytrach na darparu argymhellion sy'n benodol i ganolfannau.
- Cydnabyddir bod Diweddariad 2020-21 wedi'i baratoi mewn amgylchedd economaidd, cymdeithasol ac iechyd sy'n newid yn gyson. Fel y cyfryw, mae Diweddariad 2020-21 yn cydnabod bod yna rywffaint o anghymesuredd rhwng y diweddariad cynhwysfawr a gynhaliwyd ym mis Hydref / Tachwedd 2020 a'r diweddariad a wnaed ochr yn ochr â'r rhagolygon Experian diwygiedig ym mis Ebrill 2021. O ystyried cyflymder y newid yn yr amgylchedd macro-economaidd, gwleidyddol a chymdeithasol, mae newidiadau 2021 yn gyfyngedig a chânt eu trin yn gymesur yng nghyd-destun diweddariadau blaenorol 2019 a 2020.
- Yn seiliedig ar yr uchod, tybir felly y bydd Astudiaeth Economaidd y Ddwy Sir yn cael ei diweddarau ac yn parhau i gael ei hadolygu wrth i'r cyd-destun economaidd ddod yn gliriach. Cynghorir y dylid cynnal diweddariad pellach yn dilyn yr archwiliad o'r Cynllun Datblygu Lleol i egluro elfennau o risg nad ydynt yn hysbys ar hyn o bryd.
- Mae Ardal yr Astudiaeth yn parhau i fod yn gyson â'r hyn a ddefnyddiwyd ar gyfer astudiaeth 2019, gan ganolbwyntio ar ffiniau Awdurdodau Lleol a'r ardaloedd Teithio i'r Gwaith a nodwyd ar gyfer Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro trwy gyfrifiad 2011.
- Nid yw'r diffiniad o safle strategol wedi newid o astudiaeth 2019 ac felly ystyrir ei fod yn safleoedd sy'n fwy na thua 10ha⁴.

⁴ Dylid nodi bod y diffiniad hwn o safle strategol yn wahanol i'r diffiniad o 'safle strategol' o fewn Cynllun Adneuo CDL12 Cyngor Sir Caerfyrddin sy'n diffinio safleoedd cyflogaeth strategol fel safleoedd y nodwyd eu bod yn gwneud cyfraniad pwysig i'r ddarpariaeth gyffredinol ar gyfer twf yn ystod cyfnod y cynllun.

Ffigur 2 Diweddariad 2020-21 - Llinell Amser y Prosiect



3 Diweddariad 'Mwy na Lleol': Proffil o Ardal yr Astudiaeth

3.1 Trosolwg

Yn unol â chamau craidd 2, 3 a 4 y fethodoleg a ddangoswyd yn **Ffigur 1** cam cyntaf Diweddariad 2020-21 oedd cynnal ymarfer dadansoddi data cynhwysfawr i ddeall y newidiadau i broffil Ardal yr Astudiaeth ers cyhoeddi astudiaeth 2019. Roedd hyn ar ffurf adolygiad llenyddiaeth ac adolygiad data sylfaenol, sydd ill dau yn cael eu cyflwyno'n fanwl yn **Atodiad A** yr adroddiad hwn a gwelir crynodeb ohonynt isod.

Mae goblygiadau'r adolygiad hwn o'r astudiaeth wedi'u nodi yn y dadansoddiad SWOT yn Adran 4 a'r asesiad risg o'r ymyriadau a gyflwynir yn Adran 5.

3.2 Diweddariad 'Mwy na Lleol': Newidiadau i Gyddestun ac Amcanion Cenedlaethol, Rhanbarthol, Lleol

Mae'r cynlluniau, y dogfennau a'r mentrau canlynol wedi'u cyhoeddi ers diwedd 2019 ac ystyrir eu bod yn berthnasol i Astudiaeth Economaidd y Ddwy Sir. Er bod crynodeb o bob un o'r dogfennau i'w gweld isod, ceir rhagor o fanylion yn **Atodiad A**.

3.2.1 Amcanion Lefel Genedlaethol

Mae'r dogfennau canlynol wedi'u cyhoeddi ar lefel Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ers diwedd astudiaeth 2019. Mae eu gweledigaeth strategol a/neu ffocws allweddol ar sector penodol yn golygu eu bod yn cael eu hystyried yn berthnasol i Ardal yr Astudiaeth.

Llywodraeth Cymru: Cymru'r Dyfodol: Cynllun Cenedlaethol 2040

Cafodd Cymru'r Dyfodol: cynllun cenedlaethol 2040 ei fabwysiadu gan Lywodraeth Cymru ym mis Chwefror 2021. Dyma'r cynllun gofodol lefel uchaf yng Nghymru. Roedd ymgynghoriad ar y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol drafft yn parhau ar adeg cyhoeddi Astudiaeth 2019, a oedd yn rhedeg rhwng 7 Awst 2019 a 15 Tachwedd 2019.

At ddibenion cyhoeddi, mae'r ddogfen wedi'i hail-enwi yn 'Cymru'r Dyfodol: cynllun cenedlaethol 2040' (y cyfeirir ati yma fel 'Cymru'r Dyfodol') ond yn statudol bydd yn parhau i fod yn Fframwaith Datblygu Cenedlaethol. Gellir crynhoi'r newidiadau allweddol a gyflwynir yn y ddogfen weithio ddrafft o'i chymharu â'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol drafft fel a ganlyn:

- Ail-gategoreiddio polisïau rhanbarthol o dan bedwar grŵp rhanbarthol, yn hytrach na'r tri a gynigiwyd yn flaenorol. Cynigir bod rhanbarth y De-orllewin, sy'n ganolbwynt i Ardal yr Astudiaeth, yn awr yn cynnwys Sir Benfro, Sir Gaerfyrddin, Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot.

- Cydnabyddiaeth o'r goblygiadau gofodol posibl sy'n gysylltiedig â newidiadau i ffordd o fyw o ganlyniad i'r pandemig Covid-19 (e.e. y nifer sy'n gweithio gartref).
- Nid yw bellach yn cynnwys meysydd blaenoriaeth ar gyfer cynhyrchu ynni'r haul. Mae meysydd blaenoriaeth ar gyfer cynhyrchu ynni'r gwynt wedi'u cadw a'u hailenwi'n 'ardaloedd a aseswyd ymlaen llaw ar gyfer ynni'r gwynt'.
- Mae **Polisi 10** yn diffinio Dyfrffordd y Daugleddau (gan gynnwys Porthladdoedd Doc Penfro ac Aberdaugleddau) a Phorthladd Abergwaun fel 'pyrth strategol i hwyluso cysylltedd rhyngwladol'.
- Mae **Polisi 28** yn cadarnhau bod Bae Abertawe a Llanelli wedi'u dynodi'n ardal twf ranbarthol yn rhanbarth De-orllewin Cymru. Mae hyn yn golygu y bydd y ffocws ar gyfer twf a buddsoddiad, gan gynnwys twf economaidd strategol.
- Mae **Polisi 29** yn diffinio Caerfyrddin a phedair tref y Daugleddau (Aberdaugleddau, Hwlffordd, Penfro a Doc Penfro) fel ardaloedd twf rhanbarthol sydd â swyddogaethau is-ranbarthol pwysig.
- Mae **Polisi 32** yn ymwneud yn benodol â Dyfrffordd y Daugleddau ac yn nodi, 'Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi gweithrediadau yn Nyfrffordd y Daugleddau, ac yn cydnabod ei lleoliad ar gyfer datblygu, arloesi a buddsoddi newydd posibl sy'n gysylltiedig ag ynni adnewyddadwy a charbon isel'.

Mae'r polisiau uchod yn dangos pwysigrwydd Ardal Astudiaeth y Ddwy Sir i economi rhanbarth y De-orllewin, yn enwedig o amgylch ardaloedd twf penodol Llanelli, Caerfyrddin a Threfi'r Daugleddau.

Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru 2021 i 2026 (Mehfin 2021)

Ym mis Mehefin 2021, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei Rhaglen Lywodraethu yn dilyn etholiadau'r Senedd ym mis Mai 2021.

Mae'r Rhaglen Lywodraethu yn cynnwys y nodau allweddol canlynol ar gyfer y Senedd hyd at 2026:

- Darparu gofal iechyd effeithiol, sydd o ansawdd uchel ac sy'n gynaliadwy;
- Diogelu, ailadeiladu a datblygu ein gwasanaethau ar gyfer pobl sy'n agored i niwed;
- Adeiladu economi yn seiliedig ar egwyddorion gwaith teg, cynaliadwyedd a diwydiannau a gwasanaethau'r dyfodol. Mae hyn yn rhoi ffocws ar gefnogi pobl ifanc a phobl sy'n agored i niwed, cynorthwyo busnesau Cymru i greu swyddi newydd, dod o hyd i farchnadoedd allforio newydd a buddsoddi yn niwydiant gwyrdd cynaliadwy yfory.
- Adeiladu economi gryfach a mwy gwyrdd wrth i ni wneud y cynnydd mwyaf tuag at ddatgarboneiddio, sy'n cynnwys lansio Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru 10 mlynedd newydd, Strategaeth Ddigidol i Gymru, fframwaith deddfwriaethol modern ar gyfer trafniadaeth yng Nghymru a gweithio tuag at darged o 45% o deithiau trwy ddulliau cynaliadwy erbyn 2040.

- Ymgorffori ein hymateb i'r argyfwng hinsawdd a natur ym mhopeth a wnawn, sy'n cynnwys symud ymlaen tuag at ddiwydiant pren cynaliadwy, Strategaeth Bwyd Cymunedol Cymru, canolfannau ailddefnyddio ac atgyweirio yng nghanol trefi, a gwella manau gwyrdd yn sylweddol.
- Parhau â'n rhaglen hirdymor o ddiwygio addysg, a sicrhau bod anghydraddoldebau addysgol yn lleihau a bod safonau'n codi.
- Dathlu amrywiaeth a symud tuag at ddileu anghydraddoldeb o bob math.
- Bwrw ymlaen tuag at filiwn o siaradwyr Cymraeg, a galluogi ein diwydiannau twristiaeth, chwaraeon a'r celfyddydau i ffynnu. Mae hyn yn cynnwys ymgynghori ar ddeddfwriaeth sy'n caniatáu i Awdurdodau Cynllunio Lleol godi ardoll dwristiaeth, ochr yn ochr â deddfwriaeth i gryfhau a chynyddu darpariaeth addysg trwy gyfrwng y Gymraeg.
- Gwneud ein dinasoedd, ein trefi a'n pentrefi yn lleoedd hyd yn oed yn well i fyw a gweithio ynddynt.
- Arwain Cymru mewn sgwrs ddinesig genedlaethol am ein dyfodol cyfansoddiadol, a rhoi'r presenoldeb cryfaf posibl i'n gwlad ar lwyfan y byd.

Llywodraeth Cymru: Polisi Cynllunio Cymru, Rhifyn 11

Ochr yn ochr â Cymru'r Dyfodol, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru 11eg rhifyn Polisi Cynllunio Cymru (PCC11) sy'n nodi polisiau cynllunio defnydd tir Llywodraeth Cymru.

Mae'r polisiau i raddau helaeth heb newid o rifyn blaenorol y ddogfen. Nodir datblygu economaidd a pherthynas hyn â'r system gynllunio o dan y pennawd 'Lleoedd Cynhyrchiol a Mentrus.' Mae'r diffiniad o ddatblygu economaidd yn aros. 'datblygu tir ac adeiladau ar gyfer gweithgareddau cynaliadwy sy'n creu ffyniant, swyddi ac incwm tymor hir.'

Mae paragraff 5.4.3 yn datgan y 'dylai awdurdodau cynllunio roi eu cefnogaeth i ddarparu digon o dir i gwrdd ag anghenion y farchnad gyflogaeth ar lefel strategol a lleol' ac y 'dylai cynlluniau datblygu nodi'r gofyn am dir cyflogaeth, dyrannu cymysgedd priodol o safleoedd i ateb y galw a llunio fframwaith ar gyfer diogelu safleoedd cyflogaeth o bwys strategol a lleol.'

Llywodraeth Cymru: Ffermio Cynaliadwy a'n Tir

Mae ffermio cynaliadwy a'n tir⁵ yn darparu fframwaith polisi ar gyfer diwygio rheoli tir yng Nghymru ar ôl Brexit.

Oherwydd y gyfran uwch o gyflogaeth yn y sector amaethyddiaeth yn Ardal Astudiaeth Sir Gaerfyrddin (2.6%) a Sir Benfro (2.8%) o gymharu ag 1.2% yng Nghymru; cydnabyddir y gallai unrhyw fesurau diwygio tir effeithio'n anghymesur ar Ardal yr Astudiaeth ar ôl Brexit.

⁵ Llywodraeth Cymru (2020) <https://llyw.cymru/ffermio-cynaliadwy-tir-symleiddio-cymorth-amaethyddol> [cyrchwyd ar: 20.01.21]

Llywodraeth Cymru: Papur Gwyn Bil Amaethyddiaeth (Cymru) (Rhagfyr 2020)

Wrth i'r astudiaeth fynd rhagddi, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Bapur Gwyn Bil Amaethyddiaeth (Cymru) a oedd yn tynnu ar yr ymatebion i'r ymgynghoriad ar Ffermio Cynaliadwy a'n Tir. Mabwysiadodd hyn y fframwaith polisi Rheoli Tir Cynaliadwy fel yr egwyddor gyffredinol ar gyfer polisi a chymorth yn y dyfodol. Bydd yn bwysig monitro sut y mae'r 'Cynllun Ffermio Cynaliadwy' yn gwneud cynnydd tuag at gyflwyno'r Bil yn haf 2022.

Llywodraeth Cymru: Dyfodol gweithgynhyrchu i Gymru 'Fframwaith gweithredu'

Mae Dyfodol Gweithgynhyrchu i Gymru: fframwaith gweithredu⁶ yn annog mwy o arloesi a lleoli pencadlysoedd ledled Cymru, twf potensial allforio, mwy o gyflogaeth o ansawdd a sgiliau ledled Cymru ac ehangu'r sylfaen ymchwil a datblygu ledled Cymru. Yn benodol, tynnir sylw at y De-orllewin fel ardal lle mae angen mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd sy'n gysylltiedig â phrosesau diwydiannol sylweddol. Mae gweithgynhyrchu yn sector allweddol ar gyfer ardal Astudiaeth Economaidd y Ddwy Sir, yn enwedig yn Sir Gaerfyrddin oherwydd y gyfran fawr o gyfanswm cyflogaeth yn y sector hwn (42%). Byddai canlyniadau'r ymgynghoriad felly'n berthnasol i Ardal yr Astudiaeth.

Llywodraeth Cymru: Llwybr Newydd 'Strategaeth Drafnidiaeth newydd ar gyfer Cymru'

Mae Strategaeth Drafnidiaeth newydd Cymru⁷ yn nodi'r blaenoriaethau pum mlynedd ar gyfer system drafnidiaeth hygyrch a chynaliadwy. Fel yr amlinellir yn fanwl yn Atodiad A, ac a gyflwynwyd yn astudiaeth 2019, mae cysylltedd cyffredinol o fewn Ardal yr Astudiaeth ac ag aneddiadau allweddol strategol y tu allan i Ardal yr Astudiaeth yn anodd oherwydd diffyg seilwaith, yn enwedig i ddefnyddwyr trafndiaeth gyhoeddus. Fel y cyfryw, mae'n debygol y bydd croeso i'r pwyntiau a grybwyllir uchod o fewn y rhanbarth a chysylltiadau â chynlluniau ar gyfer Metro De-orllewin Cymru.

Llywodraeth y DU: Adolygiad o Wariant y Trysorlys

Mae'r Adolygiad o Wariant⁸ yn rhoi blaenoriaeth i gynnal swyddi a sefydlogi'r economi, gan ganolbwyntio ar 'godir gwastad' rhwng y rhanbarthau a'r gwledydd datganoledig.

Mae'r isafswm cyflog cenedlaethol wedi'i gynyddu ar gyfer pob grŵp oedran o brentisiaethau i 23+ o fis Ebrill 2021, sy'n rhywbeth cadarnhaol i weithwyr ar gyflogau is a gweithwyr iau. Mae SR20 yn cadarnhau y bydd y cymorth yn parhau i gyflogwyr gan gynnwys benthyciadau; rhewi'r lluosydd ardrethi busnes, rhyddhad ardrethi busnes ac ehangu Benthyciadau Cychwyn Busnes Banc Busnes

⁶ Llywodraeth Cymru (2020) <https://llyw.cymru/dyfodol-gweithgynhyrchu-i-gymru-fframwaith-gweithredu> [cyrchwyd ar: 27.0.21]

⁷ Llywodraeth Cymru (2020) <https://llyw.cymru/llwybr-newydd> [cyrchwyd ar: 20.01.21]

⁸ Llywodraeth y DU (2020) <https://www.gov.uk/government/topical-events/spending-review-2020> [cyrchwyd ar: 20.01.21]

Prydain. Mae amrywiaeth o becynnau ariannu wedi'u cadarnhau i gefnogi economïau lleol; o arwyddocâd i Ardal yr Astudiaeth y mae'r canlynol:

- £115.6 miliwn ym Margen Ddinesig Bae Abertawe;
- £240 miliwn i gefnogi ffermwyr a rheolwyr tir a fyddai o help arbennig i'r ardal o ystyried y ganran uchel o amaethyddiaeth;
- £2 filiwn i gefnogi pysgodfeydd yng Nghymru; ac
- O leiaf un Porthladd Rhydd yng Nghymru i fod yn ganolfan ar gyfer masnach a buddsoddiad byd-eang ledled y DU, gan roi hwb i adfywio, creu swyddi ac arloesi.

Llywodraeth y DU: Cyllideb 2021

Mae Cyllideb 2021 yn adeiladu ar Adolygiad o Wariant y Trysorlys ac mae'n parhau i ganolbwyntio ar adferiad yn sgil y pandemig Covid-19. O ganlyniad, mae'n cynnwys mesurau megis ymestyn y Cynllun Cymorth Swyddi Coronafeirws ar lefel genedlaethol hyd at 30 Medi 2021 ac ymestyn y toriad TAW ar gyfer lletygarwch, llety ac atyniadau ledled y DU tan ddiwedd mis Medi (gyda chyfradd arall o 12.5% tan fis Mawrth 2022). Mae mesurau sy'n arbennig o berthnasol i faes yr astudiaeth yn cynnwys yn benodol:

- £740m ychwanegol o gyllid i Lywodraeth Cymru trwy gyfrwng fformiwla Barnett, ynghyd â £300m ychwanegol o gyllid y tu allan i'r fformiwla.
- Darparu porthladd rhydd yng Nghymru 'cyn gynted â phosibl.'
- Cyllid carlam ar gyfer Bargaen Ddinesig Bae Abertawe.

Llywodraeth y DU: Cronfa Codi'r Gwastad

Cyhoeddodd Llywodraeth y DU ei phrosiectws ar gyfer y gronfa 'Codi'r Gwastad' ym mis Mawrth 2021. Mae hyn yn cadarnhau y bydd £800m yn cael ei fuddsoddi yn y gweinyddiaethau datganoledig ac yn cadarnhau, yng Nghymru, y bydd cyllid yn cael ei ddarparu trwy awdurdodau lleol. Bydd y gronfa'n canolbwyntio'n bennaf ar brosiectau buddsoddi o hyd at £20m o amgylch tair thema: prosiectau trafndiaeth llai sy'n gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i ardaloedd lleol, canol trefi ac adfywio'r stryd fawr ac ehangu portffolio asedau diwylliannol a threftadaeth y DU sy'n arwain y byd.

Llywodraeth y DU: Strategaeth Seilwaith Genedlaethol

Mae'r Strategaeth Seilwaith⁹ yn adeiladu ar yr Adolygiad o Wariant ac yn amlinellu'r gefnogaeth i'r agenda 'Codi'r Gwastad' a chyllid trwy Fargeinion Dinesig yn ogystal â band eang gigabit ledled y DU. Gallai hyn fod o fudd i Ardal yr Astudiaeth o gofio bod llawer o fusnesau wedi nodi bod angen gwella sgiliau TG a sgiliau digidol i gefnogi'r symudiad i weithio gartref o ganlyniad i Covid-19.

⁹ Llywodraeth y DU (2020) <https://www.gov.uk/government/publications/national-infrastructure-strategy> [cyrchwyd ar: 20.01.21]

Llywodraeth y DU: Banc Seilwaith

Ym mis Mawrth 2021 cyhoeddodd Llywodraeth y DU fanylion mewn perthynas â Banc Seilwaith y DU. Bydd y Banc yn gweithredu ar gyfer y DU gyfan a bydd ei amcanion craidd fel a ganlyn:

1. **Helpu i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd**, yn enwedig cyrraedd y targed allyriadau sero-net erbyn 2050;
2. **Cefnogi twf economaidd rhanbarthol a lleol** drwy well cysylltedd, cyfleoedd ar gyfer swyddi newydd a lefelau cynhyrchiant uwch.

Bydd gan y Banc £22 biliwn i gyflawni'r amcanion hyn. Bydd yn gallu:

- Darparu ystod o ddulliau ariannu ar draws y strwythur cyfalaf, gan gynnwys dyled, cynhyrchion hybrid, ecwiti a gwarantau i gefnogi prosiectau seilwaith preifat;
- Darparu benthyciadau i awdurdodau lleol ar gyfer prosiectau seilwaith strategol;
- Ehangu buddsoddiad sefydliadol yn seilwaith y DU; a
- Darparu cymorth ymgynghorol i brosiectau. Mae'r ddogfen Dylunio Polisi yn cadarnhau mai un o'r blaenoriaethau fydd adeiladu partneriaethau strategol gyda sefydliadau eraill, a chyfeirir yn benodol at Fanc Datblygu Cymru.

Llywodraeth y DU: Cynllun Deg Pwynt ar gyfer Chwyldro Diwydiannol Gwyrdd

Mae'r Cynllun Deg Pwynt¹⁰ yn amlinellu dull y Llywodraeth o ailgodi'n gryfach, cefnogi swyddi gwyrdd, a chyflymu'r llwybr tuag at sero-net. Y pwyntiau allweddol mewn perthynas ag Ardal yr Astudiaeth yw:

- 1: Hyrwyddo Ynni Gwynt ar y Môr: Erbyn 2030, cynigion i gynyddu capasiti gwynt ar y môr bedair gwaith i gynhyrchu mwy o bŵer nag y mae ein cartrefi'n defnyddio heddiw, gan gefnogi datblygiadau arloesol newydd i fanteisio i'r eithaf ar y dechnoleg hon a buddsoddi i ddod â swyddi a thwf newydd i borthladdoedd a threfi arfordirol.
- 4: Cyflymu'r Symudiad tuag at Gerbydau Dim Allyriadau; a allai arwain at fuddsoddi yn y diwydiant gweithgynhyrchu ceir yn yr ardal; ac
- 8: Buddsoddi mewn Dal, Defnyddio a Storio Carbon; sy'n amlygu'r potensial ar gyfer clwstwr diwydiannol yng Nghymru.
- 10: Cyllid Gwyrdd ac Arloesi: ymrwymiad i godi cyfanswm y buddsoddiad mewn ymchwil a datblygu i 2.4% o'r Cynnyrch Domestig Gros erbyn 2027 ac ym mis Gorffennaf 2020 cyhoeddwyd Trywydd Gweithredu Ymchwil a Datblygu'r DU.

Yn benodol, gallai'r ffocws ar ynni gwynt ar y môr a'r cymorth a nodwyd ar gyfer porthladdoedd i gefnogi'r sector hwn fod yn gadarnhaol i Sir Benfro a'r rhanbarth

¹⁰ Llywodraeth y DU (2020) <https://www.gov.uk/government/publications/the-ten-point-plan-for-a-green-industrial-revolution> [cyrchwyd ar: 27.01.21]

ehangach. Mae hyn yn adlewyrchu presenoldeb Ynni Môr Cymru yn lleol a hefyd cwmnïau megis Blue Gem Wind a'u cynigion ar gyfer safle arddangos 'Erebus' yn y Môr Celtaidd¹¹.

Cytundebau Masnach Ryngwladol

Daeth Cytundeb Masnach a Chydweithredu'r UE-DU i rym ar 1 Ionawr 2020, ar ôl i gyd-drafodwyr yr UE a'r DU gytuno arno ar 24 Rhagfyr 2020.

Mae Cytundeb Masnach a Chydweithredu'r UE-DU¹² yn cynnwys Cytundeb Masnach Rydd, gyda chydweithrediad uchelgeisiol ar faterion economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a physgodfeydd; partneriaeth agos ar ddiogelwch dinasyddion, fframwaith llywodraethu cyffredinol.

Mae'r cytundeb yn nodi trefniadau ffafriol mewn meysydd megis masnachu mewn nwyddau ac mewn gwasanaethau, masnach ddigidol, eiddo deallusol, caffael cyhoeddus, trafniadaeth hedfan a ffyrdd, ynni, pysgodfeydd, cydgysylltu nawdd cymdeithasol, gorfodi'r gyfraith a chydweithrediad barnwrol mewn materion troseddol, cydweithredu thematig a chyfranogiad yn rhaglenni'r Undeb. Caiff ei ategu gan ddarpariaethau sy'n sicrhau chwarae teg a pharch at hawliau sylfaenol.

Fodd bynnag, nid yw'r Cytundeb yn cynnwys unrhyw benderfyniadau sy'n ymwneud â gwasanaethau ariannol, diogelu data, na chyfundrefnau sy'n ymwneud ag iechyd pobl, planhigion ac anifeiliaid sy'n bwysig i gynhyrchion sydd i gael eu hallforio i'r UE. Yn wir, mae'r rhain yn benderfyniadau unochrog gan yr UE ac nid oeddent yn destun y trafodaethau¹³.

Cyflwynir rhestr lawn o gytundebau masnach a wneir gyda gwledydd y tu allan i'r UE ar wefan Llywodraeth y DU¹⁴ gan gynnwys eu statws presennol. Mae nifer fawr o wledydd a blociau gan gynnwys Undebau Tollau De Affrica, Twrci a Gwlad yr Iâ a Norwy wedi cytuno i barhau i fasnachu gyda'r DU ar yr un telerau â phan oedd y wlad yn yr UE¹⁵. Mae cytundebau masnach rydd newydd nodedig y cytunwyd arnynt gyda gwledydd y tu allan i'r UE ers y cytundeb Brexit yn cynnwys Japan, Singapore ac Awstralia.

3.2.2 Cymraeg 2050: miliwn o siaradwyr Cymraeg

Ym mis Mawrth 2019, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru 'Cymraeg 2050: miliwn o siaradwyr Cymraeg' sy'n nodi strategaeth i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg ledled Cymru i 1 miliwn erbyn y flwyddyn 2050. Mae'r Strategaeth wedi'i threfnu o amgylch tair thema allweddol:

- Cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg;

¹¹ Simply Blue Energy (2020) <https://simplyblueenergy.com/erebus/> [cyrchwyd ar: 27.01.21]

¹² Llywodraeth y DU (2020) <https://www.gov.uk/government/publications/agreements-reached-between-the-united-kingdom-of-great-britain-and-northern-ireland-and-the-european-union> [cyrchwyd ar: 21.02.21]

¹³ Institute for Government (2021) <https://www.instituteforgovernment.org.uk/publication/future-relationship-trade-deal>

¹⁴ Llywodraeth y DU (2020) <https://www.gov.uk/guidance/uk-trade-agreements-with-non-eu-countries> [cyrchwyd ar: 22.01.21]

¹⁵ BBC News (2020) <https://www.bbc.co.uk/news/uk-47213842> [cyrchwyd ar: 22.01.21]

- Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg; a
- Creu amodau ffafriol – seilwaith a chyd-destun.

Wrth ystyried yr uchelgeisiau cenedlaethol hyn i wella'r Gymraeg, yn ogystal â'r rheiny ar lefel leol, ym mis Chwefror 2020 cynhaliodd yr ymgynghorwyr Iaith/BURUM adolygiad o'r Diweddariad drafft ar Astudiaeth Economaidd y Ddwy Sir 2020-21. Diben yr adolygiad oedd nodi unrhyw dueddiadau / risgiau yn seiliedig ar y canfyddiadau a ddaeth i'r amlwg a allai gael effaith ar y Gymraeg ac yn benodol, yr Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg a baratowyd gan Iaith / Burum ar gyfer CDL12 Cyngor Sir Caerfyrddin ym mis Rhagfyr 2019.

Roedd yr adolygiad yn ystyried yr ymyriadau strategol a gyflwynwyd fel rhan o Ddiweddariad 2020-21 (a gyflwynir yn adran 5 o'r adroddiad hwn) ac yn rhoi rywfaint o sylwebaeth ynghylch yr effeithiau posibl y gallant eu cael ar y Gymraeg. Cyflwynir y dadansoddiad hwn yn Nhabl 10 o **Atodiad A**.

Daeth adolygiad Iaith/BURUM i'r casgliad 'nad oes unrhyw faterion ac argymhellion penodol yn deillio o Ddiweddariad 2020-21. Mae pob safle o'r fath yn Sir Gaerfyrddin yn ddyraniadau arfaethedig yn y CDL Adneuo ac, yn unol â chyngor TAN 20, nid oes angen Asesiad Pellach o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg.'

Bwriadwyd i'r adolygiad fod yn 'sylw lefel uchel' ar Ddiweddariad 2020-21 a'r newidiadau a wnaed i'r ymyriadau o gymharu ag astudiaeth 2019. Mae asesiad Iaith/BURUM yn tynnu sylw at gyfleoedd i awdurdodau'r Ddwy Sir gysoni'r ymyriadau/camau gweithredu a argymhellwyd o fewn Diweddariad 2020-21 â strategaethau a chamau gweithredu ehangach sy'n cael eu cymryd mewn perthynas â hyrwyddo a gwella'r Gymraeg, a bydd hyn yn fater i'w ystyried ymhellach gan Gynghorau Sir Caerfyrddin a Sir Benfro.

3.2.3 Cyfleoedd Ariannu Lefel Genedlaethol

Yn ogystal â'r mentrau polisi a thwf strategol uchod, o ganlyniad i'r pandemig Covid-19 mae sawl cyfle ariannu wedi dod i'r amlwg er mwyn cefnogi 'agor yr economi' ledled Cymru. Mae effaith cronfeydd o'r fath ar Ardal yr Astudiaeth yn cynnwys y canlynol:

- Mae data'n awgrymu bod ardal y ddwy sir wedi elwa o gyllid ar lefel busnesau unigol ac o ran blaenoriaethau gofodol lleol (e.e. adfywio canol trefi drwy'r cronfeydd **Trawsnewid Trefi**¹⁶). Fel y nodwyd yn astudiaeth 2019, roedd adfywio'r stryd fawr yn flaenoriaeth ranbarthol cyn y pandemig; fodd bynnag, mae Covid-19 a'r cymorth sydd ar gael o ganlyniad wedi bod yn gatalydd i lawer o'r cynlluniau hyn ac mae cynlluniau sefydledig (e.e. Cei'r De ym Mhenfro) wedi elwa'n gadarnhaol.
- Mewn perthynas â'r **Gronfa Trafnidiaeth Gynaliadwy (Mai 2020)**, gwnaeth Sir Gaerfyrddin elwa ar £1.72 miliwn o gyllid ar gyfer gwaith i hyrwyddo pellter cymdeithasol ar drafndiaeth gyhoeddus, llwybrau i'r ysgol ac o fewn yr amgylchfyd cyhoeddus yn ogystal â buddsoddi mewn seilwaith beiciau,

¹⁶ Llywodraeth Cymru (2020) <https://llyw.cymru/rhaglen-90-miliwn-i-drawsnewid-trefi-yng-nghymru> [cyrchwyd ar: 20.01.21]

ailldysrannu darpariaeth parcio ar y stryd a gweithredu pecyn o fesurau 'i hyrwyddo symudiadau teithio llesol wrth hwyluso pellter cymdeithasol mewn trefi gwledig ledled Sir Gaerfyrddin'¹⁷. Derbyniodd Sir Benfro gyllid gwerth £560,000, a ddefnyddiwyd ar gyfer cyflwyno terfynau cyflymder 20 mya, ailldysrannu gofod ffyrdd yng nghanol trefi, yn ogystal â gwelliannau i lwybrau troed a gwelliannau i seilwaith trafniadaeth gyhoeddus.

- Roedd angen cymorth yn deillio o'r pandemig Covid-19, e.e. y **Gronfa Cadernid Economaidd**¹⁸, yn arbennig o fewn yr ardal fwy na lleol ar lefel busnesau unigol oherwydd priodoleddau economaidd allweddol yr ardal. Er enghraifft, ar draws Ardal yr Astudiaeth ceir dibyniaeth ar fusnesau bach a chanolig a micro-fusnesau sydd yn hanesyddol yn fwy agored i 'ergydion' economaidd.
- Yn ogystal ceir cyfradd uchel o hunangyflogaeth yn Ardal yr Astudiaeth a ffocws ar y sector llety a gwasanaethau bwyd sydd hefyd yn amlwg wrth edrych ar y ceisiadau am y **Cynllun Cadw Swyddi drwy gyfnod y Coronafeirws (CJRS)** ar gyfer gweithwyr 'ar ffyrlo' a'r **Cynllun Cymorth Incwm i'r Hunangyflogedig (SEISS)**. Roedd Sir Benfro ymhlith yr ardaloedd â'r nifer uchaf o bobl ar ffyrlo yng Nghymru (34%) a allai hefyd fod yn adlewyrchu'r ddibyniaeth ar sectorau megis llety a gwasanaethau bwyd ac adwerthu, sydd wedi cael eu taro'n arbennig o galed gan y pandemig¹⁹.

3.2.4 Amcanion Rhanbarthol

Ers i astudiaeth 2019 ddod i ben, gwnaed cynnydd hefyd mewn perthynas ag amcanion rhanbarthol, yn fwyaf nodedig prosiectau sy'n gysylltiedig â **Bargen Ddinesig Bae Abertawe** yn dilyn ymrwymiad o tua £115.6 miliwn yn 2017²⁰.

Mae prosiectau **Bargen Ddinesig Bae Abertawe** yn Ardal yr Astudiaeth gan gynnwys Ardal Forol Doc Penfro, Pentref Gwyddor Bywyd a Llesiant Llanelli, y Prosiect Seilwaith Digidol a'r Rhaglen Sgiliau a Thalentau i gyd wedi datblygu ers yr astudiaeth ddiwethaf, gan gynnwys cymeradwyo achosion busnes ar lefel leol a chenedlaethol sy'n caniatáu i gyllid y Fargen Ddinesig gael ei ddefnyddio. Yn benodol, ym mis Mehefin 2020, cymeradwyodd Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru yr achos busnes ar gyfer prosiect Ardal Forol Doc Penfro;²¹ sy'n cael ei arwain gan y sector preifat gyda chymorth Cyngor Sir Penfro a disgwylir iddo gynhyrchu mwy na 1,800 o swyddi yn y 15 mlynedd nesaf. Mae cymeradwyo'r achos busnes yn golygu y gall y prosiect ddechrau cael gafael ar £18 miliwn o gyllid y mae'r ddwy lywodraeth wedi'i ryddhau.

¹⁷ Llywodraeth Cymru (2020) <https://gov.wales/sites/default/files/publications/2020-06/local-council-sustainable-transport-measures-allocation-of-funds.pdf> [cyrchwyd ar: 30.10.20]

¹⁸ Busnes Cymru (2020) <https://businesswales.gov.wales/coronavirus-advice/cy/cymorth/cymorth-ariannol-grantiau> [cyrchwyd ar: 20.01.21]

¹⁹ Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (WLGA) (2020) <https://www.wlga.wales/SharedFiles/Download.aspx?pageid=62&mid=665&fileid=2166> [cyrchwyd ar: 20.01.21]

²⁰ Bargen Ddinesig Bae Abertawe (2021) <https://www.bargenddinesigbaeabertawe.cymru/> [cyrchwyd ar: 22.01.21]

²¹ <https://www.bargenddinesigbaeabertawe.cymru/newyddion/sêl-bendith-i-brosiect-y-nnir-môr-yn-sir-benfro-syn-werth-60-miliwn/>

Yng Nghyllideb 2021, cadarnhaodd Llywodraeth y DU gyllid carlam ar gyfer y Fargen Ddinesig er mwyn caniatáu i brosiectau gael eu cyflawni'n gyflymach.

Mae hyn yn awgrymu bod yna hyder yn y farchnad o hyd a rhywfaint o ymdeimlad o sicrwydd a fydd yn hanfodol o ran annog twf pellach ar ôl y pandemig o fewn ardal y ddwy sir. Efallai ei fod hefyd yn tynnu sylw at y ffaith bod mwy o sicrwydd yn y sectorau ynni, iechyd a llesiant a digidol wrth ystyried y ffocws sectoraidd sydd gan brosiectau'r Fargen Ddinesig. Mae'n adlewyrchiad cadarnhaol pellach ar barhad y sector adeiladu ar ôl y pandemig, sy'n bwysig wrth ystyried y gyfran fawr o gyflogaeth yn y maes adeiladu ar draws Ardal yr Astudiaeth.

Ers cyhoeddi astudiaeth 2019, ychydig o ddiweddariadau pellach sydd wedi bod gyda golwg ar weithgarwch o fewn **Ardal Fenter Dyfrffordd y Daugleddau**. Nid yw rôl Ardaloedd Menter wedi bod yn rhan o bolisi sydd newydd ei ryddhau (e.e. Adeiladu Lleuedd Gwell); fodd bynnag, mae Banc Datblygu Cymru yn cynnig telerau benthyca ffafriol i gwmnïau sydd wedi'u lleoli mewn Ardal Fenter, sy'n dangos bod yna gymhellion ariannol yn dal i fod yn gysylltiedig â'r dynodiad²².

3.2.5 Amcanion Lleol

Ers yr astudiaeth flaenorol, mae adolygiadau Cyngor Sir Penfro a Chyngor Sir Caerfyrddin o'u CDLlau wedi mynd rhagddynt: yn benodol, cyhoeddwyd Cynllun Adneuo CDLl2 Sir Benfro²³ ym mis Ionawr 2020; a chyhoeddwyd Cynllun Adneuo CDLl2 Sir Gaerfyrddin²⁴ ym mis Chwefror 2020. Mae'r ddau Gynllun Adneuo yn rhoi mwy o fanylion am ddyraniadau ar safleoedd penodol a pholisïau cynllunio manwl gan gynnwys ar gyfer dyraniadau tir cyflogaeth. Mae Adran 5 yn profi canfyddiadau Diweddariad 2020-21 yn erbyn ymyriadau arfaethedig ar gyfer safleoedd strategol i ddeall a oes unrhyw newidiadau.

Fodd bynnag, ers cyhoeddi'r CDLl2, mae'r cynnydd ar y Cynlluniau Lleol wedi'i ohirio gan y safon ffosffad newydd ar gyfer Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACAoedd) Afonol yng Nghymru a gyhoeddwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae'r targedau hyn o gwmpas 50% - sydd 80% yn fwy llym nag yr oeddent o'r blaen, a byddant yn effeithio ar 44% o'r ardal o fewn awdurdodaeth gynllunio Sir Benfro. Realiti'r canllawiau newydd hyn yw, ar gyfer cynigion datblygu mewn lleoliadau sydd â phrif system garthffosiaeth, bod disgwyl i lifoedd brwnt gael effaith bosibl annerbyniol ar statws yr ACA. Bydd y canllawiau'n berthnasol i adeiladu tai newydd ac i ddatblygiadau megis ysbytai newydd a safleoedd cyflogaeth; bydd hefyd yn cael effaith ar ddyraniadau drafft CDLl2²⁵. Un o'r ymatebion i'r mater hwn fydd sefydlu Bwrdd Cynllun Rheoli Maetholion y

²² Banc Datblygu (2020) <https://developmentbank.wales/cy/ardal-fenter> [cyrchwyd ar: 22.01.21]

²³ Cyngor Sir Penfro (2020) <https://www.sir-benfro.gov.uk/adolygur-cynllun-datblygu-lleol/adneuo> [cyrchwyd ar: 20.01.21]

²⁴ Cyngor Sir Caerfyrddin(2020) <https://www.sirgar.llyw.cymru/cartref/gwasanaethaur-cyngor/cynllunio/cynllun-datblygu-lleol-2018-2033/#.YfvUEuQafIg> [cyrchwyd ar: 20.01.21]

²⁵ Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymunedol (1 Tachwedd 2021) Sefydlu Bwrdd Cynllun Rheoli Maetholion y Cleddau:
<https://mgenglish.pembrokeshire.gov.uk/documents/s63100/3.5%20-%202109%20Cabinet%20Report%20-%20Cleddau%20Nutrient%20Management%20Plan%20Board%20FINAL.pdf>

Cleddau; fodd bynnag, bydd hyn yn gofyn am reolaeth barhaus i ddeall y goblygiadau.

Rhyddhaodd Llywodraeth Cymru y Nodyn Cyngor Technegol 15 newydd: Datblygu a Pherygl o Lifogydd, a ddaw i rym ym mis Rhagfyr 2021. Mae'r canllawiau hyn bellach yn ei gwneud yn ofynnol i ddarpar ddatblygwyr roi ystyriaeth i'r perygl a achosir gan lifogydd posibl yn sgil newid yn yr hinsawdd a chan erydu arfordirol. Mae gan hyn oblygiadau i nifer o'r dyraniadau cyflogaeth a gynigir i'w cadw.

Yn ogystal, mabwysiadwyd CDLI2 Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro²⁶ ym mis Medi 2020 ac mae adolygiad CDLI Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog²⁷ wedi'i oedi oherwydd cyfyngiadau Covid-19.

3.3 Diweddariad 'Mwy na Lleol': Cyd-destun Cymdeithasol, Amgylcheddol ac Economaidd Newidiol

Ceir trosolwg manwl o gyd-destun cymdeithasol ac amgylcheddol newidiol Ardal yr Astudiaeth, gan gynnwys diweddariad ar bob un o'r aneddiadau allweddol, yn yr Adolygiad Sylfaenol yn **Atodiad A**.

Gellir crynhoi canfyddiadau allweddol **Atodiad A**, sy'n cynnwys crynodeb o'r data sylfaenol, yr adolygiad llenyddiaeth a'r ymgysylltu penodol â rhanddeiliaid, fel a ganlyn:

- Yn gyffredinol, mae data'n awgrymu nad yw'r llinell sylfaen economaidd ar gyfer Ardal yr Astudiaeth wedi newid yn sylweddol ers cyhoeddi astudiaeth 2019. Dadansoddwyd data diweddaraf BRES sy'n awgrymu, yn gyffredinol, bod gweithgynhyrchu, amaethyddiaeth, llety a gwasanaethau bwyd, iechyd ac adwerthu yn parhau fel sectorau allweddol y rhanbarth. Fodd bynnag, mae'r ffigurau'n awgrymu bod gostyngiad wedi bod yng nghyfran y gweithwyr sy'n gweithio ym maes amaethyddiaeth yn Sir Benfro. Bydd hyn yn cael ei archwilio ymhellach fel rhan o'r rhagolygon a gallai fod yn arwyddocaol yng nghyd-destun 'Brexit'.
- Er gwaethaf data sy'n dangos newidiadau cyfyngedig yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae rhai canfyddiadau nodedig yn cynnwys llai o gyflogaeth mewn sectorau allweddol e.e. amaethyddiaeth yn Sir Benfro ac mae data enillion yn awgrymu, yn gyffredinol, bod enillion rhwng 2018 a 2020 yn ardal y Ddwy Sir wedi cynyddu, ac yn fwy nodedig felly o gymharu â rhanbarth De-orllewin Cymru a Chymru gyfan.
- Gall data a gyhoeddwyd gan Drysorlys y DU mewn perthynas â'r cynllun 'ffyrlo' helpu i ddeall sut y mae'r pandemig Covid-19 wedi effeithio ar yr

²⁶ Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro (2020)

<https://www.pembrokeshirecoast.wales/planning/planning-policy/local-development-plan-2/> [cyrchwyd ar: 20.01.21]

²⁷ Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog (2020) <https://www.beacons-npa.gov.uk/planning/draft-strategy-and-policy/local-development-plan-review/> [cyrchwyd ar: 20.01.21]

Ardal Astudiaeth y Ddwy Sir ac mae hyn hefyd yn cael ei archwilio yn y dangosfwrdd. Roedd gan Sir Benfro un o'r cyfraddau uchaf o ffyrlo yng Nghymru (34%). Efallai bod y gyfran fawr o gyflogaeth sydd yn y 'sector llety a gwasanaethau bwyd' yn fodd o egluro hyn. Dim ond ar lefel Cymru gyfan y mae data fesul sector ar ffyrlo ar gael, ond mae hyn yn dangos, fel sector, mai 'llety a gwasanaethau bwyd' oedd â'r nifer uchaf o weithwyr ar ffyrlo yng Nghymru, sef 78% o gyfanswm y gweithlu²⁸.

- Gyda golwg ar ddata demograffig, mae amcanestyniadau poblogaeth newydd wedi'u rhyddhau ers astudiaeth 2019. Mae'r rhain yn dangos y bydd twf y boblogaeth yn Sir Benfro a Sir Gaerfyrddin yn cynyddu'n gyffredinol yn yr 20 mlynedd nesaf; fodd bynnag, mae hyn ar gyfradd is na De-orllewin Cymru a Chymru gyfan²⁹.
- Mae dadansoddiad o'r dystiolaeth anecdotaidd a ddarparwyd gan Croeso Cymru yn awgrymu bod 2020 wedi bod yn flwyddyn gythryblus i'r sector twristiaeth³⁰. Mae hyn yn arbennig o arwyddocaol yng nghyd-destun ardal y Ddwy Sir o ystyried pwysigrwydd y sector hwn i'r economi ranbarthol. Gallai effaith Covid-19 ar dwristiaeth hefyd effeithio'n anghymesur ar aneddiadau allweddol penodol sy'n dibynnu i raddau mwy ar yr economi ymwelwyr e.e. Abergwaun, Tyddewi a Dinbych-y-pysgod, er nad yw'r effeithiau tymor canolig a hirdymor yn hysbys hyd yma.
- Er gwaethaf yr heriau a wynebir yn sgil y pandemig Covid-19, mae cynigion datblygu allweddol yn y rhanbarth, yn benodol prosiectau Bargen Ddinesig Abertawe, a buddsoddiad sy'n gysylltiedig â thwristiaeth e.e. prosiect denu twristiaid Pentywyn, yn parhau i wneud cynnydd³¹. Ymhellach, mae blaenoriaethau buddsoddi yn y rhanbarth wedi gallu elwa ar sefydlu ffrydiau ariannu cenedlaethol newydd mewn ymateb i'r pandemig e.e. ailddatblygu Cei De Penfro yn derbyn buddsoddiad o gronfa Trawsnewid Trefi Llywodraeth Cymru.
- Mae Gorchmynion Datblygu Lleol drafft wedi'u sefydlu ar gyfer canol trefi Caerfyrddin a Rhydaman. Nod y Gorchmynion Datblygu Lleol hyn yw hwyluso'r gwaith o newid y defnydd o unedau adwerthu gwag er mwyn adfywio'r canolfannau hyn³². Er bod y pandemig Covid-19 a'r 'cyfyngiadau symud' cenedlaethol parhaus wedi bod yn gatalydd ar gyfer gweithredu'r Gorchmynion Datblygu Lleol, maent yn cysylltu ag uchelgeisiau tymor hwy ar gyfer adfywio fel y gwelir yng ngwaith tasglu'r Stryd Fawr sy'n cael ei wneud

²⁸ Llywodraeth y DU (2020) <https://www.gov.uk/government/statistics/coronavirus-job-retention-scheme-statistics-august-2020> [cyrchwyd ar: 20.01.21]

²⁹ StatsCymru (2020) <https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Population-and-Migration/Population/Estimates/Local-Authority/populationestimates-by-localauthority-year> [cyrchwyd ar: 20.01.21]

³⁰ Llywodraeth Cymru/Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth (2020) <https://gov.wales/sites/default/files/statistics-and-research/2020-08/tourism-barometer-coronavirus-covid-19-impact-survey-wave-4-2020.pdf> [cyrchwyd ar: 11.11.20]

³¹ Cyngor Sir Caerfyrddin (2020) <https://newyddion.sirgar.llyw.cymru/2020/08/maes-parcio-traeth-pentywyn-yn-ailagor/#.YfwU3uQafIg> [cyrchwyd ar: 24.11.2020]

³² Cyngor Sir Caerfyrddin (2020) <https://democracy.carmarthenshire.gov.wales/documents/s44891/7.%20Statement%20of%20Reasons%20Carmarthen%20LDO.pdf> [cyrchwyd ar: 24.11.2020]

a'r ffaith fod Rhydaman yn cael ei nodi fel lleoliad â blaenoriaeth ar gyfer Rhaglen Targedu Buddsoddiad mewn Adfywio gan Lywodraeth Cymru³³.

- Mae Llywodraeth y DU wedi datblygu cynlluniau i sefydlu Porthladdoedd Rhydd ar ôl i'r DU dynnu'n ôl o'r Undeb Ewropeaidd. Cyhoeddwyd y bydd o leiaf un Porthladd Rhydd yn cael ei sefydlu yng Nghymru, a fydd yn cael ei bennu mewn cydweithrediad â Llywodraeth Cymru. Mae rhywfaint o wybodaeth bellach mewn perthynas â'r broses o wneud cynnig am Borthladdoedd Rhydd ar gyfer y gwledydd datganoledig ar gael ar adeg ysgrifennu hwn³⁴.

³³ Llywodraeth Cymru (2020) <https://llyw.cymru/cymorth-i-wella-canol-trefi/rhaglen-targedu-buddsoddiad-mewn-adfywio> [cyrchwyd ar: 24.11.2020]

³⁴ Llywodraeth y DU (2020) <https://www.gov.uk/government/news/government-outlines-new-plans-for-freeports-to-turbo-charge-post-brexit-trade> [cyrchwyd ar: 20.11.2020]

4 Diweddariad 'Mwy na Lleol': Dadansoddiad SWOT

4.1 Trosolwg

Yn gyffredinol, er bod yr adolygiad o'r data sylfaenol a'r gwaith ymgysylltu penodol â rhanddeiliaid yn cyflwyno rhai diweddariadau allweddol ers cyhoeddi astudiaeth 2019, yn enwedig o safbwynt y cyd-destun polisi a'r ffrydiau ariannu, mae'r themâu cyffredinol megis blaenoriaethau sectoraidd ac asedau lleol o bwysigrwydd strategol (e.e. rhwydwaith ffyrdd yr M4/A48 a Dyfrffordd Aberdaugleddau) yn aros yr un fath.

O ganlyniad i'r uchod, yn hytrach na pharatoi dadansoddiad SWOT wedi'i ddiweddararu'n llawn, mae Diweddariad 2020-21 wedi ystyried bygythiadau a chyfleoedd sy'n deillio'n bennaf o'r newidiadau allweddol a welwyd dros y flwyddyn ddiwethaf: Brexit a Covid-19, fesul sector allweddol. Mae hyn wedi'i lywio gan yr adolygiad o'r data sylfaenol a'r gwaith ymgysylltu penodol â rhanddeiliaid allweddol. Dylid ystyried y dadansoddiad hwn, a gyflwynir yn **Tabl 1** isod, yn erbyn y dadansoddiad SWOT a gyflwynwyd fel rhan o astudiaeth 2019.

Ystyrir goblygiadau hyn yn fanylach yn yr asesiad risg yn adran 5.

Mae'n werth nodi ar y cam hwn fod bygythiadau a chyfleoedd yn seiliedig ar dueddiadau posibl ac na ddylid eu darllen fel ffeithiau. Gan mai dim ond ar 1 Ionawr 2021 y daeth Trefniant Masnachu'r UE-DU i rym, ac nad yw effeithiau tymor canolig i dymor hir Covid-19 yn glir eto, nid yw'r effeithiau'n hysbys eto. Bydd nifer fawr o fygythiadau a chyfleoedd canfyddedig yn dibynnu ar allu busnesau i ymateb mewn modd ystwyth i'r newid hwn. **Bydd diweddariadau parhaus i'r Astudiaeth hon a'r SWOT yn dilyn yr Archwiliad Datblygu Lleol felly'n parhau'n hanfodol.**

Tabl 1 Brexit a Covid-19 Ionawr 2020 Dadansoddiad o Gyfleoedd a Bygythiadau 'Cychwynnol'

Sector	Brexit		Covid-19	
	Bygythiadau	Cyfleoedd	Bygythiadau	Cyfleoedd
Amaethyddiaeth	<ul style="list-style-type: none"> Mae gostyngiad amlwg wedi bod mewn cyflogaeth amaethyddol yn Sir Benfro yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf (o 3.7% i 2.8% o gyfanswm y gyflogaeth)³⁵. Mae gan Sir Gaerfyrddin nifer fwy o bobl sy'n cael eu cyflogi yn y sector o'i gymharu â'r cyfartaledd cenedlaethol. Effaith bosibl Cytundeb Masnach yr UE-DU ar reolaethau ffiniau iechydol a ffyioiechydol (SPS) a goblygiadau cost y rhain. Roedd rheolaethau ffiniau iechydol a ffyioiechydol (SPS) yn cynnwys gwiriadau helaeth ar gynhyrchion anifeiliaid, pysgod, pysgod cregyn a'u cynnyrch, anifeiliaid byw a phlanhigion a chynnyrch planhigion. Gallai'r gwiriadau hyn gynyddu'r costau sy'n gysylltiedig â masnach bwyd-amaeth rhwng Prydain Fawr a'r UE. 	<ul style="list-style-type: none"> 'Gwyrddu' a chanolbwyntio ar reoli tir yn gynaliadwy, a allai helpu i ymateb i'r argyfwng hinsawdd. Gallai Bil Amaethyddiaeth (Cymru) fod yn gatalydd ar gyfer diwygio rheoli tir a Chynigion Datblygu Gwledig Domestig yng Nghymru. 	<ul style="list-style-type: none"> Gostyngodd y gallu i 'siopa'n lleol' drwy gau siopau bwyd llai yn y cyfyngiadau symud cychwynnol. 	<ul style="list-style-type: none"> Mae llawer o fusnesau amaethyddol yn eiddo i'r teulu, sydd wedi darparu llafur gwydn yn ystod Covid-19. Mae cyfran fawr o fusnesau bach a chanolig yn arwain at ysbryd o 'entrepreneuriaeth', sydd wedi'i gefnogi gan y Gronfa Cadernid Economaidd.
Twristiaeth	<ul style="list-style-type: none"> Dibyniaeth uchel ar gyflogaeth yn y sector (17.8% o gyfanswm cyflogaeth yn Sir Benfro³⁶). Tymhorol ei natur ac yn gyffredinol yn llai gwydn i 'ergyd' Brexit'. Er ei fod yn lleoliad ar gyfer twristiaeth ddomestig yn bennaf, mae posibilrwydd y bydd llai o symudedd â'r UE yn effeithio ar ymwelwyr. 	<ul style="list-style-type: none"> Ceir posibilrwydd o ymgyrchu tuag at dwristiaeth ddomestig gan fod teithio tramor yn parhau i fod yn ansicr. Mae Sir Gaerfyrddin yn gweithio ar strategaeth dwristiaeth newydd ac yn cysylltu hyn â chynnyrch lleol '100% Sir Gâr'. Gallai Sir Benfro ystyried dull tebyg. 	<ul style="list-style-type: none"> Roedd cyfran uchel o'r gweithwyr ar ffyrlo (78% o'r sector yng Nghymru) Ceir posibilrwydd o effaith bellach ar y sector hwn yn sgil cyfyngiadau symud tramor. Awgrymai tystiolaeth anecdotaidd o'r gwaith ymgysylltu penodol a wnaed â rhanddeiliaid bod cynnydd wedi bod mewn 'gwyliu gartref' dros haf 2020 h.y. twristiaeth ddomestig, ond bod y galw hwn yn tueddu i fod ar ffurf hunangynhaliol ac nad oedd o reidrwydd yn arwain at lefelau uwch o wariant ymwelwyr. 	<ul style="list-style-type: none"> Ceir posibilrwydd o fanteisio ar sector twristiaeth gynaliadwy, 'gwyrdd' a'r ymgyrch tuag at dwristiaeth ddomestig. Cyfle i ddefnyddio ffyrddiau ariannu newydd ar gyfer prosiectau a allai, efallai, gael effaith fuddiol ar dwristiaeth e.e. trwy gyfrwng prosiectau'r gronfa Trawsnewid Trefi, y gronfa Trafnidiaeth Gynaliadwy. Mae rhagolygon Experian 2021 yn awgrymu adfywiad cryf mewn llety, gwasanaethau bwyd a hamdden o 2022 ymlaen yn y ddwy sir, ond yn enwedig Sir Benfro. Mae prosiectau twristiaeth lleol allweddol e.e. Prosiect Denu Twristiaid Pentywyn yn parhau er gwaethaf y pandemig, gan greu ymdeimlad o sicrwydd o fewn y sector.
Gweithgynhyrchu	<ul style="list-style-type: none"> Mae amcanestyniadau Experian yn awgrymu y bydd yna ddiffyg twf mewn swyddi gweithgynhyrchu ar draws y rhanbarth ehangach dros y tymor canolig i'r tymor hir, ac nid yw'r rhagolygon yn adfer i lefelau 2019. Disgwylir i Sir Benfro brofi dirywiad dros y tymor hir, tra disgwylir i'r sector yn Sir Gaerfyrddin brofi rhywfaint o adfywiad cryf ar ôl y pandemig ond na fydd y twf yn cyrraedd lefelau 2019. Mae'r lefelau cyflogaeth hefyd yn uchel mewn Adwerthu, Masnach Moduron a Chyfanwerthu sydd hefyd yn ddiwydiannau 'mewn perygl'. Mae rhagor o golledion swyddi yn gysylltiedig â chwmnïau mawr megis Tata mewn diwydiannau lleol traddodiadol fel cynhyrchu dur. Effaith bosibl trothwyon Rheol Tarddiad ar y gadwyn gyflenwi trwy Gytundeb Masnach yr UE-DU. 	<ul style="list-style-type: none"> Cyfleoedd i symud y ffocws oddi wrth ddiwydiannau traddodiadol tuag at feysydd cyfle e.e. gwyddorau bywyd ac ynni adnewyddadwy, a gefnogir gan Dyfodol Gweithgynhyrchu i Gymru: Fframwaith Gweithredu a Bargen Ddinesig Bae Abertawe. 	<ul style="list-style-type: none"> Yn sector gweithgynhyrchu Cymru, yn ôl y sôn roedd 42% o weithwyr ar ffyrlo yn ystod mis Awst 2020³⁷. Mae'n aneglur faint o weithwyr sydd wedi dychwelyd i'r gwaith. Ceir posibilrwydd o ddirywiad pellach mewn busnesau gweithgynhyrchu o ganlyniad uniongyrchol i'r pandemig Covid-19. Mae tueddiadau ar y lefel ranbarthol ehangach yn dangos rhagolwg cyffredinol o ddirywiad o fewn y sector, gan adlewyrchu tueddiadau'n fwy cyffredinol ledled Cymru a'r DU³⁸. 	<ul style="list-style-type: none"> Cyfleoedd i ddysgu sgiliau newydd a chreu cyfleoedd addysg/hyfforddiant sy'n gysylltiedig â newidiadau mewn blaenoriaethau sectoraidd.
Bwyd a Diod	<ul style="list-style-type: none"> Nid yw'n glir pa mor gystadleuol yw ffermio a chynhyrchu bwyd yn y tymor hir yn dilyn Cytundeb Masnachu. Bydd hyn yn dibynnu ar y gallu i gael mynediad at lafur a logisteg y gadwyn gyflenwi, goblygiadau rheolaethau ffiniau iechydol a ffyioiechydol a, lle mae deunyddiau nad ydynt yn dod o'r UE/DU yn cael eu puro yn y DU, faint o gynnyrch sy'n fwy na'r trothwyon ar gyfer cynnwys i fodloni'r gofynion Rheolau Tarddiad. 	<ul style="list-style-type: none"> Mae Bil Amaethyddiaeth (Cymru) yn ceisio bod yn gatalydd ar gyfer diwygio rheoli tir yng Nghymru a allai gael effaith o ganlyniad ar y sector bwyd a diod. Ceir posibilrwydd o roi mwy o ffocws ar leoliaeth a chynnyrch â brand Cymreig yn siopau'r DU. Cyfleoedd i gysylltu'r arlwy bwyd a diod lleol â sectorau strategol eraill e.e. twristiaeth. 	<ul style="list-style-type: none"> Mae cyfran o'r gweithwyr ar ffyrlo gyda pheth ansicrwydd ynghylch a oes ganddynt waith i ddechrau iddo. Mae unrhyw gyfyngiadau symud yn y dyfodol yn debygol iawn o lesteirio gwytnwch y sector yn sylweddol. Ceir effeithiau hirdymor ar y sector yn lleol, yn enwedig wrth ystyried y cyhoeddiadau diweddar am golli swyddi mewn safleoedd cyflogaeth allweddol e.e. Castell Howell³⁹. 	<ul style="list-style-type: none"> Mae data Experian yn awgrymu y bydd gwasanaethau llety, gwasanaethau bwyd a hamdden yn profi twf cyson dros y tymor canolig i'r tymor hir, sy'n awgrymu'r posibilrwydd o gyfleoedd pellach i ehangu'r hyn a gynigir. Mae cyfle o hyd i adeiladu ar wyliau bwyd a diod lleol ar ôl y pandemig. Gwneud y mwyaf o gyfleoedd i gaffael yn lleol yn y gadwyn gyflenwi.

³⁵ BRES (2019) <https://www.nomisweb.co.uk/sources/bres>³⁶ BRES (2019) <https://www.nomisweb.co.uk/sources/bres>³⁷ Llywodraeth y DU (2020) <https://www.gov.uk/government/statistics/coronavirus-job-retention-scheme-statistics-august-2020> [cyrchwyd ar: 24.11.20]³⁸ Gweler Atodiad B³⁹ Food Manufacture (2020) <https://www.foodmanufacture.co.uk/Article/2020/06/23/Welsh-food-manufacturer-to-make-redundancies> [cyrchwyd ar: 11.11.20]

Sector	Brexit		Covid-19	
	Bygythiadau	Cyfleoedd	Bygythiadau	Cyfleoedd
Diwydiannau Digidol a Chreadigol	<ul style="list-style-type: none"> Nid yw Cytundeb Masnachu'r UE-DU yn archwilio'n helaeth y berthynas ar gyfer gwasanaethau. Yn hytrach, mae'r DU a'r UE wedi cytuno i ymrwmo i fynediad i'r farchnad ar gyfer gwasanaethau; triniaeth genedlaethol ar gyfer gwahardd gwahaniaethu rhwng gwladolion a gwahardd partïon rhag gofyn am is-gwmni lleol cyn y gellir darparu gwasanaethau. Nid yw digonolrwydd data wedi'i gynnwys yn y Cytundeb, er bod y ddwy ochr yn dweud eu bod wedi ymrwmo i hwyluso llifoedd data trawsffiniol, ac mae'r cytundeb yn gwahardd y naill ochr a'r llall rhag mynnu bod data yn cael ei storio neu ei brosesu yn eu tiriogaeth. Yn amodol ar eithriadau, gallai'r cytundeb leihau cyfleoedd i weithio'n rhyngwladol yn yr UE yn y maes hwn. 	<ul style="list-style-type: none"> Cyfleoedd a gyflwynir yn gyffredinol gan fuddsoddiad lleol yn y sector hwn wedi'u tanategu gan ddatblygiad Yr Egin yn Sir Gaerfyrddin a phrosiectau o fewn Bargaen Ddinesig Bae Abertawe. Mae'r Strategaeth Seilwaith Genedlaethol (Tachwedd 2020) yn cynnwys darpariaeth ar gyfer strategaeth band eang gigabit ledled y DU. 	<ul style="list-style-type: none"> Cofnodwyd bod cyfran uchel o'r diwydiant ar 'ffyrlo' yn ystod mis Awst 2020 (77% ledled Cymru). Mae yna ddiffyg eglurder o hyd ynghylch faint sydd wedi dychwelyd i'r gwaith cyn diwedd ffyrlo ym mis Hydref 2021. 	<ul style="list-style-type: none"> Cyfleoedd ariannu o'r 'gronfa Trawsnewid Trefi' i gefnogi gwelliannau mewn: <ul style="list-style-type: none"> > datblygu eiddo nad yw'n cael ei ddefnyddio ddigon, sy'n wag neu sy'n dadfeilio i fod yn fusnesau, tai, cyfleusterau hamdden, safleoedd masnachol, cyfleusterau cymunedol neu ganolfannau creadigol. > gwella ymddangosiad eiddo a/neu eu hail-lunio i'w gwneud yn fwy hyfyw > gwella safleoedd presennol drwy gyflwyno gwasanaethau arloesol a chysylltedd, megis band eang cyflym, a fydd yn denu busnesau. Cyfleoedd i gynyddu 'gweithio gartref' a manteision hyn i economïau lleol iawn (h.y. 'cymdogaethau pymtheg munud'⁴⁰).
Logisteg a Dosbarthu	<ul style="list-style-type: none"> Bydd angen i'r holl nwyddau sy'n symud rhwng Prydain Fawr-UE ddangos eu bod yn cydymffurfio â chyfraith yr UE – ac i'r gwrthwyneb. Bydd y cytundeb hefyd yn caniatáu rhywfaint o symleiddio datganiadau a gwaith papur tollau; fodd bynnag, mae hyn yn fwy helaeth na'r sefyllfa cyn mis Rhagfyr 2020. Mae'r effeithiau cychwynnol yn ystod gwanwyn / haf 2021 yn dangos bod effaith gyfunol Brexit a Covid-19 wedi arwain at brinder cronig yn genedlaethol o yrwyr cerbydau nwyddau trwm. 	<ul style="list-style-type: none"> Bydd cludwyr y DU a'r UE a gweithredwyr trafndiaeth teithwyr yn gallu parhau i weithredu heb hawlenni neu drwyddedau ychwanegol. Bydd gan longau fynediad i borthladdoedd, seilwaith porthladdoedd a chyfleusterau tollau ei gilydd ar delerau nad ydynt yn llai ffafriol na'r rheiny sy'n gymwys i'w llongau eu hunain. Cymorth o fewn 'Strategaeth Drafndiaeth newydd i Gymru' (Tachwedd 2020) ar gyfer mesurau trafndiaeth mwy cynaliadwy. 	Mae'r effeithiau cychwynnol yn ystod gwanwyn / haf 2021 yn dangos bod effaith gyfunol Brexit a Covid-19 wedi arwain at brinder cronig yn genedlaethol o yrwyr cerbydau nwyddau trwm.	Mae'r pandemig Covid-19 wedi creu mwy o alw am e-fasnach o ganlyniad i 'gyfyngiadau symud' a chau safleoedd adwerthu ac mae ymchwil a wnaed gan y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD) ⁴¹ wedi dangos bod hyn yn debygol o barhau ar ôl y pandemig. Adroddwyd hefyd bod y cynnydd hwn mewn e-fasnach wedi arwain at alw am ofod warws a allai fod â goblygiadau gofodol ymhell i'r dyfodol ⁴² .
Ynni	<ul style="list-style-type: none"> Ymddengys bod bygythiadau'n cael eu lleihau'n gyffredinol o fewn y sector hwn gan fod cydweithrediad ynni yn rhan o Gytundeb Masnach a Chydweithredu cyffredinol y DU a'r UE. Bydd y DU yn parhau i gael mynediad i farchnad ynni fewnol yr UE a bydd ganddi tan 2022 i benderfynu sut i wneud y defnydd gorau posibl o ryng-gysylltwyr (y cysylltiadau ffisegol sy'n caniatáu trosglwyddo trydan ar draws ffiniau). 	<ul style="list-style-type: none"> Mae Cymru'r Dyfodol yn parhau i roi cefnogaeth gref i bolisi datblygu ynni adnewyddadwy. Mae Llywodraeth Ganolog y DU yn ceisio cyflawni 'targedau sero-net erbyn 2050' wrth hefyd gyflymu a gwella'r modd y darperir prosiectau seilwaith ar gyflymder. Rhyddhaodd Llywodraeth Ganolog y DU y Cynllun Deg Pwynt ar gyfer Chwyldro Diwydiannol Gwyrdd (Tachwedd 2020), sy'n ceisio: hyrwyddo ynni gwynt ar y môr; sbarduno twf hydrogen carbon isel; cyflymu'r newid i gerbydau dim allyriadau; a buddsoddi mewn dal, defnyddio a storio carbon. Gallai hyn fod yn gyfle sy'n deillio o Brexit a Covid-19. 		

⁴⁰ Arup (2020) <https://www.arup.com/perspectives/designing-the-fifteen-minute-neighbourhood> [cyrchwyd ar: 25.01.21]

⁴¹ Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD) (2020) <http://www.oecd.org/coronavirus/policy-responses/e-commerce-in-the-time-of-covid-19-3a2b78e8/#section-d1e102> [cyrchwyd ar 25.01.21]

⁴² The Telegraph (2020) 'E-commerce boom fuels rocketing demand for warehouse space' <https://www.telegraph.co.uk/technology/2020/12/09/e-commerce-boom-fuels-rocketing-demand-warehouse-space/> [cyrchwyd ar: 25.01.21]

5 Diweddariad 'Mwy na Lleol': Profi Ymyriadau 2019

5.1 Trosolwg

Fel y cyflwynwyd yn adran 1.2, un o brif ddibenion Diweddariad 2020-21 oedd profi canfyddiadau cyffredinol astudiaeth 2019 yn erbyn llinell sylfaen 2020 i sicrhau bod Astudiaeth Economaidd y Ddwy Sir yn parhau i fod yn ddogfen sylfaen dystiolaeth gadarn ar gyfer yr adolygiadau o CDLI2.

Canlyniad astudiaeth 2019 oedd cyfres o ymyriadau eang a oedd yn canolbwyntio ar flaenoriaethau sectoraidd, a argymhellwyd er mwyn hyrwyddo twf a buddsoddiad ar draws ardal y Ddwy Sir. Yn erbyn yr ymyriadau eang hyn, diffiniwyd cyfres o is-gamau gweithredu a argymhellir ac allbynnau ar safle.

Er mwyn profi a yw'r ymyriadau, yr is-gamau gweithredu a'r allbynnau ar safle hyn yn parhau'n ddilys yng ngoleuni adolygiad sylfaenol 2020, cynhaliwyd asesiad risg o'r ymyriadau a gyflwynir yn Adran 5.3. Caiff y modd y cafodd yr asesiad risg hwn ei goladu ei esbonio yn Adran 5.2.

5.2 Profi Ymyriadau 2019: Methodoleg

Fel y cyflwynwyd uchod, y man cychwyn ar gyfer asesu risg astudiaeth 2019 oedd yr ymyriadau eang, yr is-gamau gweithredu a'r allbynnau ar safle a nodwyd yn flaenorol.

Drwy gyfres o dablau a gyflwynir yn adran 5.3 isod, mae'r asesiad yn nodi pob un o'r ymyriadau eang, yr is-gamau gweithredu ac allbynnau ar safle yn union fel y gwnaethant ymddangos yn astudiaeth 2019. Mae'r côd a gyflwynir yn y golofn 'sbardunau', yn cyfateb i'r codau sy'n ymddangos o fewn dadansoddiad SWOT 2019. Yn erbyn pob un o'r ymyriadau, ceir crynodeb o ganfyddiadau llinell sylfaen 2020 er mwyn dechrau dadansoddiad cymharol. Fel y cyflwynwyd drwy gydol yr adroddiad hwn, mae llinell sylfaen 2020 yn cynnwys yr adolygiad llenyddiaeth, y data sylfaenol (gan gynnwys rhagolygon Experian) ac ymgysylltu penodol â rhanddeiliaid.

Nod yr asesiad oedd gallu cymhwyso 'sgôr risg' i bob un o'r ymyriadau (a'r is-gamau gweithredu/allbynnau ar safle) a chamau gweithredu cysylltiedig ar gyfer lleihau'r risg hon. Gall y Cynghorau Sir ddefnyddio'r wybodaeth hon i brofi sut y gallai fod angen diweddarau cynnwys yr adolygiadau CDLI fel blaenoriaeth hefyd. Unwaith eto, ailadroddir yma, o ystyried natur y Diweddariad hwn yng nghydstun amgylchedd economaidd sy'n newid yn gyflym, y dylid adolygu 'risgiau' a'r camau gweithredu ar gyfer goblygiadau a'u gwirio'n barhaus yn erbyn y wybodaeth ddiweddaraf sydd ar gael.

Er mwyn gallu cymhwyso 'sgôr risg' yn gyson ar draws pob ymyriad, nodwyd goblygiadau Diweddariad Sylfaenol 2020-21 ar yr ymyriadau eang a'r is-gamau gweithredu / allbynnau ar safle fel y nodwyd yn 2019. Wrth ystyried y goblygiadau hyn, gofynnodd tîm y prosiect dri chwestiwn allweddol:

1. Wrth ystyried llinell sylfaen 2020, a yw'r ymyriad eang a'i is-gamau gweithredu / allbynnau ar safle cysylltiedig yn parhau i fod yn berthnasol?
2. Os oes angen newidiadau i'r ymyriadau / pwyntiau gweithredu, faint o newid sydd ei angen?
3. Beth ddylai unrhyw is-gamau/allbynnau ar safle diwygiedig fod?

Gan ddefnyddio barn broffesiynol, cafodd y lefel briodol o risg wedyn ei neilltuo i bob un o'r ymyriadau eang.

Er eglurder a chysondeb, cyflwynir disgrifiad o bob un o'r sgoriau risg yn **Tabl 2** isod.

Tabl 2 Meini Prawf Asesu Risg

Sgôr Risg	Disgrifiad	Meini Prawf Asesu
++	Gadarnhaol Sylweddol	Mae sgôr risg gadarnhaol sylweddol yn cael ei chymhwyso i ymyriadau sy'n ymwneud â sectorau sydd wedi profi twf dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae hefyd wedi cael ei chymhwyso mewn achosion lle bu cryfhau polisi a / neu gymorth ariannol ar gyfer ymyriad neu thema gysylltiedig. Yn ogystal, ystyrir a yw prosiectau / ymyriadau ar safle wedi bod yn mynd rhagddynt neu wedi'u cwblhau ers cyhoeddi astudiaeth 2019.
+	Gadarnhaol Fach	Caiff sgôr risg gadarnhaol fach ei chymhwyso i ymyriadau sy'n ymwneud â sectorau a allai fod wedi profi peth dirywiad ers mis Hydref 2019, ond sy'n debygol o wella yn y tymor byr i ganolig (yn seiliedig ar ddata rhagolygon Experian) a / neu sectorau sydd wedi profi newid cyfyngedig ers astudiaeth 2019 h.y. wedi parhau i symud ymlaen mewn modd 'busnes fel arfer'. Mae hefyd wedi cael ei chymhwyso i ymyriadau ac is-gamau gweithredu posibl sydd wedi cadw cymorth polisi cryf a / neu gyfleoedd ariannu a / neu ymyriadau ar safle sy'n parhau i symud ymlaen.
0 / ?	Niwtral neu Ansicr	Mae sgôr niwtral neu ansicr wedi'i chymhwyso i ymyriadau lle ceir lefel uchel o ansicrwydd o hyd oherwydd diffyg tystiolaeth sydd ar gael o fewn y llinell sylfaen, ac fel y cyfryw ni fu'n bosibl diffinio sgôr risg glir.
-	Negyddol Fach	Mae sgôr negyddol fach yn cael ei chymhwyso i ymyriadau sy'n ymwneud â sectorau sydd wedi profi gostyngiad cyffredinol ers mis Hydref 2019, ac sy'n annhebygol o wella yn y tymor byr i ganolig (yn seiliedig ar ddata rhagolygon Experian). Mae hefyd wedi cael ei chymhwyso i ymyriadau sydd â chymorth cyfyngedig mewn polisi a / neu gymorth ariannol cyfyngedig, ac ymyriadau ar safle sydd wedi gwneud cynnydd cyfyngedig ers cyhoeddi astudiaeth 2019.
--	Negyddol Sylweddol	Mae sgôr negyddol sylweddol yn cael ei chymhwyso i ymyriadau sydd wedi profi dirywiad ers mis Hydref 2019 ac sydd ond yn debygol o brofi adferiad economaidd dros y tymor hir (os o gwbl). Mae wedi cael ei chymhwyso i ymyriadau nad ydynt yn cael eu cefnogi'n gryf gan bolisi ac a fyddai'n cael mynediad cyfyngedig iawn at gyllid. Mae hefyd wedi cael ei chymhwyso i ymyriadau ar safle sy'n annhebygol o fod yn hyfyw yn y tymor byr i ganolig.

Fel y nodwyd yn y tabl asesu uchod, ystyriwyd bod hyd yn ffactor wrth briodoli risg i bob un o'r ymyriadau.

Tabl 3 Meini Prawf Hyd

Hyd	Diffiniad
Tymor Byr	Effaith sy'n debygol o ddigwydd o fewn 1-3 blynedd i gyhoeddi'r astudiaeth h.y. o fewn cyfnod cynllun CDL12 ar gyfer Cyngor Sir Caerfyrddin a Chyngor Sir Penfro
Tymor Canolig	Effaith sy'n debygol o ddigwydd o fewn 4-10 mlynedd i gyhoeddi'r astudiaeth h.y. o fewn cyfnod cynllun CDL12 ar gyfer Cyngor Sir Caerfyrddin a Chyngor Sir Penfro
Tymor Hir	Effaith sy'n debygol o ddigwydd o fewn 11-15 mlynedd (neu'r tu hwnt) i gyhoeddi'r astudiaeth h.y. y potensial i ymestyn y tu hwnt i gyfnodau cynllun CDL12

Fel y nodwyd yn y cyflwyniad i'r adroddiad hwn, nid yw Diweddariad 2020-21 yn cyflwyno rhestr gynhwysfawr o ddiweddariadau ac nid yw'n ailadrodd gwybodaeth o astudiaeth 2019. Mae hyn hefyd yn berthnasol i'r tablau asesu risg isod, sy'n profi canfyddiadau astudiaeth 2019 yn benodol, ac nad ydynt yn nodi unrhyw ymyriadau ychwanegol.

Ceisiodd Diweddariad 2020-21 hefyd ddiweddarau rhagolygon Experian, fel y'u cyflwynwyd yn Atodiad B. Mae'r rhain yn ymwneud â'r rhagolygon diweddaraf sydd ar gael adeg Diweddariad 2021 yn y Gwanwyn, sef y rhai a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2021. Er bod rhagolygon Ebrill 2021 yn cynnwys gwybodaeth gywir ynghylch canlyniadau'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu a chyflwyno brechlyn Covid-19, roedd y tueddiadau eang ar draws ardal yr astudiaeth yn aros yr un fath ar draws rhagolygon 2020, pan ddiweddarwyd Astudiaeth Economaidd y Ddwy Sir yn wreiddiol. O ganlyniad, ystyrir nad oedd y data Experian diweddaraf yn newid canfyddiadau'r asesiad risg fel y'i cyflwynwyd yn sylweddol.

Cyflwynir dadansoddiad cymharol o ragolygon Medi 2020 a rhagolygon Ebrill 2021 yn Atodiad B.

5.3 Profi'r Ymyriadau: Tablau Asesu Risg

INV1: Manteisio i'r eithaf ar gryfderau sectorau presennol

INV1 Gwneud y gorau o gryfderau sectorau cyflenwol drwy fanteisio i'r eithaf ar adnoddau naturiol ac ychwanegu gwerth: Drwy adeiladu ar fanteision economïau cyflenwol (ES1) a chryfderau sectorau presennol (KS1-6) ymddengys fod sectorau clir y gellir sicrhau synergeddau a manteision cyflenwol eraill drwyddynt.

Tabl 4 Manteisio i'r eithaf ar gryfderau sectorau presennol

Sbardunau	Ymyriadau Eang (2019)	Is-gamau gweithredu posibl / Allbynnau ar safle (2019)	Diweddariad Sylfaenol 2020/21 (Crynhai data sylfaenol, ymgysylltu, adolygiad llenyddiaeth)	Goblygiadau Posibl (Yn amodol ar adolygiad parhaus)	Sgôr Risg
ES1, KS1, KS2, G1	Bwyd a Thwristiaeth / Lletygarwch: Gellid cynnwys ansawdd cynnyrch yn yr Ardal Fwy na Lleol i raddau mwy yn y cynnig i ymwelwyr, a dylai fod yn rhan o apêl y gyrchfan. Mae rhai gweithgareddau'n bodoli (ee, Wythnos Pysgod Sir Benfro) ond ceir cyfle i wneud mwy i hyrwyddo cynhyrchwyd lleol ac ennyn diddordeb ymwelwyr yn y sector (ee, llwybr/teithiau bwyd a diod).	<ul style="list-style-type: none"> Ystyried datblygu a hyrwyddo rhaglen o ddigwyddiadau bwyd wedi'i chydgysylltu ar draws yr awdurdodau. Gallai hyn gynnwys gweithio ochr yn ochr â chydweithwyr ym maes trafniadaeth a digwyddiadau er mwyn sicrhau bod ymwelwyr yn cael eu rheoli'n ofalus oddi mewn i'r cyfyngiadau presennol ar seilwaith. Drwy weithio gyda Thimau Tref, y Tîm Datblygu Bwyd a mentrau wedi'u lleoli mewn trefi, ystyried datblygu rhwydwaith sy'n sicrhau y gall darparwyr a busnesau lleol ymgysylltu â digwyddiadau tymhorol. 	<ol style="list-style-type: none"> Ers hynny mae Harbwr Abergwaun, a oedd wedi dod yn gyrchfan boblogaidd ar gyfer digwyddiadau diwylliannol, wedi dioddef effaith andwyol o ganlyniad i'r pandemig Covid-19. Nid yw'r goblygiadau hirdymor posibl wedi'u gwireddu eto. Cyhoeddodd VisitBritain bapur ar gyfer y llywodraeth o'r enw 'Helping the tourism industry recover from Covid-19 - Proposals for Government'⁴³, nododd hyn fel a ganlyn: "outdoor events have lost the majority of the 2020 season, with cancellations including 76% of all music events, 68.4% of arts events and 63% of fairs." Roedd adroddiad VisitBritain hefyd yn cynnwys ffyrdd ymarferol y gallai Llywodraeth y DU gefnogi adferiad y sector twristiaeth drwy 2020 a 2021. Roedd y mesurau'n cynnwys: <ol style="list-style-type: none"> Atal taliadau trwydded blynyddol ac ystyried dull mwy 'ystwyth' ac 'adweithiol' o gynllunio a chaniatâd i annog pobl i gynnal digwyddiadau. Dynodi mwy o ardaloedd o'r DU fel 'parthau twristiaeth' fel y nodir yn y Strategaeth Ddiwydiannol. Lansio ymgyrch farchnata fawr sy'n canolbwyntio ar deithio domestig. Yn ystod sesiynau ymgysylltu penodol â rhanddeiliaid, rhoddodd Cyngor Sir Caerfyrddin ffocws ar dwristiaeth a oedd yn datblygu rhyngddibyniaethau â busnesau a chynnyrch lleol; mae hyn wedi dechrau gyda'r 'Ymgyrch 100% Sir Gâr'⁴⁴ sy'n annog pobl i 'siopa'n lleol'. Mynegodd Cyngor Sir Penfro eu hawydd i fabwysiadu dull tebyg. 	<p>A yw'r ymyriad eang a'r camau gweithredu cysylltiedig yn parhau i fod yn berthnasol yn 2020/21? Yn y tymor canolig, mae cyfle o hyd i hyrwyddo ymhellach letygarwch a thwristiaeth sy'n gysylltiedig â bwyd er gwaethaf dirywiad yn y sector o ganlyniad i'r pandemig Covid-19. Mae data Experian yn dangos adfywiad cryf y sector dros y tymor canolig. O ystyried y cynlluniau adfer yn sgil Covid-19 sydd ar waith, megis Adeiladu Lleoedd Gwell, efallai y bydd mwy o gyfleoedd i hyrwyddo digwyddiadau ac i'r sector cyhoeddus gefnogi bwyd a thwristiaeth wrth iddo adfer.</p> <p>Graddfa'r Newid? Byddai'r newid sy'n ofynnol i'r ymyriad eang a'r is-gamau gweithredu a nodwyd yn 2019 yn isel gan eu bod, o ystyried y llinell sylfaen, yn parhau'n ddilys mewn senario tymor canolig.</p> <p>Pwntiau Gweithredu Ychwanegol?</p> <ul style="list-style-type: none"> Archwilio cyfleoedd i ddynodi 'parth twristiaeth', neu debyg, fel y'i cefnogir gan VisitBritain. Parhau i ymgysylltu â VisitBritain a Croeso Cymru i sicrhau bod ymdrechion yn cael eu cydgysylltu ag ymgyrchoedd marchnata cenedlaethol ar gyfer twristiaeth ddomestig. Ystyried ymhellach unrhyw ffyrdd o alluogi digwyddiadau i dwristiaid ailddechrau ar ôl Covid-19, boed hynny trwy gyfrwng trwyddedu neu'r broses gynllunio. Parhau i fonitro goblygiadau Cytundeb Masnach yr UE-DU ar ddarparwyr cynnyrch lleol a'r gallu i fewnforio nwyddau. 	+ / ?
ES1, KS4, KS5, CSI5	Pren a Thai / Adeiladu: Mae'r Ardal Fwy na Lleol, ac yn enwedig rhannau o Sir Gaerfyrddin, yn cynnwys ystadau mawr o goedwigoedd/goetir. O gyfuno ymgyrch i greu coetiroedd mwy cynhyrchiol, ac uchelgeisiau cenedlaethol yn gysylltiedig â dulliau adeiladu modern (DAM) yn y rhanbarth, mae'n	<ul style="list-style-type: none"> Ystyried hyrwyddo'r Ardal Fwy na Lleol ar gyfer datblygiadau DAM, gan gyfeirio'n benodol at y ffaith bod adnoddau pren a marchnadoedd posibl yn agos at ei gilydd. Ystyried darparu cymorth busnes i gwmnïau sy'n dymuno ehangu i brosesau DAM drwy 	<ol style="list-style-type: none"> Mae'r Cytundeb Brexit yn cynnwys ymrwymiad y bydd 'Y Partion' (h.y. y DU a'r UE) yn gweithio gyda'i gilydd i gryfhau eu cydweithrediad ar agweddau sy'n gysylltiedig â masnach ar reoli coedwigoedd yn gynaliadwy. Mae'r manylion yn parhau'n aneglur o ran sut y bydd yr agweddau sy'n gysylltiedig â masnach yn edrych. Cynigiodd ymgyngoriad ar 'Ffermio Cynaliadwy a'n Tir' ddiffiniad o ddatblygu gwledig ar ôl Brexit sy'n cynnwys 'mesurau sy'n ffafriol i... dechrau, neu wella cynhyrchiad, gweithgarwch amaethyddol, garddwriaethol neu goedwigaeth neu fusnes gwledig', sy'n dangos eu hymrwymiad i elfen goedwigaeth y sector amaethyddol. Mae hyn yn bwysig o ystyried pwysigrwydd cynhyrchu pren i economi Cymru, fel yr adroddwyd yn astudiaeth 2019. Adlewyrchir hyn ar lefel leol hefyd 	<p>A yw'r ymyriad eang a'r camau gweithredu cysylltiedig yn parhau i fod yn berthnasol yn 2020/21? Roedd yr ymyriad eang hwn yn canolbwyntio ar ddefnyddio cyflenwad pren lleol ar gyfer prosiectau lleol yng Nghymru e.e. darparu tai awdurdod lleol. Felly, er gwaethaf ansicrwydd posibl yn y sector coedwigaeth mewn perthynas â manylion Cytundeb yr UE-DU, mae'r ymyriad hwn yn parhau i fod yn berthnasol i economi'r ddwy sir yn 2020/2021. Gall hyn yn wir fod yn sector cyfleoedd, o ganlyniad i farchnad fyd-eang lai bywiog ond ymrwymiad cryf ar lefel leol ac ar lefel Cymru i barhau i gefnogi'r sector coedwigaeth.</p> <p>Graddfa'r Newid? O ystyried yr ymyriad ar lefel leol, fel y bwriadwyd, mae graddfa'r newid yn gyfyngedig. Mae dal i fod angen cefnogi'r gwaith o ddarparu tai yn ardal y ddwy sir ac mae adeiladu tai pren/Dulliau Adeiladu</p>	+

⁴³ Visit Britain (2020) <https://www.visitbritain.org/helping-tourism-industry-recover-Covid-19>

⁴⁴ Darganfod Sir Gâr (2020) <https://www.darganfodsirgar.com/siopa/>

Sbardunau	Ymyriadau Eang (2019)	Is-gamau gweithredu posibl / Allbynnau ar safle (2019)	Diweddariad Sylfaenol 2020/21 (Crynhoi data sylfaenol, ymgysylltu, adolygiad llenyddiaeth)	Goblygiadau Posibl (Yn amodol ar adolygiad parhaus)	Sgôr Risg
	bosib bod cyfle i adolygu manteision cynhyrchu pren i'r diwydiant adeiladu lleol, ac ystyried cyfleoedd am gyfleusterau adeiladu modiwlaid yn gysylltiedig â chynlluniau'r cynghorau i ddarparu tai.	<p>ddefnyddio adnoddau lleol. Gweithio gydag arbenigwyr o fewn y sector i nodi safleoedd a chanddynt seilwaith cefnogol priodol (hy, agosrwydd at adnoddau a seilwaith trafniadaeth).</p> <ul style="list-style-type: none"> Archwilio cyfleoedd i Gynghorau sydd yn rhan o'r ardal weithredu fel partner datblygu â darparwyr DAM, yn gysylltiedig â chynlluniau'r cyngor ar gyfer cyflenwi tai. 	<p>gyda Strategaeth Adfer ac Adfywio Economaidd Sir Benfro (2020) yn nodi coedwigaeth fel sector allweddol yn y sir.</p> <ol style="list-style-type: none"> Gyda golwg ar y diwydiant adeiladu lleol, mae data BRES yn dangos, er ei fod yn dal i gynrychioli cyfran eithaf mawr o'r gweithlu o fewn yr Ardal yr Astudiaeth (5.2% yn Sir Gaerfyrddin a 5.0% yn Sir Benfro), mae'r ffigurau hyn wedi gostwng yn gyffredinol ers cyhoeddi astudiaeth 2019 (2% yn Sir Gaerfyrddin a 5% yn Sir Benfro). Er gwaethaf hyn, mae data rhagolwg Experian yn dangos y bydd yna, yn Sir Gaerfyrddin yn benodol, dwf yn swyddi'r sector adeiladu dros y tymor byr cyn sefydlogi oddeutu'r lefelau cyn y pandemig. Mae targedau tai'r Cynghorau Sir yn cael eu hailystyried yng ngoleuni'r angen i adolygu Cynlluniau Adneuo CDLI2 yn erbyn effeithiau Covid-19. Bydd angen monitro'n ofalus effaith canllawiau Cyfoeth Naturiol Cymru ynghylch safon ffoffad newydd ar gyfer Ardaloedd Cadwraeth Arbennig afonol newydd yng Nghymru yng nghyswllt datblygiadau tai newydd. 	<p>Modern (DAM) yn parhau i fod yn opsiwn ymarferol i'w ystyried wrth wneud hyn.</p> <p>Pwyntiau Gweithredu? Roedd y pwyntiau gweithredu a nodwyd yn 2019 yn eang eu cwmpas ac fel y cyfryw maent yn parhau i fod yn briodol i gefnogi'r ymyriad eang, yn enwedig dros y tymor canolig. O ganlyniad, nid oes unrhyw bwyntiau gweithredu pellach wedi'u nodi.</p>	
ES1, KS1, KS3, CS15	Y Sector Mordeithiau a Thwristiaeth: Archwilio ac adolygu addasrwydd Abergwaun neu Aberdaugleddau ar gyfer economi'r sector mordeithiau.	<ul style="list-style-type: none"> Adolygu'r galw a ragwelir o fewn yr Ardal Fwy na Lleol o fewn y sector mordeithio. Adolygu addasrwydd Harbwr Aberdaugleddau ac Abergwaun i dderbyn symudiadau o'r sector mordeithio a defnyddiau ochr porthladd. 	<ol style="list-style-type: none"> Fel yr adroddwyd yn astudiaeth 2019, roedd Harbwr Abergwaun wedi dod yn gyrchfan boblogaidd i longau mordaith, sydd wedi dioddef o ganlyniad i'r pandemig Covid-19. Nid yw'r goblygiadau hirdymor posibl wedi'u gwireddu eto. Dengys adolygiadau cychwynnol o Gytundeb Masnach y DU a'r UE y bydd gan longau fynediad i borthladdoedd, seilwaith porthladdoedd a chyfleusterau tollau ei gilydd ar delerau nad ydynt yn llai ffaithiol na'r rheiny sy'n gymwys i'w llongau eu hunain. Mae CDLI Sir Benfro 2 paragraff 3.8 yn amlinellu sut y bydd y CDLI yn sicrhau, trwy gyfrwng dyraniadau penodol o dir a dulliau polisi amrywiol, bod cyfleoedd i gefnogi twf economaidd yn cael eu nodi, a hynny gan sicrhau hyblygrwydd er mwyn gallu ymateb i amgylchiadau economaidd. Un ystyriaeth allweddol i Sir Benfro yn benodol yw tir rheoli ffiniau o ystyried y cysylltiadau ag Iwerddon o ddau borthladd y Sir (Abergwaun ac Aberdaugleddau). Mae Adroddiad Cabinet Cyngor Sir Penfro a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2020 mewn perthynas â bod yn barod am Brexit yn cadarnhau bod trafodaethau'n parhau gydag adrannau perthnasol y Llywodraeth (Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi, DEFRA), Llywodraeth Cymru, Awdurdod Porthladd Aberdaugleddau, Stena a'r Cyngor mewn perthynas â rheoli gwiriadau ar ffin Sir Benfro. 	<p>A yw'r ymyriad eang a'r camau gweithredu cysylltiedig yn parhau i fod yn berthnasol yn 2020/21? O ganlyniad i'r pandemig Covid-19, mae'r sector mordeithiau wedi profi effeithiau negyddol sylweddol, yn enwedig o gofio bod llongau mordeithiau wedi'u nodi'n gynnar yn y pandemig fel rhai sy'n agored i ledaeniad y feirws a rhybudd y Llywodraeth yn erbyn mynd ar unrhyw fordeithiau⁴⁵. O ganlyniad, deellir na fu unrhyw symudiadau mordeithio o fewn Ardal Astudiaeth y Ddwy Sir drwy gydol 2020.</p> <p>Mae hyn, ynghyd â'r angen posibl am dir ar ochr y Porthladd o ganlyniad i ofynion rheoli ffiniau, yn golygu bod perthnasedd yr ymyriad eang a'r pwyntiau gweithredu wedi newid ac o bosibl wedi lleihau yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.</p> <p>Graddfa'r Newid? Fel y nodwyd uchod, mae'r newid o fewn y sector mordeithio yn ei gyfanrwydd dros y flwyddyn ddiwethaf wedi bod yn fawr ac o ganlyniad ystyrir ar hyn o bryd y gallai fod yna lefel uchel o risg ynghlwm wrth wireddu'r ymyriad eang fel y'i nodwyd yn flaenorol. Dylid adolygu hyn yn barhaus wrth i'r economi a'r gymdeithas wella yn sgil y pandemig, ac mae'r sector mordeithio yn cyflwyno mesurau newydd i ailadeiladu ymddiriedaeth (gan gynnwys olrhain digidol a llai o gapasiti cyffredinol).</p> <p>Pwyntiau Gweithredu? Ni roddwyd ystyriaeth i unrhyw bwyntiau gweithredu pellach oherwydd lefel y dirywiad a'r ansicrwydd sy'n gysylltiedig â'r sector mordeithio, yn enwedig dros y tymor byr/canolig. Argymhellir bod ymyriadau eraill yn cael eu blaenoriaethu ar hyn o bryd.</p> <p>Mewn perthynas â rhai o'r Safleoedd Porth 'Mwy na Lleol' a nodwyd yn Astudiaeth 2019, mae'n rhy fuan i ddeall y galw am y rhain yn y tymor hwy. Argymhellir ar hyn o bryd bod Safleoedd Porth 'Mwy na Lleol' yn cael eu cadw nes bod tystiolaeth bellach o effeithiau hirdymor Cytundeb Masnach yr UE-DU a'r angen am le i reoli ffiniau yn cael ei bennu (gweler INV4), ac effeithiau Covid-19 ar y sector mordeithio, yn dod yn glir.</p>	- / ?
KS1	Taro cydbwysedd o ran twristiaeth: Er bod y twf mewn lletygarwch ac yn niferoedd yr ymwelwyr sy'n gysylltiedig â digwyddiadau chwaraeon	<ul style="list-style-type: none"> Cynnydd tuag at raglen dymhorol o ddigwyddiadau, gan gynnwys y 'tymhorau ymylol' yn enwedig, 	<ol style="list-style-type: none"> Mae dadansoddiad o'r dystiolaeth anecdotaidd a ddarparwyd gan Croeso Cymru yn awgrymu bod 2020 wedi bod yn flwyddyn gythryblus i'r sector twristiaeth a busnesau cysylltiedig. Gallai effaith Covid-19 ar dwristiaeth hefyd effeithio'n anghymesur ar aneddiadau allweddol penodol yn ardal y Ddwy Sir sy'n dibynnu i raddau mwy ar yr economi 	<p>A yw'r ymyriad eang a'r camau gweithredu cysylltiedig yn parhau i fod yn berthnasol yn 2020/21? Ystyrir bod yr ymyriad eang a'r is-gamau gweithredu yn parhau i fod yn berthnasol yn y tymor canolig. Er y gall y sector twristiaeth barhau i wynebu heriau yn y tymor byr, fel y dangosir yn</p>	+ / ?

⁴⁵ Llywodraeth y DU (2020) <https://www.gov.uk/guidance/cruise-ship-travel>

Sbardunau	Ymyriadau Eang (2019)	Is-gamau gweithredu posibl / Allbynnau ar safle (2019)	Diweddariad Sylfaenol 2020/21 (Crynhoi data sylfaenol, ymgysylltu, adolygiad llenyddiaeth)	Goblygiadau Posibl (Yn amodol ar adolygiad parhaus)	Sgôr Risg
	(fel Ironman Cymru) yn rhywbeth i'w groesawu, cyfeiriodd rhanddeiliaid at effaith y cynnydd yn nifer yr ymwelwyr ar seilwaith.	<p>fel bo modd cynllunio'n well a rheoli'r risg bydd gormod o bobl yn heidio i'r un lle.</p> <ul style="list-style-type: none"> Parhau i weithio er mwyn lliniaru'r pwysau ar dwristiaeth mewn prif gyrchfannau (ee. Martin's Haven) ac ystyried sut y gellid rheoli problemau mewn modd arloesol (ee. prosiectau enghreifftiol). 	<p>ymwelwyr e.e. Abergwaun a Dinbych-y-pysgod; er nad yw'r effeithiau tymor canolig a hirdymor yn hysbys hyd yma.</p> <ol style="list-style-type: none"> Awgrymai tystiolaeth anecdotaidd o'r gwaith ymgysylltu penodol a wnaed â rhanddeiliaid bod cynnydd wedi bod mewn 'gwyliu gartref' dros yr haf h.y. twristiaeth ddomestig, ond bod y galw hwn yn tueddu i fod ar ffurf hunanarlwyo / hunangynhaliol ac nad oedd o reidrwydd yn arwain at lefelau uwch o wariant ymwelwyr. Efallai fod hyn yn amlygu gwendidau yn yr economi ymwelwyr, y gellir eu hadlewyrchu yn Niweddariad 2020-21. Ymhlith rhanddeiliaid roedd gwahanol safbwyntiau ynghylch a oedd y cynnydd hwn a welwyd mewn twristiaeth ddomestig yn haf 2020 yn duedd 'untro' neu'n un a allai gael ei gweld o flwyddyn i flwyddyn, yn enwedig gan y gallai'r risg o ddal yr haint Covid-19 berswadio twristiaid i beidio â theithio dramor. Mae'r effaith ar dwristiaeth yn sgil y cytundeb Brexit a theithio heb Visa ar draws cyfandir Ewrop ar gyfer twristiaid y DU am 90 diwrnod⁴⁶ yn dal i fod yn anhysbys. Mae Arolygon Croeso Cymru yn awgrymu, hyd yn oed gyda theithio domestig, fod busnesau twristiaeth yn dal i gael anhawster cadw staff a gwneud elw cyson ym mis Awst 2020 o gymharu â thymhorau rheolaidd, gyda 78% o'r rheiny sy'n gweithio mewn gwasanaethau llety a bwyd yn ôl y sôn ar ffyrlo yn ystod Haf 2020. Mae data a ragwelir gan Experian yn awgrymu y bydd y diwydiant llety, gwasanaethau bwyd a hamdden yn profi adfywiad yn nhermau nifer y swyddi dros y tymor byr i'r tymor canolig, gan wella uwchlaw'r lefelau cyn y pandemig yn y tymor hwy. Mae data anecdotaidd hefyd yn awgrymu, wrth i nifer yr ymwelwyr gynyddu yn ystod haf 2020, fod yna densiwn rhwng twristiaid ac ymwelwyr lleol a oedd yn cael ei ddwsáu gan ystyriaethau iechyd y cyhoedd. Mae hyn yn enwedig o ystyried yr effaith hirdymor y gallai'r pandemig ei chael ar ganfyddiad ac ymddygiad y cyhoedd. Fel yr adroddwyd gan KMPG, mae Covid-19 yn debygol o gael effaith hirdymor ar ymddygiad dynol a bydd hyn o ganlyniad yn effeithio ar y modd y mae amgylcheddau'n addasu i ymateb i'r newidiadau hyn⁴⁷ Mae Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru (2021 – 2026), a gyhoeddwyd yn 2021, yn ceisio bwrw ymlaen tuag at filiwn o siaradwyr Cymraeg, a galluogi ein diwydiannau twristiaeth, chwaraeon a'r celfyddydau i ffynnu. Mae hyn yn cynnwys ymgynghori ar ddeddfwriaeth sy'n caniatáu i Awdurdodau Cynllunio Lleol godi ardoll dwristiaeth 	<p>rhagolygon Experian, rhagwelir y bydd yna adfywiad cryf ac mae'n parhau i fod yn sector allweddol ar gyfer Ardal y Ddwy Sir.</p> <p>Yng ngoleuni hyn, mae'r angen i sicrhau 'cydbwysedd twristiaeth' yn Ardal yr Astudiaeth yn debygol o ddod yn bwysicach. Efallai fod y pandemig wedi tynnu sylw pellach at yr angen i ystyried y cydbwysedd rhwng denu twristiaid a chefnogi'r economi leol; dylai'r cynghorau sir ystyried y synergeddau rhwng gwella seilwaith cymdeithasol ac 'atynfa ffordd o fyw' yr ardal (a drafodir ymhellach yn nes ymlaen yn yr asesiad hwn) yng ngoleuni'r cynnydd mewn gweithio gartref a gwella profiad ymwelwyr. Yn ogystal, dylid rhoi sylw i effaith twristiaeth ar y Gymraeg fel y nodwyd gan Iaith/BURUM.</p> <p>Adlewyrchir hyn yn Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru (2021 - 2026), sy'n datgan y nodau o ymdrechu tuag at filiwn o siaradwyr Cymraeg ac ymgynghori ar ddeddfwriaeth sy'n caniatáu i Awdurdodau Cynllunio Lleol godi ardoll dwristiaeth.</p> <p>Graddfa'r newid? Mae'r newid yn y sector twristiaeth wedi bod yn sylweddol o ganlyniad i'r pandemig Covid-19. Fodd bynnag, mae data anecdotaidd yn awgrymu bod tymor yr haf wedi aros yn gryf ar gyfer Ardal y Ddwy Sir gyda nifer fawr o ymwelwyr domestig yn dychwelyd i'r ardal unwaith y llaciodd y cyfyngiadau. Yn ogystal, mae prosiectau allweddol sy'n gysylltiedig â thwristiaeth, megis Prosiect Denu Twristiaid Pentywyn, yn parhau i gael eu hadeiladu, sy'n creu ymdeimlad o sicrwydd o fewn y sector ar draws y rhanbarth.</p> <p>Pwntiau gweithredu? Argymhellir yr is-gamau gweithredu pellach canlynol i ategu'r ymyriad eang hwn:</p> <ul style="list-style-type: none"> Gwneud gwaith pellach i ddeall y capasiti a'r galw am ymwelwyr yn ardal y Ddwy Sir, gan gynnwys, er enghraifft, asesiadau llety i ymwelwyr ac arolygon gwariant. Gellir defnyddio hyn i ddeall ble mae'r bylchau, naill ai mewn seilwaith neu ddarpariaeth, er mwyn gwneud y mwyaf o werth y gwariant ar dwristiaeth yn yr economi leol. Dylai'r astudiaeth hon hefyd olrhain cynnydd yr ymgynghoriad ar yr Ardoll Dwristiaeth arfaethedig, ac ystyried effeithiau hyn ar ardal y ddwy sir. Ystyried ffyrdd parhaus y gall ardal y ddwy sir hyrwyddo twristiaeth ddomestig ymhellach er mwyn manteisio i'r eithaf ar unrhyw gyfleoedd sy'n deillio o'r pandemig Covid-19 neu ansicrwydd ynghylch 'Brexit'. 	
ES1, KS3, CSIS	Adnoddau Naturiol a Chynhyrchu Ynni: Mae'r adnodd naturiol yn yr ardal 'Mwy na Lleol' yn agwedd allweddol ar y gyrchfan, gan ddenu twristiaid a'r rhai sy'n adleoli i'r ardal i fwynhau ansawdd yr amgylchedd. Gyda thystiolaeth o gwmnïau sy'n llwyddo eisoes, mae'r	<ul style="list-style-type: none"> Adolygu llwyddiannau mentrau presennol o ran cefnogi gwaith cynhyrchu ynni (h.y. Ardal Fenter Dyfrffordd y Daugleddau neu fentrau Rhyngwrwyd 	<ol style="list-style-type: none"> Ym mis Mehefin 2020, cymeradwyodd Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru yr achos busnes ar gyfer prosiect Ardal Forol Doc Penfro;⁴⁸ sy'n cael ei arwain gan y sector preifat gyda chymorth Cyngor Sir Penfro a disgwylir iddo gynhyrchu mwy na 1,800 o swyddi yn y 15 mlynedd nesaf. Yn 2020 lanswyd Teyrnas Ynni Aberdaugleddau (MH:EK). Mae Teyrnas Ynni Aberdaugleddau yn brosiect dwy flynedd gwerth £4.5 miliwn i archwilio sut y gallai system ynni lleol glyfar wedi'i datgarboneiddio edrych ar gyfer Aberdaugleddau, Penfro a Doc Penfro. 	<p>A yw'r ymyriad eang a'r camau gweithredu cysylltiedig yn parhau i fod yn berthnasol yn 2020/21? Wrth ystyried yr adolygiad o'r data sylfaenol a'r adborth gan rhanddeiliaid, ystyrir bod yr ymyriad eang a'r is-gamau gweithredu yn parhau i fod yn berthnasol iawn yn 2020/21.</p> <p>Graddfa'r Newid? Ystyrir bod y sector ynni adnewyddadwy yn arbennig wedi profi lefel gadarnhaol o newid dros y flwyddyn ddiwethaf o ganlyniad i gryfhau polisi cenedlaethol a datblygiad prosiectau allweddol fel Ardal Forol Doc Penfro, prosiect Bargen Ddinesig Bae Abertawe a phrosiectau a gychwynnwyd gan gwmnïau megis Bombora a Blue Gem Wind.</p> <p>Camau Gweithredu?</p>	++

⁴⁶ Llywodraeth y DU (2020) <https://www.gov.uk/visit-europe-1-january-2021> [cyrchwyd ar: 07.01.2021]

⁴⁷ KMPG (2020) <https://home.kpmg/xx/en/home/insights/2020/06/uncovering-and-mitigating-risks-facing-cities-as-a-result-of-covid-19.html> [cyrchwyd ar: 06.01.2021]

⁴⁸ <https://www.swanseabaycitydeal.wales/news/green-light-for-60-million-pembrokeshire-marine-energy-project/> [cyrchwyd ar: 06.01.2021]

Sbardunau	Ymyriadau Eang (2019)	Is-gamau gweithredu posibl / Allbynnau ar safle (2019)	Diweddariad Sylfaenol 2020/21 (Crynoi data sylfaenol, ymgysylltu, adolygiad llenyddiaeth)	Goblygiadau Posibl (Yn amodol ar adolygiad parhaus)	Sgôr Risg
	adnodd hwn hefyd yn cynnig potensial gwych i gynhyrchu ynni - gan gynnwys ynni morol ac ynni ar y tir. Ar y cyd â thanwydd carbon isel (megis hydrogen), dylid defnyddio hyn i gyfrannu at yr agenda datgarboneiddio ehangach.	<p>Ynni y Fargen Ddinesig).</p> <ul style="list-style-type: none"> Adolygu cyfleoedd i ddatblygu ynni adnewyddadwy priodol ar draws yr Ardal Fwy na Lleol (e.e. ynni'r haul neu ynni'r gwynt ar y tir), fel y nodwyd yn y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol. Ystyried ymgysylltu'n uniongyrchol â busnesau er mwyn deall ffactorau sy'n atal datblygiad egin-brosiectau ymchwil ymhellach o fewn yr Ardal 'Fwy na Lleol'. Ystyried lobïo llywodraeth ganolog er mwyn cael cefnogaeth ar gyfer ymchwil ynni morol a chyfleoedd ehangach a allai ddod i'r amlwg. 	<p>Mae'n cael ei arwain gan Gyngor Sir Penfro mewn partneriaeth â nifer o sefydliadau eraill gan gynnwys Awdurdod Porthladd Aberdaugleddau.</p> <ol style="list-style-type: none"> Mae Cymru'r Dyfodol: Cynllun Cenedlaethol 2040 yn cryfhau sefyllfa polisi cenedlaethol Dyfrffordd y Daugleddau. Mae Polisi 32 yn nodi'n benodol, 'Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi gweithrediadau yn Nyfrffordd y Daugleddau, ac yn cydnabod ei lleoliad ar gyfer datblygu, arloesi a buddsoddi newydd posibl sy'n gysylltiedig ag ynni adnewyddadwy a charbon isel'. Ers astudiaeth 2019, mae cynllun Cymru'r Dyfodol wedi dileu ardaloedd blaenoriaeth ar gyfer ynni'r haul ledled y wlad, ond caiff yr 'ardaloedd a aseswyd ymlaen llaw ar gyfer gwynt' (sy'n cynnwys rhan helaeth o Sir Gaerfyrddin) eu cadw. Ar lefel Llywodraeth y DU, mae cyhoeddi'r Strategaeth Seilwaith Genedlaethol yn rhoi ymdeimlad o hyder a sicrwydd o'r newydd wrth gyflawni prosiectau ar raddfa fawr. Yn ogystal, rhyddhawyd y Cynllun Deg Pwynt ar gyfer Chwyldro Diwydiannol Gwyrdd gan Lywodraeth y DU ym mis Tachwedd 2020, sy'n nodi camau clir i gyflymu'r llwybr at gyrraedd targedau sero-net. Bydd nifer o'r uchelgeisiau o fewn y Cynllun 10 Pwynt yn arbennig o berthnasol i Ardal y Ddwy Sir. Roedd yr adborth gan randdeiliaid yn tynnu sylw at ymdeimlad gwirioneddol o optimistaeth gyda golwg ar y sector ynni. Ceir cyfleoedd ar safleoedd (a nodir yn Atodiad C adroddiad 2019) sy'n parhau i fod ar gyfer datblygu ynni ar safleoedd strategol a nodwyd yn flaenorol (e.e. y rheiny sydd wedi'u lleoli o amgylch Dyfrffordd y Daugleddau) ac ar safleoedd eraill. Gallai safleoedd ychwanegol sydd yn bennaf at ddibenion heblaw cyflogaeth, megis Safle Rheoli Gwastraff Nant-y-caws yn Sir Gaerfyrddin, hefyd gynnig cyfleoedd i gefnogi'r sector ynni yn y dyfodol; er enghraifft, o bosibl defnyddio ynni o wastraff. Mae cydweithrediad ynni yn rhan o Gytundeb Masnach a Chydweithredu cyffredinol y DU a'r UE. Bydd y DU yn parhau i gael mynediad i farchnad ynni fewnol yr UE a bydd ganddi tan 2022 i benderfynu sut i wneud y defnydd gorau posibl o ryng-gysylltwyr. Mae Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru (2021 – 2026) yn ceisio gwneud y cynnydd mwyaf tuag at ddatgarboneiddio, sy'n cynnwys lansio Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru newydd 10 mlynedd o hyd. Mae'r Rhaglen hefyd yn cydnabod rôl diwydiant coed cynaliadwy wrth ymateb i'r hinsawdd ac argyfyngau naturiol, a'r angen i fuddsoddi yn niwydiannau gwyrdd cynaliadwy yfory. 	<ul style="list-style-type: none"> Cynnal adolygiad penodol o'r uchelgeisiau o fewn y Cynllun Deg Pwynt a Chynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru sy'n dod i'r amlwg ar y cyd â busnesau allweddol yn yr ardal, er mwyn deall y ffordd orau o gysoni darpariaethau o fewn y Cynllun a pha gymorth y gallai fod ei angen. Parhau i adolygu'r cyfleoedd presennol ar safleoedd strategol (a nodir yn Atodiad C yn adroddiad 2019) i ddeall sut y gall y cyflenwad barhau i gefnogi'r galw sy'n dod i'r amlwg yn y sector hwn (h.y. prosiectau sy'n dod i'r amlwg yn yr ardal – megis Teyrnas Ynni Aberdaugleddau ac eraill). Cynnal adolygiad o brosiectau posibl a'u gofynion seilwaith o gymharu â'r capasiti seilwaith presennol. Bydd hyn yn galluogi buddsoddiad cynnar yn y seilwaith sydd ei angen i gefnogi twf yn y dyfodol. 	
ES1, ES3	Cefnogaeth barhaus i ddatblygu'r sector gwyddorau iechyd: Roedd rhanddeiliaid o'r farn fod mentrau diweddar wedi galluogi twf yn y maes hwn, a chanfyddiad o hyder yn y farchnad o ran datblygu a gweithgynhyrchu cynnyrch gwyddor bywyd. Gallai gwaith datblygu busnes barhau i gefnogi	<ul style="list-style-type: none"> Sicrhau bod busnesau perthnasol yn cael eu cefnogi a'u cysoni â phrosiectau a mentrau sy'n bodoli eisoes. Cynnal momentwm yn gysylltiedig â'r sector hwn, o gofio'r pwyslais drwy'r Fargen Ddinesig. 	<ol style="list-style-type: none"> Ym mis Tachwedd 2020, cymeradwywyd yr achos busnes dros gynllun Pentref Gwyddor Bywyd a Llesiant Llanelli a elwir yn 'Pentre Awel'⁴⁹ gan Gyd-bwyllgor Bargaen Ddinesig Bae Abertawe, yn dilyn cymeradwyaeth gan Fwrdd Gweithredol Cyngor Sir Caerfyrddin a'i gymeradwyo yn y Cyngor Llawn. Bydd y prosiect yn awr yn cael ei gyflwyno i Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru i'w gymeradwyo'n derfynol. Y neges a gafwyd gan randdeiliaid oedd bod gwyddorau bywyd yn dal i fod yn faes sy'n tyfu o fewn economi'r ddwy sir, yn enwedig o ganlyniad i Bentre Awel. Cafwyd tystiolaeth o weithgarwch newydd yn y sector hwn ers cyhoeddi astudiaeth 2019 ar ffurf datblygiadau ar raddfa lai yn cael eu cyflwyno, yn gysylltiedig â byw'n gynaliadwy ac ati. 	<u>A yw'r ymyriad eang a'r camau gweithredu cysylltiedig yn parhau i fod yn berthnasol yn 2020/21?</u> Drwy gyfrwng asesiad o'r adolygiad data sylfaenol a'r adborth penodol gan randdeiliaid, daethpwyd i'r casgliad bod yr ymyriad eang a'r is-gamau gweithredu yn parhau i fod yn berthnasol yn 2020. Mae yna ymdeimlad o sicrwydd a hyder o hyd o fewn y sector gwyddorau bywyd ar draws Ardal yr Astudiaeth, yn enwedig o ganlyniad i gynydd parhaus prosiectau allweddol megis Pentre Awel. <u>Graddfa'r newid?</u> Er bod graddfa'r newid yn isel, ystyrir ei fod yn newid cadarnhaol a ddangosir gan barhad prosiectau allweddol (fel y disgrifir uchod) ac adferiad cryf yn y sector yn y tymor byr i ganolig a ddangosir trwy gyfrwng rhagolygon.	+

⁴⁹ <https://www.bargenddinesigbaeabertawe.cymru/newyddion/cam-mawr-ymlaen-i-brosiect-llanelli-gwerth-miliynau-o-bunnau/>

Sbardunau	Ymyriadau Eang (2019)	Is-gamau gweithredu posibl / Allbynnau ar safle (2019)	Diweddariad Sylfaenol 2020/21 (Crynoi data sylfaenol, ymgysylltu, adolygiad llenyddiaeth)	Goblygiadau Posibl (Yn amodol ar adolygiad parhaus)	Sgôr Risg
	cwmnïau a thwf o fewn y maes hwn.			<p>Pwntiau gweithredu? Mae'r is-gamau gweithredu a nodwyd yn 2019 yn eang eu ffocws ac felly ystyrir eu bod yn ddigonol i'w cadw fel y'u cyflwynwyd yn yr astudiaeth flaenorol.</p> <p>Un cam ychwanegol fydd parhau i ddeall a monitro effaith Cytundeb Masnach yr UE-DU (yn enwedig effeithiau'r Rheol Tarddiad a symudedd gweithwyr proffesiynol yn y sector gwasanaethau) ar fusnesau y bwriedir eu lleoli yn ardal Pentre Awel, a pharhau i gysylltu â nhw i ddeall pa gymorth a allai fod yn angenrheidiol wrth symud ymlaen.</p>	
KS6	<p>Cymorth i ddiwydiannau creadigol: Gallai awdurdodau barhau i gefnogi'r sector hwn, o gofio bod yna gefnogaeth ranbarthol barhaus i ddiwydiannau creadigol trwy gyfrwng y Fargen Ddinesig, a'r canfyddiad o alw parhaus gan fusnesau creadigol bach a chanolig eu maint ar gyfer unedau llai.</p>	<ul style="list-style-type: none"> Sicrhau bod busnesau perthnasol yn cael eu cefnogi a'u halinio â phrosiectau a mentrau sy'n bodoli eisoes. Cynnal momentwm mewn perthynas â'r sector hwn, o gofio pwyslais y Fargen Ddinesig. 	<ol style="list-style-type: none"> Mae cyfleoedd yn parhau i gael eu cyflwyno'n gyffredinol gan fuddsoddiad lleol yn y sector hwn a chaiff hyn ei danategu gan ddatblygiad Yr Egin yn Sir Gaerfyrddin, sy'n meithrin talent leol. Cyfleoedd ariannu newydd o'r 'Gronfa Trawsnewid Trefi' i gefnogi seilwaith digidol. Gallai diwydiannau digidol helpu sectorau eraill i addasu i ffyrdd newydd o weithio megis platfformau rhithwir e.e. ar gyfer adwerthu a bwyd Roedd adroddiad dadansoddi sgiliau Cyngor Sir Penfro, fel y'i cyflwynwyd yn y data sylfaenol, yn nodi'r angen am wella sgiliau digidol a TGCh ar draws sectorau. Mae Strategaeth Seilwaith Llywodraeth y DU (Tachwedd 2020) yn nodi uchelgeisiau ledled y DU ar gyfer band eang gigabit, ac ym mis Gorffennaf 2020 cyhoeddodd Lee Waters AS y byddai'r cynllun yn cael ei ymestyn i gyrraedd 39,000 o eiddo eraill ledled Cymru, gan ganolbwyntio'n benodol ar ardaloedd awdurdodau lleol sydd â llai na 90% o ddarpariaeth band eang cyflym iawn. Mae Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru (2021-2026) hefyd yn cynnig Strategaeth Ddigidol i Gymru. 	<p>A yw'r ymyriad eang a'r camau gweithredu cysylltiedig yn parhau i fod yn berthnasol yn 2020/21? Mae'r egwyddor o ddarparu cymorth i'r sector diwydiannau creadigol yn parhau i fod yn berthnasol yn 2020/21, yn enwedig o ystyried y seilwaith presennol yn rhanbarth y ddwy sir, sef Yr Egin.</p> <p>Graddfa'r Newid? Mae'r sector diwydiannau creadigol yn genedlaethol wedi profi aflonyddwch a dirywiad o ganlyniad i'r pandemig Covid-19 a gall barhau i brofi rhai heriau mewn perthynas â goblygiadau Cytundeb Masnach yr UE-DU. Adlewyrchir hyn i ryw raddau o fewn rhagolygon Experian y sector eang 'Gwybodaeth a Chyfathrebu' ar gyfer 2021, ond yn llai felly o fewn y sector eang Proffesiynol a Gwasanaethau Preifat eraill.</p> <p>Er gwaethaf hyn, mae data anecdotaidd gan randdeiliaid yn awgrymu bod gweithwyr ar 'ffyrlo' ac ar gyfnodau o gyfyngiadau symud wedi caniatáu amser i bobl fynd ar ôl hobiau a sgiliau creadigol newydd. Mae hyn wedi ysgogi ymdeimlad o dwf mewn entrepreneuriaeth leol a busnesau bach newydd yn y diwydiannau creadigol. Nododd Cyngor Sir Caerfyrddin yn benodol eu hawydd i gefnogi busnesau bach a chanolig trwy adferiad, gan greu ymdeimlad o bositifrydd yn gysylltiedig ag adfer y sector diwydiannau creadigol, wedi'i angori gan asedau sirol allweddol megis Yr Egin.</p> <p>Pwntiau Gweithredu Ychwanegol? Yn ogystal â'r is-gamau gweithredu yn astudiaeth 2019, nodir y pwntiau gweithredu ychwanegol canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> Parhau i adolygu datblygiad Busnesau Bach a Chanolig a deall y parodrwydd parhaus i ymuno â'r sector. O bosibl, ystyried synergeddau ar gyfer nodi manau ar gyfer busnesau bach a chanolig newydd drwy ffynonellau ariannu sy'n bodoli eisoes (h.y. manau ar gyfer Busnesau Bach a Chanolig / meithrin busnesau / rhentu o fewn y Cyllid Trawsnewid Trefi). Gallai hyn hefyd gynnig lle i bobl leol 'weithio gartref'. Parhau i lobio am ymestyn y ddarpariaeth band eang cyflym iawn i ardaloedd sydd â lefelau isel o ddarpariaeth ar hyn o bryd. 	+ / ?

INV2: Ymateb i alw o fewn sectorau a chefnogi cwmnïau brodorol

INV2 Archwilio opsiynau i ymateb i alw sectoraidd a chefnogi cwmnïau brodorol drwy gynyddu hyblygrwydd wrth gynllunio: Sicrhau bod y system gynllunio yn gallu ymateb ynghynt i ymholiadau strategol a galw o du'r farchnad (MS4), archwilio cyfleoedd i gynyddu hyblygrwydd o ran cynllunio drwy symleiddio ardaloedd cynllunio neu friffiau datblygu rhagweithiol, a thrwy gefnogi cynlluniau adeiladu tybiannol sy'n galluogi trosiant o fewn y stoc graddfa lai. Gallai hyn nid yn unig gefnogi cwmnïau brodorol presennol, ond datblygu'n fwyfwy pwysig os bydd Brexit yn golygu newid i gyflymder ymateb angenrheidiol y farchnad.

Tabl 5 Ymateb i alw o fewn sectorau a chefnogi cwmnïau brodorol

Sbardunau	Ymyriadau Eang (2019)	Is-gamau gweithredu posibl / Allbynnau ar safle (2019)	Diweddariad Sylfaenol 2020 (Crynoi data sylfaenol, ymgysylltu, adolygiad llenyddiaeth)	Goblygiadau Posibl (Yn amodol ar adolygiad parhaus)	Sgôr Risg
MS4	Cyfyngu ar gyfleoedd 'a gollir': Roedd rhanddeiliaid	<ul style="list-style-type: none"> Wrth gydnabod gofynion rhai cyflogwyr allweddol yn yr ardal ac 	<ol style="list-style-type: none"> Mae Cynllun Adneuo Cyngor Sir Caerfyrddin CDL12 yn ceisio darparu fframwaith cadarnhaol ar gyfer creu 	<p>A yw'r ymyriad eang a'r camau gweithredu cysylltiedig yn parhau i fod yn berthnasol yn 2020/21? Mae gwybodaeth a gafwyd o'r</p>	++

Sbarduna	Ymyriadau Eang (2019)	Is-gamau gweithredu posibl / Allbynnau ar safle (2019)	Diweddariad Sylfaenol 2020 (Crynhoi data sylfaenol, ymgysylltu, adolygiad llenyddiaeth)	Goblygiadau Posibl (Yn amodol ar adolygiad parhaus)	Sgôr Risg
	o'r farn bod yna risg o golli naill ai cyfleoedd neu ymholiadau o fewn y farchnad am ei bod hi'n cymryd cymaint o amser i sicrhau'r caniatâd datblygu angenrheidiol. Gallai ymyriadau gynnwys gwneud ymchwil pellach i'r defnydd o fesurau cynllunio wedi'u symleiddio, neu bolisi cynllunio hyblyg fel bod modd i'r farchnad ymateb yn gyflym i amgylchiadau sy'n newid ac i'r ansicrwydd macro-economaidd.	<p>mewn ymdrech i gynyddu apêl safleoedd fel manau i fuddsoddi ynddynt, dylid cyflawni gwaith / dadansoddiadau pellach yn gysylltiedig â rôl bosibl Gorchymnion Datblygu Lleol mewn lleoliadau lle gwyddys beth fydd defnydd terfynol y safle (e.e. parc bwyd).</p> <ul style="list-style-type: none"> Lle mae'r defnydd terfynol wedi'i ddiffinio'n llai manwl, gellid ystyried ymyriadau eraill a allai gefnogi defnyddwyr terfynol a symleiddio'r broses ddarparu (e.e. Briffiau Datblygu / Cynlluniau Gweithredu Ardal / Canllawiau Cynllunio Atodol). Gallai'r holl awdurdodau 'Mwy na Lleol' gynnwys polisiâu sy'n ddigon hyblyg i gefnogi safleoedd strategol presennol, ac i gefnogi tir cyflogaeth strategol newydd sy'n dod yn ei flaen, os ystyrir bod cefnogi rhaglen neu fuddsoddwr posibl drwy fodloni gofynion penodol ar safle yn gam tyngedfennol. Drwy hyn gellid sicrhau na chaiff potensial yn y dyfodol ei atal, a chaniatáu i safleoedd priodol / cynaliadwy ddod yn eu blaenau os cyfyd galw i fuddsoddi ynddynt. 	<p>sylfaen economaidd well gyda chyfleoedd priodol ar gyfer cyflogaeth a thwf masnachol ac mae wedi ymrwymo i ddefnyddio dulliau cadarnhaol megis Gorchymnion Datblygu Lleol i hwyluso a galluogi cyfleoedd adfywio a datblygu economaidd.</p> <ol style="list-style-type: none"> Ym mis Tachwedd 2020, cyhoeddwyd bod Bwrdd Gweithredol Cyngor Sir Caerfyrddin wedi rhoi ei gymeradwyaeth i weithredu Gorchymyn Datblygu Lleol ar gyfer Canol Trefi Caerfyrddin a Rhydaman, ac yn Nwyrain Cross Hands. Roedd yr adborth gan randdeiliaid Cyngor Sir Penfro yn nodi bod cyfleoedd posibl am Orchymnion Datblygu Lleol yn cael eu hystyried yn y Sir. Mae cynllun 'Adeiladu Lleoedd Gwell' Llywodraeth Cymru, sy'n gynllun adfer yn sgil Covid-19 a gaiff ei arwain gan Greu Lleoedd, yn argymhell defnyddio Gorchymnion Datblygu Lleol. 	<p>adolygiad sylfaenol ac adborth gan randdeiliaid yn awgrymu bod yna awydd o hyd i gyfyngu ar gyfleoedd 'a gollwyd' trwy gyflwyno mesurau cynllunio symlach/polisi cynllunio hyblyg. Cydnabyddir, fodd bynnag, fod hyn yn fwy heriol ar safleoedd dynodedig ac efallai na fydd yn bosibl.</p> <p>Graddfa'r newid? Yn gyffredinol, bu newid cadarnhaol bach mewn perthynas â symleiddio prosesau cynllunio er mwyn cyfyngu ar y cyfleoedd a gollwyd. Mae Gorchymyn Datblygu Lleol wedi'i gymeradwyo dros dro gan y Bwrdd Gweithredol ar gyfer Dwyrain Cross Hands (Tachwedd 2020) yn ogystal â chanol trefi gan gynnwys Caerfyrddin a Rhydaman.</p> <p>Ystyrir bod yna safbwynt polisi cryfach i weithredu gweithdrefn gynllunio symlach (megis Gorchymnion Datblygu Lleol) sydd wedi'u cyhoeddi yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, sef Cynllun Adeiladu Lleoedd Gwell Llywodraeth Cymru, sydd yn gynllun adfer yn sgil Covid-19 a gaiff ei arwain gan Creu Lleoedd. Safleoedd allweddol o fewn y rhanbarth e.e. yr Ardal Fenter, Cross Hands, Maes Awyr Hwlfordd a fyddai'n elwa o ymyriadau tebyg, neu friffiau datblygu penodol neu gynlluniau gweithredu ardal i sicrhau datblygiad cynhwysfawr.</p> <p>Pwyntiau Gweithredu? Ystyrir bod y pwyntiau gweithredu a nodwyd yn astudiaeth 2019 yn parhau i fod yn briodol i'r ymyriad eang flwyddyn yn ddiweddarach, ac y gellid dadlau eu bod wedi cynyddu mewn pwysigrwydd i ganiatáu i'r farchnad ymateb i'r hinsawdd economaidd a chymdeithasol sy'n newid, ac felly ni nodwyd unrhyw bwyntiau gweithredu pellach.</p>	
MS3, MS5	Mewn trafodaethau â rhanddeiliaid ac asiantau, amlygwyd bod galw cudd am safleoedd ac eiddo llai o ansawdd uchel yn parhau . Er mwyn cefnogi'r galw hwn, gallai ymyriadau gynnwys cefnogi ceisiadau lle gellir dechrau adeiladu ar unwaith neu geisiadau adeiladu parod, er mwyn creu lle ym marchnad eilaidd y stoc masnachol.	<ul style="list-style-type: none"> Ystyried cyfleoedd i weithio gyda Llywodraeth Cymru, Banc Datblygu Cymru a chwmnïau preifat i ddod â safleoedd glân, gwastad, parod i adeiladu arnynt yn eu blaenau i greu lle 'symud ymlaen' o fewn y farchnad eilaidd. Ystyried a allai Sir Benfro a Sir Gaerfyrddin wneud defnydd pellach ac elwa ymhellach ar y Gronfa Datblygu Eiddo, er mwyn dod â safleoedd bach damcaniaethol neu rai parod i adeiladu arnynt yn eu blaenau ar draws y rhanbarth. Byddai hyn yn galluogi cwmnïau sydd am dyfu i symud i le newydd o ansawdd uchel, neu adeiladu eu lle eu hunain, rhyddhau stoc eilaidd y clywir bod galw cudd amdano, a darparu eiddo amgen ar draws yr Ardal 'Fwy na Lleol' a fyddai hefyd yn galluogi twf busnesau a gychwynwyd o fewn y parciau cenedlaethol heb iddynt orfod symud yn rhy bell i ffwrdd. 	<ol style="list-style-type: none"> Mae'r adborth gan randdeiliaid yn awgrymu bod y galw cudd am safleoedd ac adeiladau llai o ansawdd uwch yn dal i fod yn gyffredin. Mae'r Gronfa Seilwaith Eiddo yn cael ei chyfuno â'r Gronfa Eiddo Masnachol, a weinyddir gan y Banc Datblygu. Mae hyn wedi'i dargedu at adeiladau masnachol a diwydiannol hapfasnachol, ac mae ar gael ar gyfer prosiectau preswyl, defnydd cymysg a datblygu masnachol yng Nghymru. Mae Llywodraeth Cymru yn cadw'r Grant Eiddo ar gyfer Datblygu Busnes. Mae'r adborth gan randdeiliaid wedi cadarnhau bod yna ymchwiliadau diweddar wedi bod ar draws y Sir, sydd ar wahanol gamau o gael eu cymeradwyo. Dywed adroddiad SQW Consultants ar farchnad eiddo De-orllewin Cymru – <i>“strong demand for industrial space with very constrained supply in relation to smaller industrial premises; which is reflective of a lack of recent development and widespread viability challenges.”</i> 	<p>A yw'r ymyriad eang a'r camau gweithredu cysylltiedig yn parhau i fod yn berthnasol yn 2020/21? Mae'r ymyriad eang a'r pwyntiau gweithredu yn parhau'n berthnasol wrth ystyried adolygiad sylfaenol 2020. Yn benodol, mae tystiolaeth a gyflwynwyd gan randdeiliaid yn awgrymu bod yna alw cudd cryf o hyd am safleoedd ac adeiladau llai o ansawdd uwch er gwaethaf cefnlen economaidd heriol.</p> <p>Graddfa'r Newid? Mae'r newid yn parhau i fod yn gyfyngedig ers cyhoeddi astudiaeth 2019. Y Banc Datblygu yw'r ffocws o hyd ar gyfer cyfleoedd ariannu a mynediad at fenthyciadau. Un gwahaniaeth allweddol yw bod y Banc Datblygu bellach wedi cymryd cyfrifoldeb am weinyddu'r Gronfa Datblygu Eiddo a grybwyllwyd yn flaenorol, a ddylai symleiddio'r broses ar gyfer defnyddwyr fel 'siop un stop'. Un her allweddol sy'n weddill yw bod cyllid Banc Datblygu yn canolbwyntio ar ddatblygiad hapfasnachol sy'n golygu bod yna rwystrau i fynediad i fuddsoddiad gan berchen-feddianwyr/cwmnïau brodorol.</p> <p>Pwyntiau Gweithredu Ychwanegol? Ochr yn ochr â'r is-gamau gweithredu a nodir yn adolygiad 2019, un pwynt gweithredu ychwanegol yma fyddai 'cyfeirio' at ddarparwyr hapfasnachol a all gael gafael ar gyllid Banc Datblygu (Gweler INV3) ac ystyried y potensial ar gyfer ffurfio partneriaeth.</p>	0 / ?
MS2	Rhagwelir y ceir dirywiad mewn nifer o sectorau allweddol ar draws yr ardal,	<ul style="list-style-type: none"> Ystyried cefnogi twf cyflogwyr a safleoedd strategol presennol, gan 	<ol style="list-style-type: none"> Cyfeiriodd y Banc Datblygu at nifer o brosiectau sydd yn y broses o sicrhau cyllid i symud ymlaen yng Nghyngor Sir Caerfyrddin a Chyngor Sir Penfro. 	<p>A yw'r ymyriad eang a'r camau gweithredu cysylltiedig yn parhau i fod yn berthnasol yn 2020/21? Mae'r diwylliant allgarol sy'n nodweddiadol i ardal y ddwy sir ac ymrwymiad cwmnïau brodorol</p>	0

Sbarduna u	Ymyriadau Eang (2019)	Is-gamau gweithredu posibl / Allbynnau ar safle (2019)	Diweddariad Sylfaenol 2020 (Crynoi data sylfaenol, ymgysylltu, adolygiad llenyddiaeth)	Goblygiadau Posibl (Yn amodol ar adolygiad parhaus)	Sgôr Risg
	<p>ond roedd hyder rhanddeiliaid yn y farchnad yn gryf, ac roedd nifer o fusnesau brodorol yn ystyried ehangu.</p> <p>Dylid cefnogi cynlluniau i ehangu busnesau presennol i safleoedd sydd nesaf atynt neu gyfagos lle bo modd.</p> <p>Er bod nifer o randdeiliaid yn cyfeirio at gysylltiadau lleol hanesyddol â Sir Benfro a Sir Gaerfyrddin, ac at ddiwylliant gwirioneddol o allgaredd o fewn yr ardal, yr oedd canfyddiad bod busnesau newydd yn cael eu ffafrio ar draul twf cwmnïau a oedd yn bodoli eisoes.</p>	<p>gynnwys cadwynau cyflenwi lleol cyfagos.</p> <ul style="list-style-type: none"> Ystyried cydweithio mwy â chyflogwyr er mwyn deall eu hanghenion: a ydynt yn seiliedig ar y safle (e.e. mwy / llai o le), yn seiliedig ar y gweithlu (e.e. sgiliau / argaeledd staff) neu agweddau eraill (e.e. cyllid). 	<ol style="list-style-type: none"> Dyweddodd rhanddeiliaid yn gyffredinol fod gweithio gyda'r sector preifat yn dal i fod yn bwysig iawn, yn enwedig o ystyried yr ansicrwydd yn y farchnad. Roedd rhanddeiliaid yn cydnabod mai prin yw'r cydweithio rhwng y sector cyhoeddus a'r sector preifat o hyd. Ymhellach, mae data anecdotaidd gan randdeiliaid yn awgrymu bod y galw brodorol yno o hyd – yn fwy felly yn achos unedau llai. Ym mis Mehefin 2020, cyhoeddodd Castell Howell eu bod, o ganlyniad uniongyrchol i'r pandemig COVID-19, wedi wynebu gostyngiad o 65% mewn gwerthiant ac o ganlyniad bu'n rhaid iddynt fynd i broses ymgynghori gyda'u staff gyda'r bwriad o wneud nifer nas datgelwyd o ddiswyddiadau. Mae cyllid Banc Datblygu yn parhau i ganolbwyntio ar adeiladau hapfasnachol sy'n golygu y gall fod yn anodd i berchen-feddianwyr gael gafael ar gyllid priodol. Rhaid i nwyddau sy'n cael eu hallforio o'r UE 'gymhwyso' i sicrhau na fydd unrhyw dariffau sy'n berthnasol. Er mwyn 'cymhwyso', fodd bynnag, bydd angen i nwyddau Prydain Fawr fodloni'r safon 'Rheol Tarddiad' a pheidio â mynd y tu hwnt i'r trothwyon diffiniedig ar gyfer deunyddiau nad ydynt o'r DU na'r UE. Mae hyn yn berthnasol i'r gadwyn gyflenwi ar gyfer nwyddau. Nod Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru (2021-2026) yw cefnogi busnesau Cymru i greu swyddi newydd, dod o hyd i farchnadoedd allforio a buddsoddi mewn diwydiannau gwyrdd cynaliadwy. 	<p>mewn sectorau allweddol yn parhau, ac felly mae'r ymyriad eang yn parhau i fod yn berthnasol, yn ogystal â'r pwyntiau gweithredu a'r mentrau ar safle.</p> <p>Graddfa'r Newid? Yn y tymor byr, mae'r sefyllfa'n aros yn ddigymffwrdd i raddau helaeth o linell sylfaen 2019. Mae'r llinell sylfaen yn tynnu sylw at feysydd twf cadarnhaol ar gyfer cwmnïau brodorol yn ogystal â heriau/aflonyddwch a wynebir gan nifer o'r cyflogwyr mwy e.e. Castell Howell a Tata. Fel y cyfryw, mae graddfa gyffredinol y newid yn y tymor hwy yn parhau i fod yn ansicr ar adeg ysgrifennu hwn.</p> <p>Er y gallai fod yna lai o botensial am dwf, mae data Experian yn awgrymu 'adfywiad cryf' yn y sector llety a gwasanaethau bwyd. Gyda golwg ar weithgynhyrchu, rhagwelir y bydd Sir Benfro yn parhau i ostwng, ond ar gyfradd arafach na'r hyn a ragwelwyd yn 2019; tra rhagwelir y bydd Sir Gaerfyrddin yn gwneud adfywiad cryf ac yn ei gynnal ar lefel gyson, disgwylir i hyn fod yn is na'r lefelau cyn y pandemig. Gallai argaeledd cludiant a logisteg i gefnogi gweithgynhyrchu ac allforio fod yn fater tymor byr, sy'n cael ei deimlo'n genedlaethol ledled y DU.</p> <p>Cydnabyddir hefyd bod camau cadarnhaol eisoes yn cael eu cymryd yn y maes hwn ar draws rhanbarth y ddwy sir. Drwy gyfrwng gwaith ymgysylltu penodol, mynegodd y ddau Gyngor bod yna arferion caffael lleol cryf ar waith i gefnogi busnesau lleol o fewn yr economi fwy na lleol.</p> <p>Pwyntiau Gweithredu? Argymhellir bod y rheiny a gyflwynwyd fel rhan o astudiaeth 2019 yn parhau i gael eu hystyried. Dylai gwaith parhaus barhau i ddeall effaith Cytundeb Masnach yr UE-DU a Rheolau Tarddiad ar fusnesau sy'n bodoli eisoes.</p>	

INV3: Cryfder y farchnad, y cyflenwad a'r galw

INV3 Archwilio cyfleoedd i weithio mewn partneriaeth â'r sector preifat i leihau'r ddibyniaeth ar gyllid y sector cyhoeddus: Ceir 'bwlch gwerth terfynol' heriol rhwng costau adeiladu a gwerth gorffenedig (MS3) ac ansicrwydd cynyddol ynghylch a fydd cyllid y sector cyhoeddus yn parhau (ES2). Gan hynny, gallai cynyddu ymwybyddiaeth o gronfeydd presennol a chyfleoedd i weithio mewn partneriaeth greu cyfle am fwy o fasnachadwyedd / entrepreneuriaeth yn y sector cyhoeddus, a helpu i gynyddu hyfywedd masnachol.

Tabl 6 Archwilio cyfleoedd i weithio mewn partneriaeth â'r sector preifat i leihau dibyniaeth ar gyllid y sector cyhoeddus

Sbarduna u	Ymyriadau Eang (2019)	Is-gamau gweithredu posibl / Allbynnau ar safle (2019)	Diweddariad Sylfaenol 2020 (Crynoi data sylfaenol, ymgysylltu, adolygiad llenyddiaeth)	Goblygiadau Posibl (Yn amodol ar adolygiad parhaus)	Sgôr Risg
ES2, CSN2, MS3	<p>Bwlch Gwerth: Hyrwyddo ymwybyddiaeth o gyllid i gwmnïau'r sector preifat er mwyn lleihau'r 'bwlch gwerth'. Mae gwaith wedi dangos bod llawer o fusnesau llwyddiannus mewn sectorau allweddol yn yr Ardal 'Fwy na Lleol' wedi bod braidd yn ddibynnol ar gymorth ariannol (cymorth grant fel y Gronfa Datblygu Eiddo) yn y gorffennol er mwyn tyfu. I raddau helaeth, mae</p>	<ul style="list-style-type: none"> Ystyried mapio dibyniaeth safleoedd a rhaglenni presennol lleol ar gyllid sy'n dod o'r Undeb Ewropeaidd er mwyn deall lle mae yna gyfleoedd i dargedu parodrwydd am gyllid Ffyniant y DU, neu gyllid cyfatebol. Codi ymwybyddiaeth ynghylch y cyllid sydd ar gael, a chyllid macro-economaidd sy'n dod i'r amlwg yn dilyn Brexit, ymhlith 	<ol style="list-style-type: none"> Mae cronfeydd strwythurol yr UE yn cael eu disodli gan Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU ar ôl Brexit gyda mwy o gyllid na chylch 2014-2020 yn ddisgwyliedig ar gyfer Cymru yn 2020/21⁵⁰. Mae tystiolaeth anecdotaidd gan randdeiliaid yn cadarnhau bod bwlch gwerth terfynol yn dal i fodoli ar draws y rhanbarth ac nad yw'n debygol o newid. Roedd y rhanddeiliaid hefyd yn awgrymu y gellid cynyddu ymwybyddiaeth o'r cyllid sydd ar gael gan y Banc Datblygu ar draws y rhanbarth. 	<p>A yw'r ymyriad eang a'r camau gweithredu cysylltiedig yn parhau i fod yn berthnasol yn 2020/21? Mae'r ymyriad cyffredinol yn parhau i fod yn berthnasol yn 2020/2021. Cyfeiriodd rhanddeiliaid allweddol yn benodol at y ffaith fod y bwlch gwerth yn gysylltiedig â strwythur economi'r rhanbarth ac na fyddai'n debygol o newid dros y tymor byr, y tymor canolig a'r tymor hir.</p> <p>Graddfa'r Newid? Fel yr amlygwyd uchod, mae'r bwlch gwerth wedi bod yn broblem barhaus ar draws ardal y ddwy sir, sy'n annhebygol o newid.</p> <p>Newid allweddol mewn perthynas â chyllid yw'r Gronfa Ffyniant Gyffredin sy'n disodli cronfeydd strwythurol yr UE. Ar adeg ysgrifennu hwn, ychydig iawn o dystiolaeth sydd ar gael ynghylch sut y bydd y Gronfa Ffyniant Gyffredin yn edrych</p>	0

⁵⁰ <https://publications.parliament.uk/pa/cm5801/cmselect/cmwelaf/1083/108302.htm>

Sbarduna	Ymyriadau Eang (2019)	Is-gamau gweithredu posibl / Allbynnau ar safle (2019)	Diweddariad Sylfaenol 2020 (Crynhoi data sylfaenol, ymgysylltu, adolygiad llenyddiaeth)	Goblygiadau Posibl (Yn amodol ar adolygiad parhaus)	Sgôr Risg
	hyn yn adlewyrchu methiant y farchnad mewn sawl ardal yn y rhanbarth o ran costau datblygu yn erbyn gwerth terfynol y tir/ased. Nid yw'r sefyllfa economaidd hon yn debygol o newid yn y tymor byr i ganolog.	cwmnïau'r sector preifat er mwyn lleihau'r 'bwlch gwerth'.		a sut y bydd yn gweithredu, sy'n golygu nad yw graddfa'r newid yn hysbys i raddau helaeth. Pwyntiau gweithredu ychwanegol? Parhau i fonitro dyfodol cyfleoedd ariannu ar ôl Cytundeb Masnach yr UE-DU.	
MS3, ES2, CSN2	Partneriaethau cyhoeddus-preifat: Yn gysylltiedig â sectorau allweddol, ystyried a allai Cyngorau Sir gymryd rhan mewn partneriaeth datblygu â chwmnïau'r sector preifat. Gallai awdurdodau'r Ardal 'Fwy na Lleol' gydweithio â'r sector preifat a phartneriaid eraill fel Banc Datblygu Cymru i archwilio strwythurau partneriaeth, cyfryngau i sicrhau cyllid a phecynnau ariannu posibl a allai helpu i ddatgloi safleoedd lle mae angen arian sefydlu i sicrhau'r budd mwyaf yn sgil datblygu.	<ul style="list-style-type: none"> Gan gydnabod y bwlch gwerth / methiant y farchnad, a chan ragweld y posibilrwydd y bydd cyllid yn arafu yn dilyn Brexit, gallai awdurdodau geisio cydweithio â'r sector preifat, Llywodraeth Cymru a Banc Datblygu Cymru i archwilio a datblygu partneriaethau / strwythurau llywodraethu / ariannu er mwyn dod â safleoedd heriol yn eu blaenau a lleihau'r 'bwlch gwerth'. 	<ol style="list-style-type: none"> Mae adborth gan randdeiliaid yn awgrymu bod partneriaeth â'r Banc Datblygu yn gryf ar lefel Llywodraeth Cymru (cyllid grant) ond nid o reidrwydd mor gryf ag y gallai fod ar lefel leol. Ystyriwyd bod yna ddiffyg ymwybyddiaeth rhannol o brosiectau'r Banc Datblygu yn y rhanbarth. Byddai safleoedd strategol a nodwyd e.e. rhannau o Ddafen yn parhau i fod angen eu 'datgloi' er mwyn eu cyflawni. Roedd y gwaith ymgysylltu â rhanddeiliaid yn nodi bod diffyg partneriaethau cyhoeddus/preifat yn parhau. Roedd yna gydnabyddiaeth y gellid gwneud mwy; fodd bynnag, ceir tystiolaeth o waith partneriaeth cynyddol yn yr ardal, yn enwedig trwy weinyddu'r Fargen Ddinesig. 	<p>A yw'r ymyriad eang a'r camau gweithredu cysylltiedig yn parhau i fod yn berthnasol yn 2020/21? Mae pwysigrwydd posibl partneriaethau'r sector cyhoeddus-preifat i hwyluso twf, er gwaethaf materion sy'n ymwneud â methiant y farchnad/y bwlch gwerth, yn ymyriad mwy hirdymor sy'n parhau i fod yn berthnasol i Ddiweddariad 2020-21.</p> <p>Graddfa'r Newid? Ychydig o newid sydd wedi bod yn y maes hwn ers astudiaeth 2019. Roedd y rhanddeiliaid yn cytuno'n gyffredinol y gellid gwneud mwy o hyd i godi ymwybyddiaeth o'r benthyciadau sydd ar gael i fusnesau.</p> <p>Ers ymadawiad swyddogol y DU o'r Undeb Ewropeaidd ac ansicrwydd cysylltiedig gyda golwg ar gyllid parhaus, gellid ystyried bod cydweithio â'r sector preifat wedi cynyddu mewn pwysigrwydd ers 2019.</p> <p>Camau Gweithredu Ychwanegol? Mae'r camau a nodwyd yn astudiaeth 2019 yn gyffredinol eu cwmpas ac o ystyried maint y newid ers yr astudiaeth ddiwethaf, ystyrir eu bod yn parhau i fod yn berthnasol yn 2020/21 heb fod angen nodi camau gweithredu pellach.</p>	0

INV4: Cadw asedau strategol ar gyfer galw yn y dyfodol

INV4 Ymroi'n rhagweithiol i warchod asedau / tir sy'n galluogi gwireddu'r budd sy'n gysylltiedig â lleoliadau strategol yr Ardal 'Fwy na Lleol' hyd yr eithaf: Dywedodd rhanddeiliaid mai asedau daearyddol a seilwaith sydd o bwysigrwydd rhanbarthol (CSI1, CSI2 ac CSI3), fel y Porthladd dwfn sy'n wynebu'r gorllewin a ffyrdd ymuno ac ymadael y dwyrain-gorllewin i'r A40 / A48 / M4 yn Crosshands, oedd y prif resymau pam bod busnesau wedi'u lleoli eu hunain yn yr ardal yn y gorffennol. Bydd y galw am dir cyflogaeth ar draws y lleoliadau hyn yn newid dros amser, gydag amcanestyniadau cyfredol yn dangos dirywiad ar draws nifer o sectorau cyflogaeth. Serch hynny, mae'n bwysig cadw tir at ddefnydd cyflogaeth yn y lleoliadau hyn er mwyn sicrhau bod pwysigrwydd rhanbarthol yr asedau'n cael ei gynnal, a pheidio colli cyfleoedd yn gysylltiedig â'r safleoedd yn y dyfodol.

Tabl 7 Cadw asedau strategol ar gyfer galw yn y dyfodol

Sbarduna	Ymyriadau Eang (2019)	Is-gamau gweithredu posibl / Allbynnau ar safle (2019)	Diweddariad Sylfaenol 2020 (Crynhoi data sylfaenol, ymgysylltu, adolygiad llenyddiaeth)	Goblygiadau Posibl (Yn amodol ar adolygiad parhaus)	Sgôr Risg
CSI1, G2	Gwarchod tir gerllaw Aberdaugleddau at ddefnydd cyflogaeth, ac yn enwedig y safleoedd hynny a chanddynt fynediad uniongyrchol i'r porthladd (naill ai drwy lanfa uniongyrchol neu bibell). Archwilio cyfleoedd i wella er mwyn creu mynediad tri modd (rheilffordd, dŵr a ffordd) a mynediad ochr porthladd at ddefnydd cyflogaeth o amgylch Porthladd Aberdaugleddau.	<ul style="list-style-type: none"> Gan gydweithio â Llywodraeth Cymru, deall y galw strategol am safleoedd â mynediad tri modd, a hyrwyddo manteision y safleoedd hyn oherwydd eu lleoliad strategol. Ystyried gweithredu polisiâu diogelu neu bolisiâu cyfyngus ynghylch newid defnydd ar safleoedd sy'n gyfagos â'r Daugleddau, gyda mynediad i ochr y Porthladd, fel na chollir cyfleoedd cyflogaeth strategol yn gysylltiedig â'r porth Traws-Ewropeaidd hwn. 	<ol style="list-style-type: none"> Mae gan Ddyfrffordd Aberdaugleddau potensial cryf a chefnogaeth o hyd i hwyluso'r gwaith o ddarparu tanwyddau carbon isel / amgen ac ynni adnewyddadwy. Mae'r ffaith fod yr achos busnes ar gyfer prosiect Ardal Forol Doc Penfro wedi'i gymeradwyo yn dystiolaeth o hyn ynghyd â'r ymrwymiad parhaus gan gyflogwyr angori ar gyfer y diwydiant hwn sy'n gweithio yn yr ardal megis Bombora Wave Power. Yn ogystal, mae cyfleoedd pellach wedi dod i'r amlwg yn enwedig o ran ynni gwynt arnofiol a'r prosiect arddangos oddi ar Sir Benfro yn cael ei gyflwyno gan Blue Gem Wind⁵¹. Mae tir gerllaw Dyfrffordd y Daugleddau wedi'i ddiogelu o fewn Cynllun Adneuo CDL12 Cyngor Sir 	<p>A yw'r ymyriad eang a'r camau gweithredu cysylltiedig yn parhau i fod yn berthnasol yn 2020/21? Roedd gan yr ymyriad eang hwn ffocws hirdymor ar adeg astudiaeth 2019 ac roedd yn canolbwyntio ar bwysigrwydd strategol dyfrffordd Aberdaugleddau.</p> <p>Graddfa'r Newid? Mae graddfa'r newid ers cyhoeddi astudiaeth 2019 yn gyfyngedig gan fod yr adborth gan randdeiliaid yn nodi na fu manteisio pellach ar safleoedd strategol yn Nyfrffordd y Daugleddau. Mae'r agenda carbon isel sy'n ymwneud yn benodol â'r ddyfrffordd wedi'i gwella gan gynydd parhaus prosiectau Bargaen Ddinesig Abertawe a safbwynt polisi cryfach o ran datblygu ynni adnewyddadwy ar lefel Llywodraeth y DU.</p> <p>Pwyntiau Gweithredu? Wrth ystyried maint y newid, ystyrir bod y pwyntiau gweithredu yn parhau i fod yn berthnasol ac felly ni chynigir</p>	+ / ?

⁵¹ Ynni Morol Cymru (2020) <https://www.marineenergywales.co.uk/cymraeg/>

Sbardunau	Ymyriadau Eang (2019)	Is-gamau gweithredu posibl / Allbynnau ar safle (2019)	Diweddariad Sylfaenol 2020 (Crynhoi data sylfaenol, ymgysylltu, adolygiad llenyddiaeth)	Goblygiadau Posibl (Yn amodol ar adolygiad parhaus)	Sgôr Risg
	Parhau i gefnogi datblygiad sy'n ei gwneud hi'n bosibl i drosglwyddo i economi carbon isel a di-garbon yn yr ardal.	<ul style="list-style-type: none"> Parhau i gydweithio â busnesau presennol i ddeall y potensial i drosglwyddo i danwydd carbon isel neu amgen. Cydweithio â'r sector preifat / tirlfeddianwyr i baratoi briffiau datblygu ar gyfer safleoedd strategol a disgrifio manteision lleoliadau yng nghyd-destun yr ardal 'Fwy na Lleol'. Ystyried dynodiad polisi penodol ar gyfer safleoedd porth. 	<p>Penfro. Mae yna heriau'n aros mewn perthynas â'r galw strategol am y safleoedd hyn, yn enwedig gan fod rhanddeiliaid wedi nodi bod yna gyfyngiadau hysbys yn gysylltiedig â chyflawni'r tir sydd ar gael ar ochr y porthladd.</p> <p>3. Mae'r ddogfen 'Diweddariad ar Baratoi ar gyfer Brexit' a gyhoeddwyd gan Gyngor Sir Penfro yn dangos yr angen sy'n dod i'r amlwg am safleoedd rheoli ffiniau yn Sir Benfro ar ôl Brexit. Mae'n ansicr ar hyn o bryd ble bydd y safleoedd hyn. Dylid ystyried manteision lleoliadol strategol safleoedd tri modd sy'n gyfagos i'r ddyfrffordd a'r gwerth posibl y gallai'r rhain ei roi i'r ardal 'Mwy na Lleol' wrth asesu tir addas i weithredu rheolaethau ffin.</p>	unrhyw newidiadau nac eitemau ychwanegol. Er na fu rhagor o ddefnydd o safleoedd strategol yn Nyfrffordd y Daugleddau ers astudiaeth 2019, mae'r rhain yn parhau'n hanfodol i'w diogelu er mwyn sicrhau nad yw'r cyfleoedd yn sgil eu manteision lleoliadol yn cael eu colli.	
CSI3	Tynnodd rhanddeiliaid sylw at y galw posibl am safleoedd cyflawni (safleoedd sy'n galluogi anfon, storio a choladu cynnyrch). Gwarchod a hyrwyddo tir sy'n gyfagos â choridor trafniadaeth allweddol y dwyrain-gorllewin ar draws Sir Benfro a Sir Gaerfyrddin, ac yn benodol y safleoedd hynny (fel Crosshands a Pharc Hendre) a chanddynt fynediad uniongyrchol i gyffwrdd â ffyrdd ymuno ac ymadael dwyrain/gorllewin i goridor yr A40 / A48 / M4 (T-ENT).	<ul style="list-style-type: none"> Ystyried gweithredu polisiâu i ffafrio defnydd cyflogaeth yn gyfagos â chyffwrdd chanddynt fynediad dwyrain-gorllewin i goridor yr A40 / A48 / M4. Ystyried dynodiad polisi penodol ar gyfer safleoedd porth. Parhau i gysylltu â Llywodraeth Cymru ynghylch paratoi model trafniadaeth cenedlaethol, gan gynnwys blaenoriaethu Safleoedd Strategol neu Safleoedd Strategol Posibl yn y Dyfodol ar sail cysylltedd strategol. 	<ol style="list-style-type: none"> Roedd y gwaith ymgysylltu â rhanddeiliaid yn awgrymu bod yna beth galw o hyd am safleoedd cyflawni yn Sir Gaerfyrddin ar hyd llwybrau strategol. Roedd yr adborth yn cadarnhau bod ymholiadau wedi dod i law ar gyfer y math hwn o ddefnydd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, ond weithiau gall fod yn anodd darparu ar gyfer y gwaith oherwydd yr ôl troed mawr sydd ei angen. O ran y gweithlu sydd ei angen ar gyfer defnyddiau o'r fath, mae data Experian yn dangos ei fod yn sylweddol llai na rhagolygon Medi 2020; fodd bynnag, yn gyffredinol mae'n gyson â rhagolygon 2019 neu'n uwch. Mae'r rhain yn dangos gostyngiad cyffredinol mewn cyflogaeth yn y tymor byr, gan sefydlogi y tu hwnt i'r pandemig. Gallai argaeledd cludiant a logisteg i gefnogi gweithgynhyrchu ac allforio fod yn fater cenedlaethol yn y tymor byr, sy'n cael ei deimlo ledled y DU. 	<p>A yw'r ymyriad eang a'r camau gweithredu cysylltiedig yn parhau i fod yn berthnasol yn 2020/21? Ystyrir bod yr ymyriad eang yn parhau i fod yn berthnasol, yn enwedig o ystyried adborth anecdotaidd a gafwyd gan rhanddeiliaid a rhagolygon Experian.</p> <p>Graddfa'r newid? Mae'r newid mewn perthynas â'r galw posibl am safleoedd cyflawni wedi aros yr un fath i raddau helaeth ers cyhoeddi astudiaeth 2019. O ystyried faint o dir y byddai ei angen, ystyrir felly bod angen o hyd i ddiogelu tir gerllaw neu'n agos at y rhwydwaith ffyrdd strategol. Mae hyn yn arbennig o wir gan fod rhagolygon Experian ar gyfer 2021 yn dangos mwy o gyflenwad tir o gymharu â rhai 2020, gan awgrymu y gallai adferiad ddigwydd yn gyflymach na'r hyn a ragwelwyd yn wreiddiol.</p> <p>Camau gweithredu? Ystyrir bod y camau gweithredu a gyflwynwyd yn astudiaeth 2019 yn parhau'n briodol i fynd i'r afael â'r ymyriad eang yn yr achos hwn. Gallai cyfleoedd ar gyfer ynni adnewyddadwy neu danwydd carbon isel ar y safleoedd strategol hyn helpu i gyd-fynd ag uchelgeisiau o fewn y Cynllun Deg Pwynt.</p>	+
CSI3	Ceir sawl maes awyr yn Sir Benfro, rhai ohonynt yn hen ac eraill yn dal i gael eu defnyddio, a rhai yn gysylltiedig â hanes / presenoldeb y fyddin yn y Sir. O ystyried lleoliad y cyfleusterau hyn a'r ansicrwydd ynghylch y defnydd ohonynt yn y dyfodol, gellid bod angen cynnal adolygiad pellach o'r asedau hyn ac ystyried eu rôl yn y dyfodol yn rhan o ymarfer uwchgynllunio ehangach. Er ei bod yn hanfodol cadw asedau strategol ar gyfer galw yn y dyfodol, gallai'r cynghorau adolygu'r cyfleoedd hirdymor am feysydd awyr yn yr ardal.	<ul style="list-style-type: none"> Adolygu a sefydlu dyheadau hirdymor ar gyfer teithiau awyr o fewn Sir Benfro a Sir Gaerfyrddin, ac adolygu rôl asedau presennol er mwyn canfod a ddylid cyfuno'r rhain neu a ddylid ystyried unrhyw un ohonynt yn feysydd awyr rhanbarthol. Ystyried asedau gyda'i gilydd ac ochr yn ochr â gofynion ehangach yn gysylltiedig â defnydd tir. Ystyried defnyddiau amgen posibl ar gyfer asedau nad ydynt yn creu elw neu asedau anweithredol, gan gynnwys archwilio a ddylid cynnwys y rhain mewn uwchgynlluniau cyflogaeth cyfagos. 	<ol style="list-style-type: none"> Mae Strategaeth Adfer ac Adfywio Economaidd Sir Benfro yn cynnig y cyfle i greu Parc Bwyd Sir Benfro ger Maes Awyr Hwlfordd, a oedd yn un o'r Ymyriadau Strategol arfaethedig a argymhellwyd yn Astudiaeth 2019. Byddai'r datblygiad arfaethedig yn cynnwys unedau cychwyn busnes i gefnogi busnesau bach i'w helpu i gynyddu eu gweithrediadau a thyfu'n agos i gartref. Gellir mynd ar ôl hyn ymhellach, efallai trwy uwchgynllunio neu trwy greu briff datblygu ar gyfer yr ardal ehangach. Mae Llywodraeth y DU wedi cadarnhau bod cynlluniau ar waith i gael gwared yn raddol ar Farc Cawdor y Weinyddiaeth Amddiffyn gan ddechrau yn 2024. Fel y soniwyd yn yr adolygiad data sylfaenol, mae Llywodraeth y DU hefyd (fel y nodir yng nghofnodion Hansard⁵²) wedi ymrwymo i weithio gyda Chyngor Sir Penfro i ddod o hyd i ddefnyddiau amgen ar gyfer y safle. 	<p>A yw'r ymyriad eang a'r camau gweithredu cysylltiedig yn parhau i fod yn berthnasol yn 2020/21? Nid yw'r dyheadau hirdymor ar gyfer maes awyr Hwlfordd a thirddaliadau'r Weinyddiaeth Amddiffyn wedi'u cadarnhau eto ac felly mae'r ymyriad eang yn parhau i fod yn berthnasol i Ddiweddariad 2020-21.</p> <p>Graddfa'r Newid? Bu newid cyfyngedig yn ystod y 12 mis diwethaf o ran penderfynu ar ddyfodol hirdymor y maes awyr a'r safleoedd amddiffyn. O ystyried y dirywiad yn y sector hedfan ers dechrau'r pandemig Covid-19, mae'n bosibl bod y cyfle am deithio awyr i deithwyr wedi gostwng ymhellach.</p> <p>Ers cyhoeddi astudiaeth 2019, deellir bod gwaith yn mynd rhagddo o fewn Cyngor Sir Penfro i ddeall sefyllfa Maes Awyr Hwlfordd yn fanylach, a fydd yn werthfawr i lywio unrhyw benderfyniadau yn y dyfodol.</p> <p>Pwyntiau gweithredu? Ni awgrymir unrhyw bwyntiau gweithredu pellach o gofio bod y rheiny a nodwyd fel rhan o astudiaeth 2019 yn parhau i fod yn fwyaf berthnasol i'r ymyriad eang. Dylid ymestyn y camau hyn yn awr i Farc Cawdor, fel y gellir ystyried defnydd y safle yn y dyfodol ar ôl cael gwared arnynt.</p>	+

⁵² <https://hansard.parliament.uk/Commons/2020-02-26/debates/36348E4C-F511-42F9-8F03-F151D2E6A49A/CawdorBarracks>

INV5: Ymyriadau ar safleoedd strategol

INV5 Cynllunio'n rhagweithiol ar gyfer ymyriadau ar safleoedd strategol: Mewn gwaith dadansoddi safleoedd a gynhaliwyd er mwyn diffinio rhwydwaith o Safleoedd Strategol ar draws yr Ardal Fwy na Lleol, amlygwyd nifer o ymyriadau ar safleoedd. Mae'r rhain wedi'u cynnwys ar brofformas y safleoedd yn **Atodiad C**. Gall mentrau yn seiliedig ar safleoedd hefyd godi drwy ymyriadau ehangach fel INV1, INV2 neu INV3.

Yn gyffredinol, mae'r dystiolaeth a gasglwyd fel rhan o'r adolygiad sylfaenol ac o ymgysylltu â rhanddeiliaid yn awgrymu bod yr ymyriadau ar safleoedd strategol fel y'u cyflwynwyd yn astudiaeth 2019 yn parhau i fod yn gymwys yn 2020-21, yn enwedig y 'safleoedd strategol sydd o bwysigrwydd rhanbarthol'. Er hyn, fel y cyflwynir yn Nhabl 8 isod, o ystyried lefel yr ansicrwydd ar adeg ysgrifennu hwn, mae'n bwysig cynnal lefel o hyblygrwydd gyda dynodiadau safleoedd strategol arfaethedig. Mae hyn yn arbennig o berthnasol yng nghyd-destun Brexit a allai fod â goblygiadau hirdymor amrywiol sydd eto i'w gwireddu.

Wrth ystyried yr uchod, un pwynt gweithredu ychwanegol a argymhellir mewn perthynas ag ymyriadau strategol ar safleoedd fyddai i'r Cyngor Sir ymgysylltu â busnesau lleol, yn enwedig busnesau'r gadwyn gyflenwi i ddeall lefel cyflogaeth y tu allan i'r DU o fewn sectorau allweddol a lefel yr allforion a wneir gan fusnesau sy'n gweithredu yn ardal y ddwy sir. Ystyrir bod hyn yn arbennig o bwysig mewn perthynas â chlystyrau gweithgynhyrchu a chcludiant, fel y nodir yn Nhabl 8, a allai gael eu heffeithio gan drothwyon y Rheol Tarddiad ar y gadwyn gyflenwi drwy Gytundeb Masnach yr UE-DU. Byddai gan hyn yn ei dro oblygiadau gofodol o ran gofynion tir ar gyfer y busnesau clwstwr ategol hyn.

Bydd angen monitro'n ofalus effaith canllawiau Cyfoeth Naturiol Cymru, gyda golwg ar y safon ffosffad newydd ar gyfer Ardaloedd Cadwraeth Arbennig afonol newydd yng Nghymru, a chanllawiau TAN 15, sy'n ei gwneud yn ofynnol i ddatblygiadau ystyried newid yn yr hinsawdd o fewn cynigion ar gyfer lliniaru ac addasu i berygl llifogydd. Ar gyfer pob un o'r Ymyriadau ar Safleoedd Strategol, cynhaliwyd asesiad cychwynnol o ba safleoedd y mae'r materion hyn yn effeithio arnynt – bydd angen ystyried y rhain yn fanwl yng nghyd-destun y Cynllun Datblygu Lleol ehangach.

Tabl 8 Adolygiad cychwynnol o Ymyriadau ar Safleoedd Strategol

Enw'r Safle	Swyddogaeth Sylfaenol 2019	Swyddogaeth Eilaidd 2019	Camau Gweithredu 2020	Ydy TAN 15 yn effeithio ar y Safle? ⁵³	O fewn Dalgylch Dŵr Croyw ACA sy'n sensitif i ffosfforws? ⁵⁴
G1 Clwstwr Harbwr Abergwaun ac Wdig	Safle Porth	Clystyrau Safleoedd Strategol Penodol i Sector / Ategol	Gweler INV1 Y Sector Mordeithiau a Thwristiaeth. Mewn perthynas â rhai o'r Safleoedd Porth 'Mwy na Lleol' a nodwyd yn Astudiaeth 2019, mae'n rhy fuan i ddeall y galw tymor hwy am y rhain. Argymhellir ar hyn o bryd bod Safleoedd Porth 'Mwy na Lleol' yn cael eu cadw nes bod tystiolaeth bellach o effeithiau hirdymor Cytundeb Masnach yr UE-DU a'r angen am le i reoli ffiniau yn cael ei bennu (gweler INV4), ac effeithiau Covid-19 ar y sector mordeithio, yn dod yn glir.	Ydy	Nac ydy
G2 Clwstwr Doc Penfro	Safle Porth	Clystyrau Safleoedd Strategol Penodol i Sector / Ategol	Gweler INV1 Adnoddau Naturiol a Chynhyrchu Ynni. Mae'r safleoedd yn ffurfio rhan o Brosiect y Fargen Ddinesig, Ardal Forol Doc Penfro ac er eu bod yn cynnwys rhai defnyddiau cyflogaeth presennol, ystyrir eu bod yn cynnig potensial pellach ar gyfer twf strategol. Ystyrir bod y sector ynni adnewyddadwy yn arbennig wedi profi lefel gadarnhaol o newid dros y flwyddyn ddiwethaf o ganlyniad i gryfhau polisi cenedlaethol a datblygiad prosiectau allweddol fel Ardal Forol Doc Penfro a phrosiect Bargaen Ddinesig Bae Abertawe.	Ydy – Rhannol	Nac ydy
E1 Purfa Olew Penfro (Valero)	Safle Strategol o Bwysigrwydd Rhanbarthol		Gweler INV1 Adnoddau Naturiol a Chynhyrchu Ynni. Ar lefel Llywodraeth y DU, mae cyhoeddi'r Strategaeth Seilwaith Genedlaethol yn rhoi ymdeimlad o hyder a sicrwydd o'r newydd wrth gyflawni prosiectau ar raddfa fawr. Roedd yr adborth gan rhanddeiliaid yn amlygu ymdeimlad gwirioneddol o optimistiaeth o ran y sector ynni, ac yn seiliedig ar safbwyntiau cychwynnol ⁵⁵ , mae'n ymddangos bod yna sefyllfa gefnogol ar y cyfan o fewn Cytundeb Masnach yr UE-DU ar gyfer cydweithredu ynni.	Nac ydy	Nac ydy
E2 Purfa Olew Aberdaugleddau (Puma Energy)	Safle Strategol o Bwysigrwydd Rhanbarthol			Nac ydy	Nac ydy
E3 South Hook LNG	Safle Strategol o Bwysigrwydd Rhanbarthol			Nac ydy	Nac ydy
E4 Gorsaf Bŵer Penfro	Safle Strategol o Bwysigrwydd Rhanbarthol			Ydy	Nac ydy

⁵³ Yn unol â 'Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio' Cyfoeth Naturiol Cymru 2021 sydd ar gael yn: <https://map-llifogydd-ar-gyfer-cynllunio.cyfoethnaturiol.cymru/>

⁵⁴ Yn seiliedig ar Fapiau Dalgylch ar gyfer Afonydd Teifi, Tywi a Cleddau, sydd ar gael yn: <https://www.sirgar.llyw.cymru/cartref/gwasanaethaur-cyngor/cynllunio/cyngor-ecoleg/targedau-ffosffad-newydd/#.YgO6POQafIg> ac yn <https://www.sir-benfro.gov.uk/cynllunio-ac-ecoleg/canllawiau-ffosffadau>

⁵⁵ Institute for Government <https://www.instituteforgovernment.org.uk/publication/future-relationship-trade-deal/energy>

Enw'r Safle	Swyddogaeth Sylfaenol 2019	Swyddogaeth Eilaidd 2019	Camau Gweithredu 2020	Ydy TAN 15 yn effeithio ar y Safle? ⁵³	O fewn Dalgylch Dŵr Croyw ACA sy'n sensitif i ffosfforws? ⁵⁴
E5 Waterston (Dragon LNG)	Safle Strategol o Bwysigrwydd Rhanbarthol		Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru 10 mlynedd o hyd. Bydd y gallu i gyd-fynd ag uchelgeisiau o fewn y Cynllun hwn yn amodol ar allu busnesau i symud tuag at danwydd carbon sero-net.	Nac ydy	Nac ydy
E6 Trostre, Llanelli	Safle Strategol o Bwysigrwydd Rhanbarthol		Gweler INV2 Hyder busnesau brodorol . Nodir y safle fel safle cyflogaeth presennol yn CDL11. Ystyrir bod y stoc gyflogaeth bresennol gyda swyddi gwag cyfyngedig sy'n cynnwys Tata Steel yn gyflogwr strategol o bwysigrwydd rhanbarthol, yn ogystal â defnydd cyflogaeth mwy lleol i'r de-orllewin o'r safle. Yn y tymor byr, mae'r sefyllfa'n aros yn ddigynfawr i raddau helaeth o linell sylfaen 2019; fodd bynnag, y tu hwnt i ganol y 20au, mae rhagolygon 2021 yn dangos twf gweithgynhyrchu y tu hwnt i ragolygon 2019 yn Sir Gaerfyrddin. Fodd bynnag, yn ddiweddar bu colledion swyddi ar y safle ac felly mae'r uchelgeisiau hirdymor braidd yn ansicr. Dylai Cyngor Sir Caerfyrddin ystyried parhau i gefnogi twf cyflogwyr a safleoedd strategol presennol, gan gynnwys cadwynau cyflenwi lleol cyfagos.	Ydy – y rhan fwyaf	Nac ydy
E7 Ystad Ddiwydiannol Heol Waterloo a Heol Llundain	Clystyrau Safleoedd Strategol Penodol i Sector / Ategol		Gweler INV1 Adnoddau Naturiol a Chynhyrchu Ynni ac INV6 Adolygu cyfleoedd i gryfhau'r Statws Porthladd Rhydd: Mae'r safle yn safle cyflogaeth presennol (defnyddiau B2, B8, Sui Generis) fel y nodir yn y Canllawiau Cynllunio Atodol ar gyfer Safleoedd Datblygu. Mae rhai lleiniau gwag ar gael ond mae'r potensial i ehangu yn gyfyngedig i raddau helaeth. Mae'r safle o fewn Ardal Fenter Dyfrffordd y Daugleddau. Er bod llai o ffocws strategol ar yr Ardal Fenter, mae gan ddatblygiadau yn yr ardal gymhellion ariannol yn gysylltiedig â hwy o hyd ar ffurf cyfraddau llog is ar fenthyciadau Banc Datblygu.	Ydy – Rhannol	Nac ydy
O1 Clwstwr Llwynhelyg	Safle Strategol o Bwysigrwydd Rhanbarthol	Clwstwr Safleoedd Strategol Penodol i Sector / Ategol	Gweler INV2 Hyder busnesau brodorol ac INV4 Cyfleoedd hirdymor ar gyfer meysydd awyr . Er y gallai fod llai o botensial am dwf, mae data Experian yn awgrymu adfywiad cryf yn y sector llety a gwasanaethau bwyd. Gallai'r safle hwn barhau i fod yn ffocws rhanbarthol a byddai'n cael ei gryfhau gan y cynigion presennol i ddatblygu parc bwyd ar dir i'r dwyrain o'r parc busnes. Mae Cyngor Sir Penfro yn parhau i ddod i ddealltwriaeth fanylach o sefyllfa Maes Awyr Hwlfordd. Dylai gwaith parhaus barhau i ddeall effaith Cytundeb Masnach yr UE-DU ar reolaethau ffiniau iechydol a ffytoiechydol (SPS) a goblygiadau cost y rhain. Roedd rheolaethau ffiniau iechydol a ffytoiechydol (SPS) yn cynnwys gwiriadau helaeth ar gynhyrchion anifeiliaid, pysgod, pysgod cregyn a'u cynnyrch, anifeiliaid byw a phlanhigion a chynnyrch planhigion lle roeddent yn cael eu hallforio. Gallai'r gwiriadau hyn gynyddu'r costau sy'n gysylltiedig â masnach bwyd-amaeth rhwng Prydain Fawr a'r UE.	Nac ydy	Ydy
O2: Clwstwr Ystad Ddiwydiannol Thornton	Clystyrau Safleoedd Strategol Penodol i Sector / Ategol		Gweler INV2 Hyder busnesau brodorol Ffocws y gadwyn gyflenwi o ystyried agosrwydd safleoedd at safleoedd strategol ehangach o fewn Dyfrffordd y Daugleddau a'r sylfaen gyflogaeth bresennol sy'n troi o amgylch swyddogaethau peirianeg ac yn gysylltiedig â'r porthladd. Dylai gwaith parhaus barhau i ddeall effaith Cytundeb Masnach yr UE-DU a Rheolau Tarddiad a symudedd arbenigeddau ar fusnesau sy'n bodoli eisoes.	Nac ydy	Nac ydy
O3: Blackbridge	Safle Strategol o Bwysigrwydd Rhanbarthol		Gweler INV4 Gwarchod tir gerllaw Aberdaugleddau ac INV6 Adolygu cyfleoedd i gryfhau'r Statws Porthladd Rhydd: Mae'r safle yn un o'r unig safleoedd sy'n weddill sydd â mynediad uniongyrchol i'r dŵr dwfn yn ardal Aberdaugleddau.	Nac ydy	Nac ydy
O4: Clwstwr Parc Gwyddoniaeth a Thechnoleg Penfro	Safle Strategol o Bwysigrwydd Rhanbarthol		ac INV6 Adolygu cyfleoedd i gryfhau'r Statws Porthladd Rhydd: Nododd astudiaeth 2019 dystiolaeth o alw sectoraidd ar y safle am glystyru cyflogwyr sy'n gysylltiedig â'r sector ynni morol.	Nac ydy	Nac ydy
O5: Y Bynea, Llanelli	Safle Strategol o Bwysigrwydd Rhanbarthol		Gweler INV3 Partneriaethau cyhoeddus-preifat . Mynediad uniongyrchol i'r A484 sy'n darparu cysylltiadau da ag Abertawe gyfagos. Tystiolaeth bod gan y safle ffocws sector ar weithgynhyrchu ar hyn o bryd, yn bennaf trwy gwmnïau cadwyn gyflenwi, er y gallai cau Schaeffler fod wedi peryglu hyn.	Ydy – y rhan fwyaf	Nac ydy
O6: Dafen, Llanelli	Safle Strategol o Bwysigrwydd Rhanbarthol		Gweler INV3 Partneriaethau cyhoeddus-preifat . Mynediad uniongyrchol i'r A4138 sy'n darparu cyswllt uniongyrchol â thraffordd yr M4. Mae'r safle'n datblygu ffocws sector ar weithgynhyrchu a defnyddiau cysylltiedig o fewn y gadwyn gyflenwi	Ydy – Rhannol	Nac ydy

Enw'r Safle	Swyddogaeth Sylfaenol 2019	Swyddogaeth Eilaidd 2019	Camau Gweithredu 2020	Ydy TAN 15 yn effeithio ar y Safle? ⁵³	O fewn Dalgylch Dŵr Croyw ACA sy'n sensitif i ffosfforws? ⁵⁴
O7: Cross Hands	Safle Strategol o Bwysigrwydd Rhanbarthol	Clwstwr Safleoedd Strategol Penodol i Sector / Ategol	Gweler INV2 Cyfyngu ar gyfleoedd a gollir: Mae gan y safle ffyrdd ymuno ac ymadael dwyrain/gorllewin i'r A48/M4 sy'n ei wneud yn hygyrch iawn. Datblygu hunaniaeth a gydnabyddir yn genedlaethol o amgylch y sector gweithgynhyrchu a dosbarthu bwyd. Ym mis Tachwedd 2020, cymeradwydd y Bwrdd Gweithredol benderfyniad i ystyried Gorchymyn Datblygu Lleol i'w wneud o bosibl yn Nwyrain Cross Hands. Gallai'r Gorchymyn Datblygu Lleol roi cyfle i'r Awdurdod Cynllunio Lleol symleiddio'r broses gynllunio drwy ddileu'r angen i ddatblygwyr/ymgeiswyr gyflwyno cais cynllunio i'r Awdurdod ac i gyflwyno cynigion datblygu fel cais am Orchymyn Datblygu Lleol.	Nac ydy	Nac ydy
O8: Parc Hendre	Safle Strategol o Bwysigrwydd Rhanbarthol	Clwstwr Safleoedd Strategol Penodol i Sector / Ategol	Mae'r safle'n cynnwys safleoedd cyflogaeth wedi'u mabwysiadu a'u cynnig o fewn y CDLI mabwysiedig. Mae'r safle'n cael ei ddefnyddio gan nifer o gwmnïau gweithgynhyrchu mewn unedau mawr yr ystyrir eu bod yn cyflawni swyddogaeth 'Mwy na Lleol' ac mae ganddo ddigon o dir gwag i ehangu. Mae'r safle yn agos at Cross Hands ac mae ganddo fynediad da i rwydwaith ffyrdd strategol yr A48/M4 drwy'r A483	Nac ydy	Nac ydy
O9: Pentref Gwyddor Bywyd a Llesiant, Llanelli	Safle Strategol o Bwysigrwydd Rhanbarthol	Clwstwr Safleoedd Strategol Penodol i Sector / Ategol	Gweler INV1 Cefnogaeth barhaus i ddatblygu'r sector gwyddorau iechyd: Fel safle / prosiect allweddol yn rhan o Fargen Ddinesig Bae Abertawe, mae'r safle strategol hwn yn fuddsoddiad pwysig yn y sector gwyddorau bywyd, sy'n un o flaenoriaethau allweddol Llywodraeth Cymru. Mae'r cynigion yn cynnwys pentref llesiant a fydd yn darparu cyfleusterau busnes, addysg, hamdden ac iechyd. Mae yna nifer o safleoedd defnydd cymysg cyfagos (nad ydynt yn rhan o ddynodiad y Safle Cyflogaeth Strategol). Ym mis Tachwedd 2020, cymeradwydd yr achos busnes dros gynllun Pentref Gwyddor Bywyd a Llesiant Llanelli a elwir yn 'Pentre Awel' ⁵⁶ gan Gyd-bwyllgor Bargaen Ddinesig Bae Abertawe, yn dilyn cymeradwyaeth gan Fwrdd Gweithredol Cyngor Sir Caerfyrddin a'i gymeradwyo yn y Cyngor Llawn. Bydd y prosiect yn awr yn cael ei gyflwyno i Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru i'w gymeradwyo'n derfynol.	Ydy	Nac ydy
FP1: Trecŵn	Safle Posibl yn y Dyfodol		Mae safle Trecŵn yn unigryw o ran ei leoliad a'i nodweddion ar y safle. Gallai'r safle ddenu diwydiannau arbenigol iawn gyda gofynion lleoliadol penodol. Mae'r safle wedi'i ynysu, yn ddiogel ac mae ganddo rwydwaith o dwneli tanddaearol yn ogystal â nifer o hen adeiladau milwrol ar y safle. Mae gan y safle hefyd reilffordd a allai wasanaethu datblygiadau yn y dyfodol. Mae'n debygol o fod yn fwy addas i rai sectorau penodol (e.e. twristiaeth), neu ddefnyddwyr sydd â gofynion safle penodol (e.e. safle diogel).	Ydy	Nac ydy

INV6: Adolygu mentrau gofodol presennol ac arfaethedig

INV6 Adolygu llwyddiannau a heriau yn gysylltiedig â mentrau gofodol presennol er mwyn sicrhau bod gwersi'n cael eu dysgu ar gyfer cysyniadau newydd sy'n dod i'r amlwg (fel Ardal y Porthladd): Mewn adborth nodwyd bod safleoedd Ardaloedd Menter wedi profi llwyddiant cymysg, ac nid oedd nifer o randdeiliaid yn siŵr beth oedd pwrpas cyffredinol yr Ardaloedd Menter hynny. O ystyried bod cysyniadau newydd yn debygol o ddod i'r amlwg mewn ymateb i newid macro-economaidd (h.y. Brexit), dylid cynnal arfarniad parhaus o'r mentrau presennol er mwyn cynyddu effeithiau'r cynlluniau hyn hyd yr eithaf yn y dyfodol.

Tabl 9 Adolygu mentrau gofodol presennol ac arfaethedig

Sbardunau	Ymyriadau Eang (2019)	Is-gamau gweithredu posibl / Allbynnau ar safle (2019)	Diweddariad Sylfaenol 2020 (Crynoi data sylfaenol, ymgysylltu, adolygiad llenyddiaeth)	Goblygiadau Posibl (Yn amodol ar adolygiad parhaus)	Sgôr Risg
CSI1	Adolygu cyfleoedd i gryfhau'r statws 'Porthladd Rhydd': Yn ddiweddar, mae Awdurdod Harbwr Porthladd Aberdaugleddau wedi cyhoeddi uchelgeisiau i sefydlu Porthladd	<ul style="list-style-type: none"> Cefnogaeth barhaus i Borthladd Aberdaugleddau wrth archwilio'r cysyniad Ardal Borthladd / Porthladd Rhydd. Dylai'r awdurdodau 'Mwy na Lleol' geisio deall yn llawn y budd posibl i ardal Aberdaugleddau yn sgil dynodiad o'r fath, er mwyn cynghori 	<ol style="list-style-type: none"> Ers cyhoeddi astudiaeth 2019, mae rhagor o wybodaeth wedi'i rhyddhau gan Lywodraeth y DU ar Borthladdoedd Rhydd, er bod y broses ar gyfer porthladdoedd Cymru yn parhau i fod yn aneglur. Mae Aberdaugleddau wedi datgan diddordeb mewn dod yn Borthladd Rhydd, ond mae cofnodion y Llywodraeth yn dangos bod yna bryder ynghylch argaeledd tir i gefnogi gweithrediad 	A yw'r ymyriad eang a'r camau gweithredu cysylltiedig yn parhau i fod yn berthnasol yn 2020/21? Mae rhagor o wybodaeth am Borthladdoedd Am Ddim a'r broses ymgeisio wedi'i rhyddhau ers cyhoeddi astudiaeth 2019, ond nid oes unrhyw benderfyniadau wedi'u gwneud ynghylch pa borthladdoedd y dylid rhoi statws o'r fath iddynt. Mae'r ymyriad cyffredinol yn parhau i fod yn berthnasol.	+ / ?

⁵⁶ <https://www.bargenddinesigbaeabertawe.cymru/newyddion/cam-mawr-ymlaen-i-brosiect-llanelli-gwerth-miliynau-o-bunnau/>

Sbardunau	Ymyriadau Eang (2019)	Is-gamau gweithredu posibl / Allbynnau ar safle (2019)	Diweddariad Sylfaenol 2020 (Crynhoi data sylfaenol, ymgysylltu, adolygiad llenyddiaeth)	Goblygiadau Posibl (Yn amodol ar adolygiad parhaus)	Sgôr Risg
	Aberdaugleddau fel 'porthladd rhydd' ac 'ardal borthladd'.	<p>darpar buddsoddwyr ac / neu fusnesau brodorol a allai elwa o fenter o'r fath.</p> <ul style="list-style-type: none"> Ystyried sut y gellid symleiddio trefniadau cynllunio i ategu hyn. 	<p>Porthladd Rhydd, 'Cododd y Porthladd bryderon ynghylch argaeledd tir o ran gwahaniaeth a graddfa o gymharu â safleoedd porthladdoedd rhydd posibl eraill, a nododd y gallent greu Porthladd Rhydd rhithwir sy'n defnyddio technoleg i fonitro llwythi llongau a chysylltu sawl safle o weithgarwch economaidd⁵⁷.' Cododd y Porthladd bryderon hefyd ynghylch gallu ehangu/datblygu oherwydd ei leoliad yn y dirwedd a'i agosrwydd at Barc Cenedlaethol Arfordir Penfro, sydd hefyd wedi'i restru fel pryder i'r Awdurdod Parc Cenedlaethol. Gall datblygu Parth Porthladd gyda gweithdrefnau datblygu clir/symlach helpu i oresgyn y mater hwn.</p> <p>3. Mae Datganiad Gweinidogol Ysgrifenedig diweddar ar bwnc Porthladdoedd Rhydd yng Nghymru (Gorffennaf 2021) yn dangos bod yna rywfaint o ansicrwydd o hyd ynghylch dyfodol Porthladdoedd Rhydd yng Nghymru, faint o arian sydd ar gael a'r effaith ar gystadleugarwch⁵⁸.</p>	<p>Graddfa'r Newid? Fel y soniwyd, mae rhagor o wybodaeth wedi'i rhyddhau ers cyhoeddi'r astudiaeth flaenorol, gan gynnwys y meini prawf y byddai statws Porthladd Rhydd yn cael ei ddyfarnu yn eu herbyn. Codwyd pryderon penodol mewn perthynas ag Aberdaugleddau gydag argaeledd tir.</p> <p>Pwyntiau gweithredu? Er nad yw'r broses ymgeisio am Borthladdoedd Rhydd wedi agor yng Nghymru eto, ystyrir bod yr is-gamau gweithredu arfaethedig yn parhau'n eang ac yn berthnasol. Bydd monitro cynnydd Porthladdoedd Rhydd yn ychwanegol yn dilyn y Datganiad Gweinidogol Ysgrifenedig diweddar yn hanfodol.</p>	
ES3	Adolygu Ardaloedd Menter: Er mwyn adlewyrchu'r farn gymysg ynghylch llwyddiant yr Ardaloedd Menter, adolygu'r graddau y mae'r dynodiadau hyn wedi esgor ar fanteision neu sicrhau twf.	<ul style="list-style-type: none"> Dylai Sir Benfro gydweithio'n agos â Llywodraeth Cymru er mwyn adolygu llwyddiant yr Ardal Fenter o fewn yr Ardal Fwy na Lleol. Dylai hyn gynnwys adolygiad o'r ymholiadau hyd yma, y modd y gwnaed penderfyniadau o fewn yr ardal, yn ogystal ag adolygiad o ffin yr Ardal Fenter yn y dyfodol, gan gydnabod yr ystyriaethau a'r cyfyngiadau amgylcheddol o fewn yr ardal. Yn ogystal â hyn, dylid adolygu manteision llawn yr Ardal Fenter er mwyn gallu ymdrin ag ymholiadau yn y modd mwyaf effeithlon, a chyfeirio buddsoddwyr at yr Ardal Fenter lle byddai'r buddion yn cyd-fynd orau â'r ymholiad buddsoddi. 	<ol style="list-style-type: none"> Mae Strategaeth Adfer ac Adfywio Economaidd Sir Benfro yn cyfeirio at bwysigrwydd rhanbarthol Ardal Fenter Dyfrffordd y Daugleddau a Phanel Busnes Sir Benfro. Ers cyhoeddi astudiaeth 2019, ychydig o ddiweddariadau pellach sydd wedi bod gyda golwg ar weithgarwch o fewn Ardal Fenter Dyfrffordd y Daugleddau. Mae telerau benthyca ffafriol y Banc Datblygu ar gyfer cwmnïau sydd wedi'u lleoli mewn Ardal Fenter yn dangos bod cymhellion ariannol o hyd yn gysylltiedig â'r dynodiad, hyd yn oed o fewn fframwaith newydd ar ôl Cronfa Datblygu Eiddo Llywodraeth Cymru Ym mis Mehefin 2020, cymeradwyodd Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru yr achos busnes ar gyfer prosiect Ardal Forol Doc Penfro; sy'n cael ei arwain gan y sector preifat gyda chymorth Cyngor Sir Penfro a disgwylir iddo gynhyrchu mwy na 1,800 o swyddi yn y 15 mlynedd nesaf.⁵⁹ Mae cymeradwyo'r achos busnes yn golygu y gall y prosiect ddechrau cael gafael ar £18 miliwn o gyllid y mae'r ddwy lywodraeth wedi'i ryddhau. 	<p>A yw'r ymyriad eang a'r camau gweithredu cysylltiedig yn parhau i fod yn berthnasol yn 2020/21? O ystyried buddiannau posibl sy'n cystadlu â'i gilydd megis dynodiad parth porthladd yn Aberdaugleddau ac achrediad amgen ar gyfer safleoedd strategol, ystyrir bod hyn yn parhau i fod yn ymyriad dilys i Awdurdodau Lleol ei ystyried ymhellach yn Niweddariad 2020-21.</p> <p>Graddfa'r Newid? Ers cyhoeddi astudiaeth 2019, deellir na fu adolygiad pellach ar yr Ardaloedd Menter yn yr Ardal yr Astudiaeth ar adeg ysgrifennu hwn ac felly ychydig iawn o newid sydd ar gael.</p> <p>Pwyntiau Gweithredu? Wrth ystyried graddfa'r newid, mae'r pwyntiau gweithredu yn parhau i fod yn berthnasol ac nid oes unrhyw gamau gweithredu pellach/ymyriadau ar safle wedi'u nodi ar gyfer Diweddariad 2020-21.</p>	0 / ?

⁵⁷ <https://publications.parliament.uk/pa/cm5801/cmselect/cmwelaf/205/20506.htm>

⁵⁸ <https://llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-porthladdoedd-rhydd-yng-nghymru>

⁵⁹ <https://www.bargenddinesigbaeabertawe.cymru/newyddion/sêl-bendith-i-brosiect-ynnir-môr-yn-sir-benfro-syn-werth-60-miliwn/>

INV7: Cydgyssylltu, rhwydweithiau a chymorth busnes

INV7 Gweithredu'n effeithiol ar draws awdurdodau ac ar draws adrannau: O ystyried y cynnydd yn y pwyslais ar weithio'n rhanbarthol ac ar draws ffiniau o fewn y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol, mae angen cynyddu'r graddau y mae y mae awdurdodau'n cydweithredu'n effeithiol i gefnogi twf economaidd cadarnhaol sy'n llai agored i ddiffygion mewn sectorau neilltuol. O ganlyniad i'r ansicrwydd macro-economaidd, dylai Awdurdodau Cynllunio Lleol, busnesau a rhanddeiliaid anelu i weithredu gyda'r feddylfryd o leihau bregusrwydd economaidd drwy edrych ar swyddogaeth yr ardal yn ei chyfarwydd.

Tabl 10 Cydgyssylltu, rhwydweithiau a chymorth busnes

Sbardunau	Ymyriadau Eang (2019)	Is-gamau gweithredu posibl / Allbynnau ar safle (2019)	Diweddariad Sylfaenol 2020 (Crynhoi data sylfaenol, ymgysylltu, adolygiad llenyddiaeth)	Goblygiadau Posibl (Yn amodol ar adolygiad parhaus)	Sgôr Risg				
MS4, CSI1, CSI2, CSI3, CSI5, CSN2	<p>Hyrwyddo safleoedd: Ceir cyfle i weithio ar y cyd rhwng Awdurdodau ac adrannau o fewn Llywodraeth Cymru i hyrwyddo safleoedd sydd ar gael yn weithredol ymhlith buddsoddwyr cenedlaethol a rhyngwladol.</p>	<ul style="list-style-type: none"> Cydweithio, gan gydnabod natur gyflenwol llawer o'r sectorau allweddol ar draws yr Ardal 'Fwy na Lleol'. Drwy ddefnyddio'r rhestr o Safleoedd Strategol yn Atodiad C, datblygu portffolio manwl o safleoedd (gan adolygu asedau seilwaith allweddol a'u gwerth tebygol) yn erbyn ymholiadau strategol er mwyn deall sut mae galw strategol yn gyson â'r safleoedd hyn. Gweithio mewn partneriaeth â'r sector preifat / tîrffeddiawyr i baratoi briffiau datblygu ar gyfer safleoedd strategol. Cynnal adolygiad er mwyn canfod lle byddai'n fwyaf effeithiol hyrwyddo i ddenu'r 'defnyddiwr terfynol cywir' a fyddai'n creu'r budd mwyaf posibl yn gysylltiedig â lleoliad strategol y safle. Gweithio ar draws adrannau ac awdurdodau er mwyn cynorthwyo i lywio ymholiadau gan ddarparu fuddsoddwyr i leoliadau eraill yn ardal Sir Benfro a Sir Gaerfyrddin. 	<ol style="list-style-type: none"> Cytundeb cyffredinol ymhlith rhanddeiliaid bod awdurdodau lleol yn cydweithio'n dda. Ddim yn gweithio ar friffiau datblygu/rhestr safleoedd strategol ar hyn o bryd – blaenoriaeth CDLI2. Cydnabyddiaeth ymhlith rhanddeiliaid y gellid gwneud mwy i ymgysylltu â thirffeddiawyr yn uniongyrchol ar draws y rhanbarth. Mae'r adroddiad Marchnad Eiddo Masnachol gan SQW Consultants, ac adborth gan rhanddeiliaid, yn awgrymu bod galw cudd o hyd am safleoedd llai fel y nodwyd yn 2019. 	<p>A yw'r ymyriad eang a'r camau gweithredu cysylltiedig yn parhau i fod yn berthnasol yn 2020/21? Mae gan yr ymyriadau eang hyn ffocws mwy hirdymor a chafwyd cydnabyddiaeth ymhlith rhanddeiliaid yn ystod Diweddariad 2020-21 y gellid gwneud rhagor o waith i ymgysylltu â'r sector preifat a thirffeddiawyr, yn ogystal â chydabyddiaeth o'r galw am safleoedd llai. Felly, mae'r ymyriadau'n parhau i fod yn berthnasol.</p> <p>Graddfa'r Newid? Bu newid canolig wrth ystyried yr ymyriadau hyn. Bydd angen cynyddol am gydweithio rhwng y sector cyhoeddus a'r sector preifat i ddarparu ar gyfer newidiadau o fewn Cytundeb Masnach yr UE-DU.</p> <p>Pwyntiau gweithredu? Mae'r pwyntiau gweithredu a gyflwynwyd yn 2019 yn eang eu ffocws; fodd bynnag maent yn hanfodol i barhau, ac felly ystyrir eu bod yn briodol ar gyfer Diweddariad 2020-21.</p>	+ / ?				
	<p>Gweithio gyda thirffeddiawyr: Gallai ansicrwydd macro-economaidd yn y dyfodol (fel goblygiadau Brexit neu'r penderfyniad i beidio bwrw ymlaen ag adran newydd o draffordd yr M4 i'r de o Gasnewydd) olygu bod asedau presennol o fewn yr ardal yn cael eu hailgyflunio. Dylid ystyried hyn yn gyfle i'r Cynghorau Sir dargedu'r 'defnyddiwr terfynol cywir' a chynyddu'r budd yn gysylltiedig â lleoliad strategol y safleoedd hyn hyd yr eithaf.</p> <p>Gallai ymagwedd fwy rhagweithiol tuag at weithio mewn partneriaeth gan y sector cyhoeddus a'r sector preifat olygu bod modd datgloi rhwystrau i ddatblygu.</p>					<p>Rheoli ymholiadau ynghylch safleoedd amgen: Cafwyd tystiolaeth anecdotaidd o 'restrau aros' ar gyfer safleoedd llai (tua 5,000 troedfedd sgwâr neu lai); Dylai Cynghorau gydweithio â Llywodraeth Cymru er mwyn helpu i ymateb i'r ymholiadau hyn ar draws ffiniau awdurdodau lleol.</p>	<p>Ymgysylltu â'r Farchnad: Gellir gwneud mwy o waith maes i ymgysylltu â'r farchnad a meithrin perthynas waith gryfach â busnesau allweddol presennol o fewn yr Ardal 'Fwy na Lleol'.</p> <p>Yr oedd canfyddiad ymhlith rhai busnesau brodorol o fewn yr ardal mai 'twf newydd' oedd yn cael y flaenoriaeth. Fodd bynnag, o gydnabod natur gyffredinol allgarol yr ardal, mae busnesau brodorol yn fwy tebygol o fuddsoddi yn natblygiad cyffredinol y 'lle', y seilwaith a'r sgiliau.</p>	<p>A yw'r ymyriad eang a'r camau gweithredu cysylltiedig yn parhau i fod yn berthnasol yn 2020/21? Ystyrir bod yr ymyriadau'n parhau i fod yn berthnasol i 2020.</p> <p>Graddfa'r Newid? Er gwaethaf y pandemig a'r ansicrwydd ynghylch Brexit mae galw o hyd am dwf a newid ac felly mae ymgysylltu'n hollbwysig.</p> <p>Pwyntiau Gweithredu? Dylai'r Cynghorau Sir weithio gyda'r Banc Datblygu i ystyried ffyrdd y caiff cyfleoedd ariannu eu cyfleu a'u marchnata ar draws rhanbarth y ddwy sir. Dylai'r Cynghorau Sir ystyried ymgysylltu â Llywodraeth Cymru i gyflwyno'r achos bod cwmnïau brodorol yn cael eu cau allan o gyllid datblygu busnes prif ffrwd.</p>	+ / ?

INV8: Sicrhau ystod eang o sgiliau ar wahanol lefelau

INV8 Cynllunio datblygiad sgiliau a hyfforddiant mewn modd strategol i gyd-fynd ag anghenion cyfredol ac anghenion y dyfodol: Oherwydd natur amrywiol yr economi 'Fwy na Lleol', mae gofynion cyflogwyr o ran sgiliau a chymwysterau yn amrywio'n helaeth. Dylid ymdrechu i gefnogi gofynion cyflogwyr allweddol o ran sgiliau, a chynllunio i fodloni anghenion y sectorau a nodwyd sy'n cynnig cyfleoedd / sectorau cyflenwol. Dylid datblygu'r cyfle, ochr yn ochr â'r budd yn gysylltiedig â'r lleoliad, a'u gwerthu er mwyn ceisio cadw pobl ifanc sy'n gadael yr ysgol. Mae'r ymyriad hwn yn debygol o ddod yn bwysicach fyth wrth i oblygiadau Brexit ddod i'r amlwg, yn benodol yn achos y gweithluoedd sector hynny sy'n cynnwys gweithwyr yr UE o'r tu allan i'r DU⁶⁰, neu gallai newidiadau macro-economaidd gael effaith strwythurol a dwys ar ran benodol o'r gweithlu (h.y. sectorau sy'n cynnwys dynion yn bennaf, neu swyddi a gyflawnir gan bobl ifanc).

Tabl 11 Sicrhau ystod eang o sgiliau ar wahanol lefelau

Sbardunau	Ymyriadau Eang (2019)	Is-gamau gweithredu posibl / Allbynnau ar safle (2019)	Diweddariad Sylfaenol 2020 (Crynhoi data sylfaenol, ymgysylltu, adolygiad llenyddiaeth)	Goblygiadau Posibl (Yn amodol ar adolygiad parhaus)	Sgôr Risg
SK1	<p>Mewn trafodaethau â chyflogwyr allweddol amlygwyd bylchau posibl o ran sgiliau, gyda ffocws neilltuol ar raddfeydd rheolwyr canol.</p> <p>Yn ogystal â hyn, byddai angen cysoni datblygiad sgiliau ar draws yr Ardal 'Fwy na Lleol' ag egin-sectorau/sectorau twf (INV1), gan weithio gyda cholegau a phrifysgolion lleol a chyfleu'r cyfleoedd o ran gyrfa yn sectorau allweddol neu egin-sectorau'r ardal (ee, y diwydiant gwasanaeth, DAM ac ati).</p> <p>Ystyrir bod yr hyn a gynigir o ran 'lle' a ffordd o fyw yn Sir Benfro a Sir Gaerfyrddin yn atynfa fawr i rai sy'n chwilio am gydbwysedd bywyd/gwaith gwell, neu rai sy'n dymuno byw a gweithio mewn amgylchedd o ansawdd uchel. Fodd bynnag, ystyriwyd bod yr ased hwn yn denu Uwch-reolwyr a Swyddogion, a'i fod efallai'n llai deniadol i rai sy'n gadael yr ysgol neu wrth geisio denu rheolwyr canol.</p>	<ul style="list-style-type: none"> Cysylltu â sefydliadau a darparwyr addysg i sicrhau bod cyrsiau a hyfforddiant yn gyson â chryfderau sectorau ar draws yr Ardal 'Fwy na Lleol'. Wrth archwilio meysydd twf posibl yn y dyfodol (e.e. pren a DAM), sicrhau bod sefydliadau addysgol yn cael eu cynnwys mewn trafodaethau cynnar a'u bod yn ymwybodol o'r sgiliau a'r hyfforddiant angenrheidiol yn gysylltiedig â chyfle o'r fath ar y cyfle cyntaf. Ystyried ymhellach sut y gall ymyriadau ehangach neu newidiadau macro-economaidd (h.y. Brexit) newid yr anghenion o ran sgiliau / hyfforddiant ar draws yr ardal 'Fwy na Lleol' a chynllunio i ailhyfforddi/gwella sgiliau. Hyrwyddo'r Ardal 'Fwy na Lleol' ymhlith rhai sy'n gadael yr ysgol, gan weithio gyda chyflogwyr allweddol i roi amlinelliad clir o'r cyfleoedd a gynigir o fewn y rhanbarth. 	<ol style="list-style-type: none"> Mae data a gyflwynir yn yr adolygiad sylfaenol yn dangos y bu gostyngiad bach pellach yn y rheiny a gyflogir mewn crefftau medrus yn Sir Benfro sy'n awgrymu bod allfudo sgiliau yn parhau i fod yn broblem. Rhoddodd rhanddeiliaid enghreifftiau o sut y maent wedi ymgysylltu â sefydliadau addysgol lleol (e.e. Coleg Sir Gâr) a chyflogwyr lleol er mwyn creu cyrsiau pwrpasol sy'n benodol i sgiliau fel y'u cyflwynwyd yn astudiaeth 2019. Mae dysgu sgiliau newydd wedi bod yn rhethreg gyffredin drwy gydol y pandemig Covid-19, sydd yn tynnu sylw at newid posibl yn y sgiliau sy'n ofynnol a allai effeithio ar ardal y ddwy sir⁶¹. Mae adroddiad 'The Skills Analysis of the Effects of Covid-19 on Pembrokeshire' yn nodi bod effeithiau staffio wedi bod yn amrywiol ac yn eang. Mae mesurau lliniaru ar draws sectorau i gynnal busnes wedi cynnwys lleihau oriau staff a/neu oriau gweithredu, ffyrlo a gwneud diswyddiadau. Roedd yr adroddiad hefyd yn tynnu sylw at yr ystyriaethau allweddol canlynol: <ul style="list-style-type: none"> 'Yr angen am wella sgiliau digidol a TGCh ar draws sectorau, gan gyfeirio'n benodol at heriau'n ymwneud â gweithio gartref a hyfforddiant sy'n gysylltiedig â defnyddio Microsoft Teams.' 'Arweiniodd newidiadau i weithdrefnau iechyd a diogelwch hefyd at ofynion hyfforddi ychwanegol (e.e. ar gyfer adeiladu a bwyd a diod).' 'Galw cymysg yn y dyfodol am brentisiaethau; mae rhai sectorau'n rhagweld na fydd unrhyw newid ac mae eraill yn ofalus fel adeiladu, twristiaeth, hamdden a lletygarwch.' 'Mae'r costau sy'n gysylltiedig â pharatoi ar gyfer gweithredu mewn economi ar ôl y cyfyngiadau yn bryder mawr i fusnesau.' 'Mae'n debygol y bydd rhagor o swyddi'n cael eu colli o ganlyniad i'r pandemig (yn dilyn diwedd y cynllun ffyrlo), ac nad yw graddfa hyn yn hysbys.' Mae posiblwydd y bydd Cytundeb Masnach yr UE-DU yn effeithio ar symudedd gweithwyr proffesiynol yn y sector gwasanaethau, a allai effeithio ar sgiliau o fewn sectorau penodol. Teimlwyd hyn yn fwyaf difrifol, hyd yma, yn nifer y gyrwyr cerbydau nwyddau trwm sydd ar gael. Ym mis Gorffennaf 2021, cymeradwywyd Achos Busnes arfaethedig ar gyfer y rhaglen Sgiliau a Thalentau ar gyfer ardal Bargaen Ddinesig Bae Abertawe. Nod y rhaglen yw datblygu cyfleoedd i unigolion ledled y rhanbarth wella eu sgiliau trwy nodi bylchau mewn sgiliau, gweithio gyda darparwyr addysg, datblygu Canolfannau Rhagoriaeth a chreu cyfleoedd prentisiaeth. Cyngor Sir Caerfyrddin yw'r Awdurdod arweiniol dynodedig ar gyfer y Rhaglen Sgiliau a Thalentau ac sy'n gyfrifol am ei chyflawni ar draws y rhanbarth. 	<p>A yw'r ymyriad eang a'r camau gweithredu cysylltiedig yn parhau i fod yn berthnasol yn 2020/21? Mae'r ymyriad eang a'r is-gamau gweithredu yn parhau i fod yn berthnasol iawn i Ddiweddariad 2020-21. Mae yna angen o hyd o fewn yr ardal 'Fwy na Lleol' i gadw sgiliau a chysoni'r rhain â photensial twf yn y dyfodol dros y tymor canolog a'r tymor hir, yn enwedig er mwyn creu cydnheredd yn y gweithlu mewn amgylchedd economaidd heriol.</p> <p>Graddfa'r Newid? Ers dechrau'r pandemig Covid-19, bu mwy o ffocws ar sgiliau digidol, a ysgogwyd gan fwy o weithio gartref ac ati. Efallai bod y pandemig hefyd wedi tynnu sylw mwy dwys at feysydd o wendid, er enghraifft, y gyfran fawr o waith tymhorol mewn llety a gwasanaethau bwyd, sy'n arwain at fwy o ddefnydd o'r cynllun ffyrlo, yn enwedig yn Sir Benfro.</p> <p>Camau Gweithredu?</p> <ul style="list-style-type: none"> Hyrwyddo'r defnydd o sgiliau digidol i sicrhau llythrennedd cyfrifiadurol, yn arbennig ymhlith pobl ifanc, yn enwedig o ganlyniad i'r amgylchedd gwaith sy'n newid. Gweithio'n agos gyda darparwyr addysg lleol i sicrhau bod cyrsiau a seilwaith priodol (e.e. offer TG) ar waith i hwyluso'r dysgu. Gweithio'n agos gyda'r rhaglen Sgiliau a Thalentau ar gyfer ardal Bargaen Ddinesig Bae Abertawe a chyda Llywodraeth Cymru i ddatrys bylchau sgiliau nodedig. 	+ / ?

⁶⁰ <https://llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2019-07/dogfen-ymgyngori-bwyd-a-diod.pdf>⁶¹ <https://uk.reuters.com/article/uk-health-coronavirus-britain-workforce/uk-faces-skills-shortage-as-Covid-19-splits-job-market-mckinsey-says-idUKKBN27W1P0>

INV9: Cysylltedd a lle

INV9: Sicrhau na chaiff asedau naturiol yr ardal eu tanwerthu mewn strategaethau buddsoddi yn y dyfodol, ond sicrhau bod y lle, y cysylltedd a'r seilwaith cymdeithasol yn cyd-fynd â disgwyliadau gweithwyr medrus sydd am adleoli i'r ardal:

Tabl 12 Cysylltedd a lle

Sbardunau	Ymyriadau Eang	Is-gamau gweithredu posibl / Allbynnau ar safle (2019)	Diweddariad Sylfaenol 2020 (Crynhoi data sylfaenol, ymgysylltu, adolygiad llenyddiaeth)	Goblygiadau Posibl (Yn amodol ar adolygiad parhaus)	Sgôr Risg
G1	<p>Sicrhau bod ansawdd asedau naturiol yn cael ei adlewyrchu mewn seilwaith cymdeithasol: Mewn adborth gan randdeiliaid, ystyriwyd nad oedd seilwaith cymdeithasol (fel ysgolion, addysg a darpariaeth gofal iechyd) o reidrwydd yn adlewyrchu'r harddwch naturiol o ansawdd uchel wrth geisio denu a chadw ystod o weithwyr proffesiynol medrus ac anfedrus yn yr ardal.</p> <p>Ystyrir y bydd 'Lle' yn hollbwysig er mwyn denu a chadw gweithwyr, a hefyd wrth gadw'r boblogaeth iau.</p>	<ul style="list-style-type: none"> Gweithio ar draws disgyblaethau i sicrhau y buddsoddir mewn gwasanaethau ategol allweddol a seilwaith cymdeithasol o fewn yr ardal. Dylai'r awdurdodau 'Mwy na Lleol' barhau i weithio gyda Thrafnidiaeth Cymru a rhanddeiliaid eraill er mwyn ceisio uwchraddio a gwella seilwaith allweddol. Mae nifer o fusnesau yn yr ardal wedi cyfeirio'n arbennig at hygyrchedd a chysylltiadau rheilffyrdd sy'n destun adolygiad ar hyn o bryd, oherwydd y cysylltiadau ehangach a gynigir i Lundain. Dylai'r awdurdodau barhau i gydweithio i fuddsoddi mewn dulliau teithio llesol a'r seilwaith ar gyfer hynny, gan greu cysylltiadau ar draws y rhanbarth er budd cymunedau lleol ac ymwelwyr, y naill a'r llall. Yn ei dro, gallai hyn greu cyfleoedd yn gysylltiedig â thwristiaeth beicio. 	<ol style="list-style-type: none"> Cymerwyd camau ers astudiaeth 2019 i gefnogi buddsoddiad pellach mewn seilwaith cymdeithasol, yn enwedig seilwaith digidol sy'n dod yn ffocws gwirioneddol a ddangosir gan brosiect seilwaith digidol y Fargen Ddinesig. Mae'r pandemig wedi agor cyfleoedd pellach ar gyfer buddsoddi o ganlyniad i ffrydiau ariannu newydd megis y Gronfa Trafnidiaeth Gynaliadwy a'r Gronfa Trawsnewid Trefi. Cydnabyddir i'r gwrthwyneb y gallai prosiectau cyfalaf mawr megis metro De-orllewin Cymru fod yn anoddach i'w gwireddu, oherwydd yr hyn sy'n debygol o fod yn dirwedd economaidd heriol barhaus. Er gwaethaf hyn, ar y llaw arall, ysgrifennwyd yn eang am rôl seilwaith mewn adferiad economaidd yng nghyd-destun 'ergydion' byd-eang blaenorol ac felly⁶² gallai'r degawd nesaf gyflwyno cyfleoedd i brosiectau ar raddfa fwy wella cysylltedd yng ngorllewin Cymru. Ym mis Ionawr 2020 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru raglen fuddsoddi gwerth £100 miliwn ar gyfer canol trefi ledled Cymru, a elwir yn 'Gronfa Trawsnewid Trefi'. Mae'r gronfa'n ymgorffori rhaglenni ariannu sy'n bodoli eisoes gan gynnwys y Rhaglen Targedu Buddsoddiad mewn Adfywio (TRIP), Cronfa Cymunedau'r Arfordir a chronfa benthyciadau canol trefi. Gall hon gael ei defnyddio fel a ganlyn: <ol style="list-style-type: none"> datblygu eiddo nad yw'n cael ei ddefnyddio ddigon, sy'n wag neu sy'n dadfeilio i fod yn fusnesau, tai, cyfleusterau hamdden, safleoedd masnachol neu gyfleusterau cymunedol gwella ymddangosiad eiddo a/neu eu hail-lunio i'w gwneud yn fwy hyfyw gwella safleoedd presennol drwy gyflwyno gwasanaethau arloesol a chysylltedd, megis band eang cyflym, a fydd yn denu busnesau. Cyfleoedd i gynyddu 'gweithio gartref' a manteision hyn i economïau lleol iawn (h.y. 'cymdogaethau pymtheg munud', a hynny gan gynnal 'ysbryd entrepreneuriaeth'. 	<p>A yw'r ymyriad eang a'r camau gweithredu cysylltiedig yn parhau i fod yn berthnasol yn 2020/21? Mae gwelliannau i seilwaith cymdeithasol yn ymyriad sydd â ffocws mwy tymor canolig i'r tymor hir ac o ganlyniad mae'n parhau i fod yn berthnasol yn 2020/2021.</p> <p>Graddfa'r newid? Ers 2019 ceir newidiadau mewn ymddygiad o ganlyniad i'r pandemig Covid-19 a allai arwain at newid blaenoriaethau o ran buddsoddi mewn seilwaith (e.e. digidol) a gwariant lleol yn y dyfodol o ganlyniad i fwy o weithio gartref. Yn ogystal, mae'r pandemig wedi agor ffrydiau ariannu newydd posibl i gyflymu'r gwelliannau a gynlluniwyd, tra bod cynlluniau eraill, megis Bargaen Ddinesig Bae Abertawe, wedi datblygu dros y flwyddyn ddiwethaf.</p> <p>Gallai'r tueddiadau hyn hefyd arwain at oblygiadau tymor hwy ynghylch beth ddylai'r blaenoriaethau fod wrth fuddsoddi mewn trafndiaeth. Mae prosiectau trafndiaeth mwy (e.e. gwelliannau i'r rheilffyrdd) yn llawer mwy hirdymor eu ffocws, ond gallai cydweithio fel yr hyn a ddangosir drwy'r Fargen Ddinesig yn y rhanbarth wella'r gwaith o gyflawni prosiectau cyfalaf posibl.</p> <p>Camau Gweithredu?</p> <ul style="list-style-type: none"> Parhau i llobio am ymestyn y ddarpariaeth band eang cyflym iawn i ardaloedd sydd â lefelau isel o ddarpariaeth ar hyn o bryd. Bydd hyn yn cynnwys deall beth mae Strategaeth Ddigidol newydd Llywodraeth Cymru yn ei olygu i Sir Benfro a Sir Gaerfyrddin. Archwilio cyfleoedd i wneud y mwyaf o wariant lleol yn sgil gweithio helaeth o gartref (drwy fannau rhentu desg a chanolfannau busnes bach), a allai alluogi synergeddau ag entrepreneuriaeth leol. Parhau i adolygu goblygiadau'r pandemig ar symudiadau trafndiaeth a darpariaeth trafndiaeth leol. Mae Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru (2021 – 2026) hefyd wedi cynnig darparu 45% o deithiau trwy ddulliau cynaliadwy erbyn 2040 ac mae'n bwriadu lansio Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru 10 mlynedd. 	++ / ?

⁶² <https://infrastructure.aecom.com/2020/the-future-is-now-infrastructures-role-in-economic-recovery>

6 Casgliad

6.1 Diben Diweddariad 2020-21

Ers cyhoeddi astudiaeth 2019 bu newid economaidd nas gwelwyd ei fath o'r blaen, yn benodol mewn perthynas ag ymadawiad y DU o'r Undeb Ewropeaidd ('Brexit') a dechrau'r pandemig Covid-19. Mae'r 'ergydion' economaidd hyn wedi cael effaith ddofn ar raddfa leol, ranbarthol, genedlaethol a rhyngwladol.

Mae **Diweddariad 2020-21** yn ceisio 'profi' perthnasedd a graddfa'r newid ar gyfer pob un o'r ymyriadau a'r argymhellion am safleoedd strategol a gyflwynwyd yn astudiaeth 2019 yng ngoleuni cyd-destun economaidd sy'n newid yn gyflym. Nid yw'r Adroddiad Diweddarau hwn, sy'n cynnwys yr Adolygiad Dros Dro hwn o Ymyriadau; Atodiad A Adolygiad Sylfaenol ac Atodiad B Adolygiad o Ragolygon, yn rhestr gynhwysfawr o ddiweddariadau ac nid yw wedi ceisio ailadrodd gwybodaeth a gasglwyd fel rhan o astudiaeth 2019. Ni fwriedir iddo ychwaith fod yn llinell sylfaen bendant o'r holl strategaethau a mentrau economaidd yn Ardal yr Astudiaeth.

Yn ogystal, gan mai dim ond ar 1 Ionawr 2021 y daeth Trefniant Masnachu'r UE-DU i rym, ac nid yw effeithiau tymor canolig Covid-19 yn glir eto, nid yw'r effeithiau'n hysbys eto. Bydd nifer fawr o fygythiadau a chyfleoedd canfyddedig yn dibynnu ar allu busnesau unigol a'r llywodraeth i ymateb mewn modd ystwyth i'r newidiadau hyn. Bydd diweddariadau parhaus i'r Astudiaeth hon, y SWOT a'r Adolygiad Sylfaenol felly'n parhau'n hanfodol drwy gydol 2021 a thu hwnt i'r archwiliad o'r Cynllun Datblygu Lleol.

6.2 Prif Negeseuon

Ystyrir mai'r canlynol yw'r prif negeseuon sy'n codi ar gyfer adolygiad sylfaenol Diweddariad 2020-21 ac adolygiad o'r rhagolygon:

- Yn gyffredinol, dangosodd yr adolygiad sylfaenol a'r gwaith ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol fod themâu cyffredinol astudiaeth 2019, gan gynnwys y sectorau allweddol a nodwyd a rhai o'r prif sbardunau e.e. canolbwyntio ar seilwaith strategol (Dyfrffordd y Daugleddau a'r M4/A48/A40) yn parhau i fod yn berthnasol flwyddyn yn ddiweddarach.
- Mae bygythiadau amlwg yn deillio o gyd-destun economaidd sy'n newid yn gyflym yn 2020/2021 o ganlyniad i Brexit a'r pandemig Covid-19. Mae bygythiadau pob un yn ymwneud, yn rhannol, ag ymdeimlad o ansicrwydd ynghylch sut y gallai'r dyfodol edrych. Er enghraifft, mae'r goblygiadau posibl o ran costau yn gysylltiedig â Chytundeb Masnach yr UE-DU ar reolaethau ffiniau iechydol a ffytoiechydol (SPS), ac nid yw effaith gyffredinol Brexit ar reoliadau sgiliau a masnach (megis Rheol Tarddiad) o fewn ardal y ddwy sir hyd yma'n hysbys. Efallai mai dim ond yn y tymor canolig i'r tymor hir y daw'r rhain i'r amlwg. O ran Covid-19, nid yw'n hysbys eto sut y bydd y sectorau sydd wedi cael eu taro'n arbennig o galed (e.e. twristiaeth) yn mynd ati i gael eu hadfer.

- Fel y nodir yn adran 4, mae yna hefyd gyfleoedd clir i Ardal yr Astudiaeth sydd wedi dod i'r amlwg dros y flwyddyn ddiwethaf. Er enghraifft, mewn perthynas ag amaethyddiaeth mae cyfle i hyrwyddo arferion rheoli tir yn gynaliadwy ymhellach, gan fywiogi'r sector wrth gyfrannu at dargedau amgylcheddol. Ceir ymdeimlad o 'entrepreneuriaeth' yn ardal y ddwy sir o ganlyniad i'r pandemig a gall hyn arwain at rywfaint o dwf mewn sectorau allweddol a nodwyd megis twristiaeth a'r diwydiannau creadigol, a chafwyd galw cynyddol cydnabyddedig am storio a dosbarthu y gallai'r ddau awdurdod sir ei archwilio'n fanylach.
- Mae'r rhagolygon yn dangos, er bod dirywiad cyflym wedi bod mewn swyddi a Gwerth Ychwanegol Gros sydd wedi bod yn gyffredin ar draws bron pob sector o ganlyniad i'r pandemig Covid-19, mae adfywiad cryf a ddangosir gan duedd 'siâp V' hefyd yn gyffredin, fel y dangosir ar y graffiau yn Atodiad B.
- Yn y tymor hwy, mae'r rhagolygon yn dangos bod twf yn cael ei ragweld mewn llety a gwasanaethau bwyd, gwasanaethau cyhoeddus a gwasanaethau proffesiynol a gwasanaethau preifat eraill. Rhagwelir y bydd cyflogaeth gweithgynhyrchu yn dal i brofi dirywiad cyffredinol dros y tymor hir, felly hefyd amaethyddiaeth, coedwigaeth a physgota a oedd yn wir yn 2019. Tr
- O gymharu â'r rhagolygon blaenorol, mae data 2021 yn dangos gofyniad tir ychydig yn uwch yn y ddwy sir o gymharu â data 2020, er ei fod ychydig yn is na'r gofynion a nodwyd yn 2019. Ar gyfer y rhan fwyaf o sectorau, mae'r amcanestyniad hwn yn parhau i ymwneud ag effaith y pandemig a'r amser sydd ei angen i wella i lefelau cyflogaeth cyn y pandemig cyn tyfu. Mae hyn yn cynnwys cyfnod o adferiad ac felly mae'r rhagolygon yn y rhan fwyaf o achosion yn dangos 'bwlch' gyda lefelau cyflogaeth mewn sectorau allweddol yn cymryd amser i fynd yn ôl i lefelau a brofwyd cyn y pandemig. Mae'r newidiadau yn y galw am dir hefyd yn adlewyrchu rhai newidiadau allweddol yn y rhagolygon, gan gynnwys gostyngiad yn y swm a ragwelir o dir B8 sy'n gyrru'r gofyniad cyffredinol i lawr.
- Dylid nodi hefyd bod y galw am dir a ragwelir yn parhau i adlewyrchu cymeriad daearyddol ardal y ddwy sir, sy'n canolbwyntio mwy ar sectorau megis twristiaeth, hamdden a gwasanaethau cyhoeddus nad ydynt yn arwain yn hanesyddol at alw mawr am dir.
- Fel y nodwyd yn Atodiad B, rhaid cydnabod natur rhagolwg y tueddiadau a gyflwynir ac mae'n bosibl y bydd rhai sectorau / categorïau yn adfywio'n gryf yn gyflymach neu i raddau mwy na'r hyn a ragwelwyd, yn enwedig os oes cymorth ar waith i gefnogi adferiad o'r fath. Mae rhywfaint o'r cymorth posibl hwn hefyd wedi'i archwilio'n fanwl o fewn y llinell sylfaen, er enghraifft y gronfa 'Trawsnewid Trefi' a allai fod yn gatalydd ar gyfer gweithredu mentrau adfywio cynlluniedig (e.e. adfywio'r stryd fawr) a chynllun adfer a arweinir gan Adeiladu Lleodd Gwell Llywodraeth Cymru. Dylai'r ddau awdurdod sir geisio archwilio'r cyfleoedd hyn yn fanwl er mwyn sicrhau'r manteision mwyaf posibl.

6.2.1 Ymyriadau

Mae'r negeseuon allweddol sy'n deillio o Ddiweddariad 2020-21 mewn perthynas â phob un o'r ymyriadau wedi'u crynhoi isod:

INV1 – Gwneud y gorau o gryfderau sectorau cyflenwol drwy fanteisio i'r eithaf ar adnoddau naturiol ac ychwanegu gwerth.

Mae cryn dipyn o ansicrwydd yn aros mewn perthynas â thwristiaeth sy'n cael effaith ganlyniadol ar archwilio cysylltiadau â'r sector hwn e.e. lletygarwch bwyd, y sector mordeithio. O ganlyniad, bydd ymgysylltu â chyrff megis VisitBritain a Croeso Cymru yn hanfodol er mwyn sicrhau bod ardal y ddwy sir mewn sefyllfa dda i fanteisio i'r eithaf ar gyfleoedd os a phryd y maent yn codi. Mae ardal y ddwy sir mewn sefyllfa dda o hyd i wneud y defnydd gorau o'i hadnoddau naturiol ar gyfer cynhyrchu ynni ac mae'r fframwaith polisi ar gyfer cyfleoedd o'r fath wedi cryfhau ers cyhoeddi astudiaeth 2019.

INV2 – Archwilio opsiynau i ymateb i alw sectoraidd a chefnogi cwmnïau brodorol drwy gynyddu hyblygrwydd wrth gynllunio.

Mae'r galw sectoraidd wrth symud ymlaen yn parhau i fod yn faes o ansicrwydd o ystyried bod effaith tymor byr, tymor canolig a thymor hir Brexit yn parhau i fod yn ansicr. Mae tystiolaeth anecdotaidd yn awgrymu bod yna alw cudd o hyd am eiddo llai ar adeg ysgrifennu'r adroddiad; fodd bynnag, ni ellir dweud gyda sicrwydd y bydd hyn yn parhau yn wyneb newidiadau posibl i drefniadau staffio a masnach ac felly mae hyn yn rhywbeth y dylai'r ddau gyngor sir ei fonitro'n agos.

Mae'r Banc Datblygu yn debygol o fod yn adnodd pwysig o ran hwyluso'r gwaith o ddarparu tir cyflogaeth yn y rhanbarth ac felly un argymhelliad yw sicrhau bod darpar fuddsoddwyr yn y rhanbarth yn ymwybodol o'r cyfle hwn. Ers cyhoeddi astudiaeth 2019, cafwyd sawl enghraifft o'r defnydd o Orchmynion Datblygu Lleol i gefnogi twf yn rhanbarth y ddwy sir ac mae'r dull hwn hefyd yn cael ei argymhell mewn polisi, sef o fewn cynllun adfer 'Adeiladu Lleoedd Gwell' Llywodraeth Cymru. Mae Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru (2021-2026) yn cefnogi'r ymyriad hwn trwy geisio cynorthwyo busnesau Cymru i greu swyddi newydd, dod o hyd i farchnadoedd allforio a buddsoddi mewn diwydiannau gwyrdd cynaliadwy.

INV3 – Archwilio cyfleoedd i weithio mewn partneriaeth â'r sector preifat i leihau dibyniaeth ar gyllid y sector cyhoeddus.

Mae'r Bwlch Gwerth yn parhau i fod yn broblem barhaus ar draws ardal y ddwy sir ac roedd y rhanddeiliaid yn gytûn nad oedd yn debygol o newid. Fel y cyfryw, mae'r camau i fonitro dyfodol cyfleoedd ariannu ar ôl Cytundeb Masnach yr UE-DU yn parhau i fod yn berthnasol iawn i Ddiweddariad 2020-21. Er mai prin fu'r newid o ran hyrwyddo partneriaethau cyhoeddus-preifat ers cyhoeddi astudiaeth 2019, o ystyried y newid mawr drwy gydol 2020/21, mae hyn yn parhau i fod yn gam pwysig i'w ystyried.

INV4 - Cadw asedau strategol ar gyfer galw yn y dyfodol

Ceir ymdeimlad o ansicrwydd o hyd mewn perthynas â defnydd yn y dyfodol o amgylch Dyfrffordd y Daugleddau ac asedau strategol eraill e.e. Maes Awyr Hwlffordd. Er gwaethaf hyn, mae'n parhau'n hanfodol diogelu'r asedau hyn er mwyn sicrhau nad yw cyfleoedd sy'n ymwneud â'u manteision lleoliadol yn cael eu colli. Tra bod rhagolygon 2021 yn is na rhagolygon mis Medi 2020, gan fod hyn yn cyd-fynd â rhagolygon 2019 neu'n uwch na hynny, mae'r galw posibl am safleoedd cyflawni yn aros. Mae ymchwil sylfaenol yn awgrymu y gallai'r galw hwn brofi twf pellach o ganlyniad i'r pandemig Covid-19 a'r cynnydd mewn e-fasnach.

INV5 - Ymyriadau ar safleoedd strategol

O ganlyniad i Gytundeb Masnach y DU a'r UE ac yn benodol, trothwyon Rheol Tarddiad, argymhellir y dylai'r Cyngor Sir ymgysylltu â busnesau lleol i ddeall lefel yr allforion a wneir o fewn ardal y ddwy sir. Ystyrir bod hyn yn arbennig o bwysig mewn perthynas â chlystyrau safleoedd strategol sydd fel arfer yn cefnogi busnesau'r gadwyn gyflenwi. Yn gyffredinol, mae'r dystiolaeth a gasglwyd fel rhan o Ddiweddariad 2020-21 yn awgrymu bod yr ymyriadau ar safleoedd strategol fel y'u cyflwynwyd yn astudiaeth 2019 yn parhau i fod yn berthnasol ar adeg ysgrifennu hwn, er bod adolygiad pellach yn ddiweddarach i ddeall yn llawn effeithiau Brexit a'r pandemig Covid-19 hefyd yn cael ei argymhell.

INV6 - Adolygu mentrau gofodol presennol ac arfaethedig

Ychydig o wybodaeth bellach a ryddhawyd dros y flwyddyn ddiwethaf mewn perthynas ag Ardaloedd Menter, ac felly mae'r pwynt gweithredu i adolygu llwyddiannau a manteision safleoedd Ardal Menter yn parhau i fod yn berthnasol. Mae cyfle o hyd i borthladdoedd o fewn ardal y ddwy sir dderbyn statws 'Porthladd Rhydd'; fodd bynnag, ar adeg ysgrifennu hwn, ychydig o wybodaeth bellach sydd mewn perthynas â'r broses ymgeisio ar gyfer porthladdoedd Cymru. Bydd monitro cynnydd Porthladdoedd Rhydd yn ychwanegol yn dilyn y Datganiad Gweinidogol Ysgrifenedig diweddar yn hanfodol.

INV7 - Cydgysylltu, rhwydweithiau a chymorth busnes

Mae'r newidiadau sydd wedi digwydd ers cyhoeddi astudiaeth 2019 wedi tynnu sylw pellach at yr angen am gydgysylltu cryf, rhwydweithiau a chymorth busnes o fewn Ardal Astudiaeth y ddwy sir. Er enghraifft, bydd angen i'r sector cyhoeddus-preifat weithio mewn partneriaeth i ddarparu ar gyfer newidiadau sy'n ofynnol fel rhan o Gytundeb Masnach y DU a'r UE. Mae cyfle o hyd i weithio gyda'r Banc Datblygu i ystyried ffyrdd y caiff cyfleoedd ariannu eu cyfleu a'u marchnata ar draws rhanbarth y ddwy sir.

INV8 - Sicrhau ystod eang o sgiliau ar wahanol lefelau

Mae'r pandemig Covid-19 wedi amlygu meysydd o wendid yn economi ardal y ddwy sir, er enghraifft mae dibyniaeth uchel ar waith tymhorol/rhan-amser a

gwaith o fewn sectorau allweddol megis llety a gwasanaethau bwyd wedi arwain at gyfran uchel o weithwyr ar ffyrlo. Mae cyfleoedd yn dod i'r amlwg mewn perthynas â dysgu sgiliau newydd a gwella sgiliau, yn enwedig gyda golwg ar sgiliau digidol. Dylai'r Cynghorau Sir edrych ar ffyrdd o hyrwyddo'r defnydd o sgiliau digidol i sicrhau llythrennedd cyfrifiadurol, yn arbennig ymhlith pobl ifanc, yn enwedig o ganlyniad i'r amgylchedd gwaith sy'n newid. Dylent weithio'n agos gyda darparwyr addysg lleol i sicrhau bod cyrsiau a seilwaith priodol (e.e. offer TG) ar waith i hwyluso'r dysgu. Bydd hyn hefyd yn cynnwys gweithio'n agos gyda'r rhaglen Sgiliau a Thalentau ar gyfer ardal Bargaen Ddinesig Bae Abertawe i ddatrys bylchau sgiliau nodedig.

INV9 - Cysylltedd a lle

Gallai'r pandemig Covid-19 arwain at newidiadau hirdymor yn y ffordd y mae pobl yn dewis byw a gweithio a allai efallai wella 'ffordd o fyw' Gorllewin Cymru. Er bod hyn yn parhau i fod yn ansicr iawn ar hyn o bryd, dylai'r Cynghorau Sir sicrhau eu bod yn y sefyllfa orau y gallant fod i fanteisio ar y newidiadau posibl hyn. O ganlyniad, argymhellir bod y Cynghorau Sir yn parhau i lobïo am ymestyn darpariaeth band eang cyflym iawn i ardaloedd sydd â lefelau isel o ddarpariaeth ar hyn o bryd. Dylent archwilio cyfleoedd i wneud y mwyaf o wariant lleol yn sgil gweithio helaeth o gartref (drwy fannau rhentu desg a chanolfannau busnes bach), a allai alluogi synergeddau ag entrepreneuriaeth leol. Mae angen parhau hefyd i adolygu goblygiadau'r pandemig ar symudiadau trafndiaeth a darpariaeth trafndiaeth leol.